# Cwestiynau Ysgrifenedig a atebwyd rhwng 30 Mawrth a 6 Ebrill 2006

[R] yn nodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.
[W] yn nodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg.

**Cynnwys**

Cwestiynau i'r Prif Weinidog

Cwestiynau i'r Gweinidog dros Ddiwylliant, y Gymraeg a Chwaraeon

Cwestiynau i'r Gweinidog dros Fenter, Arloesi a Rhwydweithiau

Cwestiynau i'r Gweinidog dros Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau

Cwestiynau i'r Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynllunio a Chefn Gwlad

Cwestiynau i'r Gweinidog Cyllid

Cwestiynau i'r Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

Cwestiynau i'r Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio

Cwestiynau i'r Trefnydd

## Cwestiynau i'r Prif Weinidog

**Peter Black:** Pa drafodaethau y mae'r Prif Weinidog wedi'u cynnal gydag Ysgrifennydd Gwladol Cymru ynghylch canlyniad y Comisiwn Pwer? (WAQ46307)

**Y Prif Weinidog (Rhodri Morgan):** Dim, gan fod y Comisiwn Pwer yn gorff annibynnol ac nad yw ei adroddiad wedi cael ei gomisiynu gan Lywodraeth Cynulliad Cymru na Llywodraeth y DU.

**Nick Bourne:** Beth yw cost debygol cynghorwyr arbennig i Lywodraeth Cynulliad Cymru bob blwyddyn er 1999, a beth fydd y gost debygol yn 2006-07? (WAQ46410)

**Y Prif Weinidog:** Fe'ch cyfeiriaf at fy ateb i'ch cwestiynau, WAQ39984 a WAQ39985 ym mis

Tachwedd 2004, a fanylai ar gostau cynghorwyr arbennig hyd at 31 Hydref 2004. Dangosir y ffigurau terfynol am 2004-05 a’r gwariant hyd at ddiwedd Chwefror 2005-06 isod:

| **Blwyddyn** | **Cost cynghorwyr arbennig** |
|---|---|
| 2004-05 | £317,108 |
| 2005-06 | £314,022* |

*Y gost ar 28 Chwefror 2006

Yr amcangyfrif cyfredol o’r gwariant ar gynghorwyr arbennig yn 2006-07 yw £348,264, yn amodol ar godiadau cyflog blynyddol.

**Nick Bourne:** Pa drafodaethau y mae’r Prif Weinidog wedi eu cael gyda Phrif Weinidog Prydain ynghylch cais posibl am arian cyfatebol gan y Trysorlys? (WAQ46424)

**Y Prif Weinidog:** Un fer iawn.

**Nick Bourne:** Pa drafodaethau y mae’r Prif Weinidog wedi eu cael gyda chyd-Aelodau yn y Cabinet ynghylch cost a swyddogaeth cynghorwyr arbennig? (WAQ46425)

**Y Prif Weinidog:** Dim ers i’r cynghorwyr cyfredol gael eu penodi.

**Nick Bourne:** Pa drafodaethau y mae’r Prif Weinidog wedi eu cael gydag Ysgrifennydd Gwladol Cymru ynglyn â phwer niwclear yng Nghymru? (WAQ46426)

**Y Prif Weinidog:** Yr wyf yn cwrdd yn rheolaidd ag Ysgrifennydd Gwladol Cymru ac yn trafod amryw o faterion.

**Nick Bourne:** Pa drafodaethau y mae’r Prif Weinidog wedi eu cael gyda Phrif Weinidog Prydain ynglyn ag ynni niwclear yng Nghymru? (WAQ46427)

**Y Prif Weinidog:** Dim.

**Laura Anne Jones:** Pa drafodaethau y mae'r Prif Weinidog wedi'u cynnal i sicrhau nad effeithir er gwaeth ar y cyllid a'r cymorth a gaiff awdurdodau lleol gan CCNC pan ddaw'r cyrff hyn yn rhan o wasanaeth sifil y Cynulliad Cenedlaethol? (WAQ46460)

**Y Prif Weinidog:** Mae fy nghyd-Aelodau yn y Cabinet a minnau wedi ymwneud yn helaeth â rhanddeiliaid drwy gydol y broses uno.

Mae gan awdurdodau lleol ran bwysig i'w chwarae ac maent yn cyfrannu'n sylweddol tuag at roi blaenoriaethau Llywodraeth Cynulliad Cymru ar waith. Mae camau wedi cael eu cymryd i sicrhau na fydd y rhaglen i uno CCNC â'r Llywodraeth yn effeithio ar y rôl hon.

**Eleanor Burnham:** Pa gyfarfodydd y mae'r Prif Weinidog wedi'u cynnal gyda'r Gweinidog dros Ddiwylliant i drafod penodi cadeirydd newydd i Gyngor Celfyddydau Cymru? (WAQ46508)

**Eleanor Burnham:** A wnaeth y Gweinidog dros Ddiwylliant ymgynghori â'r Prif Weinidog y broses o benodi Cadeirydd newydd Cyngor Celfyddydau Cymru, ac, os felly, pryd? (WAQ46509)

**Eleanor Burnham:** A wnaeth y Prif Weinidog wella'r broses ar gyfer penodi cadeirydd newydd Cyngor Celfyddydau Cymru? (WAQ46511)

**Eleanor Burnham:** Pa swyddogaeth fu gan y Prif Weinidog yn y penderfyniad terfynol ynghylch cadeirydd newydd Cyngor Celfyddydau Cymru? (WAQ46512)

**Eleanor Burnham:** A wnaeth y Gweinidog dros Ddiwylliant roi gwybod i'r Prif Weinidog am benderfyniad y Gweinidog dros Ddiwylliant ynghylch pwy fydd Cadeirydd newydd Cyngor Celfyddydau Cymru, ac, os felly, pryd? (WAQ46513)

**Y Prif Weinidog:** Nid oes gennyf ddim i'w ychwanegu at y datganiad a wnaethpwyd gan y Gweinidog dros Ddiwylliant, y Gymraeg a Chwaraeon ar 28 Mawrth 2006.

## Cwestiynau i'r Gweinidog dros Ddiwylliant, y Gymraeg a Chwaraeon

**Jonathan Morgan:** Pa lefel o gefnogaeth ariannol y mae’r Gweinidog wedi’i darparu er mwyn galluogi tîm Cymru i baratoi ar gyfer Gemau'r Gymanwlad? (WAQ46313)

**Jonathan Morgan:** Pa gefnogaeth ariannol y mae’r Gweinidog wedi’i darparu tuag at gostau anfon tîm Cymru i Gemau'r Gymanwlad? (WAQ46314)

**Y Gweinidog dros Ddiwylliant, y Gymraeg a Chwaraeon (Alun Pugh):** Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn fodlon â’r datblygiadau a’r gwelliannau sydd wedi cael eu gwneud i Gyngor Gemau’r Gymanwlad dros Gymru. Mae’r strwythur hwn ar ei newydd wedd wedi golygu bod modd gweithredu’n llawer gwell, gan ganolbwyntio’n llwyr ar yr athletwyr, a bydd hynny yn sicr o helpu’r cystadleuwyr yn Nhîm Cymru i allu perfformio ar lwyfan y byd hyd eithaf eu gallu.

Mae buddsoddiad llawn Llywodraeth Cynulliad Cymru yn Nhîm Cymru ar gyfer Gemau’r Gymanwlad 2006 yn £300,000, sydd yn fwy na 70 y cant o’r gost lawn ddisgwyliedig o anfon Tîm Cymru i gystadlu yn Melbourne. O’r £300,000 hwn, mae £150,000 yn cael ei gyllido’n uniongyrchol—yn gyfnewid am y cymorth hwn bydd Tîm Cymru’n hyrwyddo Her Iechyd Cymru cyn, yn ystod ac ar ôl y gemau—a £150,000 drwy Gyngor Chwaraeon Cymru. Mae’r cyngor chwaraeon hefyd wedi rhyddhau adnoddau staff sylweddol i gynorthwyo Tîm Cymru, sy’n ychwanegol at y cymorth a ddarparwyd yn y gorffennol.

**Peter Black:** A wnaiff y Gweinidog fanylu ynghylch unrhyw geisiadau neu ymholiadau a dderbyniwyd gan Gymdeithas Lleiafrifoedd Ethnig Cymru Gyfan am gyllid dan ei reolaeth er 1999? (WAQ46326)

**Alun Pugh:** O’r wybodaeth sydd ar gael nid yw AWEMA wedi gwneud unrhyw geisiadau am gymorth o unrhyw un o’r ffynonellau cyllid yn fy mhortffolio i.

**Nick Bourne:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am bolisïau Llywodraeth Cynulliad Cymru ar gyfer hyrwyddo diwylliant Cymru dramor? (WAQ46344)

**Alun Pugh:** Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn achub ar bob cyfle i hyrwyddo diwylliant Cymru dramor. Mae nifer o gynlluniau sy’n helpu i godi proffil rhyngwladol Cymru. Er enghraifft, mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn cefnogi gwobr Artes Mundi sy’n cydnabod artistiaid gweledol o ba le bynnag yn y byd y maent yn dod. Mae Eisteddfod Gerddorol Gydwladol Llangollen hefyd yn denu cerddorion o bob cwr o’r byd.

Yn ddiweddar lansiais gyfres Llyfrgell Cymru yn Efrog Newydd. Nod y gyfres, sy’n cael ei hariannu gan Lywodraeth Cynulliad Cymru, yw gwneud mwy o’n diwylliant llenyddol cyfrwng Saesneg ar gael i bawb ac mae’n wych fod y gyfres ar gael yn yr Unol Daleithiau erbyn hyn.

Mae Cyngor Llyfrau Cymru, sy’n cael ei ariannu gan Lywodraeth Cynulliad Cymru, wedi ymrwymo i hyrwyddo llyfrau o Gymru dramor. Yn fwyaf diweddar, arddangosodd y cyngor lyfrau yn ystod ‘Wythnos Cymru yn Efrog Newydd’ a chefnogodd lansiad Llyfrgell Cymru yn yr UD. Mae arddangos mewn ffeiriau llyfrau rhyngwladol mawr yn Llundain a Frankfurt yn ychwanegu at y sylw rhyngwladol a roddir i’r diwydiant cyhoeddi yng Nghymru ac mae’n gyfle rhagorol i gyhoeddwyr i werthu llyfrau a hawlfraint ddeallusol. Mae siop lyfrau ar-lein y cyngor llyfrau, www.gwales.com, yn cael ei hyrwyddo’n rhagweithiol ledled y byd ac mae’n golygu bod llyfrau o Gymru, ac am Gymru, yn dod i sylw darllenwyr rhyngwladol.

Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn dal i ariannu’r prosiect i anfon athrawon o Gymru i Batagonia. Yn ogystal, mae CyMAL: Amgueddfeydd, Archifau a Llyfrgelloedd Cymru yn ymgymryd â gweithgareddau i feithrin cysylltiadau cynaliadwy rhwng amgueddfeydd, archifau a llyfrgelloedd lleol yng Nghymru a’r gymuned Gymreig ym Mhatagonia.

**Nick Bourne:** Pa drafodaethau y mae’r Gweinidog wedi eu cynnal gyda Gweinidogion Llywodraeth y DU ynghylch effaith Gemau Olympaidd 2012 ar Gymru? (WAQ46345)

**Alun Pugh:** Mae Gemau Olympaidd 2012 yn eitem sefydlog ar agenda’r Cabinet chwaraeon, cyfarfod Gweinidogion chwaraeon y DU. Mae fy swyddogion mewn cysylltiad yn rheolaidd â Llywodraeth y DU a Phwyllgor Trefnu Llundain ar gyfer y Gemau Olympaidd.

**Peter Black:** Pa gyfarfodydd y mae’r Gweinidog wedi’u cael ar yr adolygiad o siarter y BBC? (WAQ46346)

**Alun Pugh:** Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf yr wyf wedi cwrdd â’r BBC, S4C, a’r undebau darlledu i drafod yr adolygiad o siarter y BBC. Yr wyf hefyd wedi trafod yr adolygiad mewn cyfarfodydd gyda Nick Ainger AS, Is-ysgrifennydd Gwladol Cymru.

**Peter Black:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am swyddogaeth Cymru yng Ngemau Olympaidd 2012? (WAQ46347)

**Alun Pugh:** Mae gan Gymru rôl bwysig i’w chwarae yng Ngemau Olympaidd 2012. Er enghraifft, bydd Stadiwm y Mileniwm yn croesawu gemau yn rowndiau cyntaf y twrnamaint pêl-droed.

**William Graham:** A wnaeth y Gweinidog gwrdd ag Arthur Emyr (cyfarwyddwr Cymru ar gyfer Gemau Olympaidd 2012) yn ystod ei ymweliad diweddar â Chymru? (WAQ46348)

**Alun Pugh:** Mae Arthur Emyr ar secondiad i Awdurdod Datblygu Cymru ar hyn o bryd ac mae ei ganolfan waith yng Nghaerdydd. Mae Arthur mewn cysylltiad rheolaidd â'm swyddogion.

**Ann Jones:** Pa drafodaethau y mae'r Gweinidog wedi eu cael ynghylch cyfraniad Cymru i'r adolygiad annibynnol o bêl-droed Ewropeaidd? (WAQ46349)

**Alun Pugh:** Nid wyf wedi cynnal unrhyw drafodaethau yn ymwneud â'r adolygiad o bêl-droed Ewropeaidd. Fodd bynnag, byddaf yn cysylltu â rhanddeiliaid allweddol ym maes pêl-droed yng Nghymru i sicrhau eu bod yn ymwybodol o'r adolygiad ac i annog mewnbwn o Gymru.

Fel y gwyddoch, mae ein Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chwaraeon hefyd yn cynnal adolygiad o bêl-droed yng Nghymru ac mae hynny'n gyfle defnyddiol i gyfrannu at yr adolygiad ac i gyfrannu mewnbwn pellach o Gymru.

**Carl Sargeant:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am faint a fanteisiodd ar y mynediad am ddim i dri safle ar ddeg Cadw ar Ddydd Gwyl Dewi Sant eleni? (WAQ46350)

**Alun Pugh:** Ar Ddydd Gwyl Dewi Sant 2006, rhoddodd Llywodraeth Cynulliad Cymru heibio'r taliadau mynediad i henebion, i ddathlu ein diwrnod cenedlaethol, Dydd Gwyl Dewi Sant, ac agoriad swyddogol ein hadeilad Senedd yma yng Nghaerdydd.

Y bwriad oedd y byddai tair ar ddeg o henebion sydd yng ngofal Cadw ar agor: Castell Coch, Baddonau Caer Rufeinig Caerllion, Castell Caerffili, Castell Cas-gwent, Castell Rhaglan, Abaty Tyndyrn, Castell Cydweli, Palas yr Esgob yn Nhyddewi, a'r safleoedd treftadaeth byd, Castell Biwmares, Castell Harlech, Castell Caernarfon. Nid fu'n bosibl agor Cwrt a Chastell Tre-twr a Chastell a Muriau Tref Conwy am fod y tywydd mor ddrwg.

Er gwaethaf yr eira trwm, y tywydd drwg a'r amodau teithio anodd, croesawyd 1,222 o ymwelwyr.

O'i gymharu â'r un diwrnod yn 2005, cafodd 628 o ymwelwyr ychwanegol brofi'r dreftadaeth ddiwylliannol gyfoethog sydd gan Gymru i'w chynnig.

Cafodd y cynllun dderbyniad da gan ymwelwyr a denodd sylw positif, helaeth yn y wasg yng Nghymru a thu hwnt.

Yn ddiamheuaeth, hyrwyddodd y cynllun ewyllys da ac mae’n arwydd pellach o’m hymrwymiad i alluogi a datblygu mynediad i’r henebion sydd yng ngofal Cadw.

**Carl Sargeant:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am faint o bobl hyn sy’n manteisio ar nofio am ddim? (WAQ46351)

**Alun Pugh:** Ers lansio’r cynllun ym mis Tachwedd 2004, mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi buddsoddi dros £2.3 miliwn mewn nofio am ddim i bobl dros 60 oed ac mae ymateb ein dinasyddion hyn wedi bod yn gadarnhaol iawn.

Canfu arolwg diweddar fod mwy nag un rhan o bump o nofwyr dros 60 oed yn ddefnyddwyr newydd, sy’n galonogol iawn yn wir. Rhwng mis Ebrill a mis Gorffennaf 2005, cofnododd yr awdurdodau lleol dros 40,000 o sesiynau nofio am ddim y mis ar gyfartaledd ac mae un awdurdod wedi cofnodi cynnydd o 200 y cant yn y sesiynau gan bobl dros 60 oed oherwydd y cynllun.

Mae cynlluniau nofio am ddim yn darparu ystod o weithgareddau strwythuredig y gall pobl hyn elwa ohonynt. Maent yn cynnwys rhaglenni dysgu nofio, aerobeg dwr, sesiynau teidiau/neiniau a phlant a dosbarthiadau campfa-ddwr. Mae nofio am ddim i bobl dros 60 oed yn cael effaith gadarnhaol ar fywydau pobl hyn ar draws Cymru drwy gynyddu symudedd ac iechyd ac yr ydym yn bwriadu datblygu’r cynllun ymhellach y flwyddyn nesaf, gan adeiladu ar y gwersi gwerthfawr sydd wedi cael eu dysgu hyd yma.

**Ann Jones:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am swyddogaeth llyfrgelloedd yng Nghymru? (WAQ46352)

**Alun Pugh:** Mae llyfrgelloedd yn darparu gwasanaeth a werthfawrogir yn fawr, sy’n agored i bob dinesydd. Mae’r gwasanaeth yn annog cymryd rhan ym mywyd y gymuned, mae’n cefnogi dysgu anffurfiol ac yn hyrwyddo diwylliant Cymru. Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi ymrwymo i weithio mewn partneriaeth ag awdurdodau lleol, Llyfrgell Genedlaethol Cymru, addysg uwch ac addysg bellach i ddatblygu gwasanaethau llyfrgell sy’n diwallu anghenion pobl Cymru ac yn gwella ansawdd eu bywydau. Mae llyfrgelloedd cyhoeddus Cymru yn darparu mynediad am ddim at gyfleusterau TG mewn mwy na 300 o lyfrgelloedd ar hyn o bryd gan roi sylw i anghenion y rhai y mae perygl iddynt gael eu heithrio rhag gwasanaethau gwybodaeth digidol.

Yn 2005-06 mae Llywodraeth Cynulliad Cymru drwy CyMAL: Amgueddfeydd, Archifau a Llyfrgelloedd Cymru wedi parhau i fuddsoddi er mwyn moderneiddio gwasanaethau llyfrgell gyda’r rhaglen gwerth £1 miliwn @ Eich Llyfrgell Chi: rhaglen strategol gychwynnol i ddatblygu llyfrgelloedd Cymru 2005 hyd at 2007. Ei nod yw sicrhau mynediad i’r cyhoedd at gasgliadau sy’n cael eu cadw

mewn llyfrgelloedd ar draws Cymru, ehangu’r gwasanaethau ar-lein, marchnata gwasanaethau i ddefnyddwyr newydd a datblygu sgiliau staff i ymateb i sialensiau cyflenwi gwasanaethau llyfrgell modern.

Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru hefyd yn parhau i fonitro safonau llyfrgelloedd cyhoeddus Cymru a chyhoeddodd ‘Llyfrgelloedd Cyhoeddus Cynhwysfawr, Effeithlon a Modern i Gymru - Hyrwyddo Safonau Gwasanaeth Uwch 2005-08’ i’r perwyl hwnnw ym mis Mai 2005. Dynododd adolygiad o’r tair blynedd gyntaf, o 2002 hyd at 2005, welliannau sylweddol o ran cyflenwi gwasanaethau ar draws Cymru, yn cynnwys:

- cynnydd o 15 y cant yn nifer yr ymwelwyr:
- cynnydd o 13 y cant yn yr oriau agor:
- cynnydd o 45 y cant yn y gwariant ar ddefnyddiau llyfrgell at ddefnydd y cyhoedd.

**John Griffiths:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am bolisi Llywodraeth Cynulliad Cymru ar hyrwyddo chwaraeon yng Nghymru? (WAQ46353)

**Alun Pugh:** Fe’ch cyfeiriaf at fy ateb ar 19 Ionawr 2006 i WAQ45430.

**Leanne Wood:** Pa drafodaethau y mae'r Gweinidog wedi eu cynnal gyda heddlu Dyfed Powys ynghylch eu polisi iaith Gymraeg? (WAQ46386)

**Leanne Wood:** Pa drafodaethau y mae'r Gweinidog wedi eu cynnal gyda heddlu Gwent ynghylch eu polisi iaith Gymraeg? (WAQ46387)

**Leanne Wood:** Pa drafodaethau y mae'r Gweinidog wedi eu cynnal gyda heddlu De Cymru ynghylch eu polisi iaith Gymraeg? (WAQ46388)

**Leanne Wood:** Pa drafodaethau y mae'r Gweinidog wedi eu cynnal gyda heddlu Gogledd Cymru ynghylch eu polisi iaith Gymraeg? (WAQ46389)

**Alun Pugh:** Nid wyf wedi cael trafodaethau o’r fath.

Bwrdd yr Iaith Gymraeg sy’n gyfrifol am oruchwylio’r gwaith o baratoi, cymeradwyo a gweithredu cynlluniau iaith Gymraeg yr heddluoedd yng Nghymru. Cynrychiolir pob llu ar weithgor heddluoedd

Cymru ar yr iaith Gymraeg, sy'n cwrdd yn rheolaidd i drafod materion yn ymwneud â'r Gymraeg.

**Owen John Thomas**: Pa gamau y mae'r Gweinidog yn eu cymryd i ddod â'r cyfleustodau sydd bellach wedi'u preifateiddio o fewn cwmpas Deddf yr Iaith Gymraeg fel y nodir ym mhwynt 2.30 o Iaith Pawb? (WAQ46453) [W]

**Alun Pugh:** Mae Llywodraeth y Cynulliad eisoes wedi cymryd camau i ddod â'r holl gwmnïau dwr sy'n gweithredu yng Nghymru o fewn cwmpas Deddf yr Iaith Gymraeg. Yr wyf wrthi'n ystyried pa mor briodol fyddai pennu sectorau eraill o dan adran 6(1)(o) o'r Ddeddf.

**David Lloyd:** A yw Llywodraeth Cynulliad Cymru yn cyllido'r fenter ymddiriedolaeth cefnogwyr ac os felly, beth yw lefel y cyllid hwnnw? (WAQ46502)

**Alun Pugh:** Dychmygaf eich bod yn cyfeirio at y fenter uniongyrchol i gefnogwyr, sy'n hyrwyddo a chefnogi sefydlu ymddiriedolaethau cefnogwyr ar gyfer cefnogwyr pêl-droed. Cynllun gan Lywodraeth y DU yw hwn. Gallaf gadarnhau nad yw Llywodraeth Cynulliad Cymru yn cyllido unrhyw ymddiriedolaethau cefnogwyr yng Nghymru.

**Eleanor Burnham:** Ar ba ddyddiad y cymeradwyodd y Gweinidog feini prawf a phroses penodi ar gyfer penodi cadeirydd newydd ar gyngor y celfyddydau? (WAQ46524)

**Eleanor Burnham:** A wnaiff y Gweinidog ddarparu copïau i'r Aelodau o'r hysbyseb derfynol ar gyfer swydd cadeirydd cyngor y celfyddydau a'r dogfennau i ymgeiswyr? (WAQ46539)

**Alun Pugh:** Bydd y swydd Cadeirydd tymor llawn yn cael ei hysbysebu'n ddiweddarach eleni. Byddaf yn rhyddhau'r dogfennau y cyfeirir atynt bryd hynny.

**Eleanor Burnham:** A yw'r Gweinidog wedi enwebu, ar unrhyw adeg, unrhyw ymgeiswyr yn bersonol ar gyfer swydd Cadeirydd neu aelodau Cyngor y Celfyddydau? (WAQ46534)

**Alun Pugh:** Bydd y broses er mwyn penodi cadeirydd i'r cyngor am dymor llawn yn ddarostyngedig i'r broses ffurfiol lawn ar gyfer penodiadau cyhoeddus. Bydd y swydd yn cael ei hysbysebu'n gyhoeddus a bydd yn agored i unrhyw un i ymgeisio. Mae'r un egwyddorion yn cael eu cymhwyso i'r ymarferiad

cyfredol i benodi aelodau.

**Eleanor Burnham:** A yw'r Gweinidog wedi gofyn i'r Comisiynydd dros Benodiadau Cyhoeddus am eithriad o unrhyw un o feini prawf y cod penodiadau cyhoeddus sy'n ymwneud â phenodi aelodau newydd i gyngor y celfyddydau? (WAQ46538)

**Alun Pugh:** Nad ydwyf.

## Cwestiynau i'r Gweinidog dros Fenter, Arloesi a Rhwydweithiau

**Carl Sargeant:** Pa drafodaethau y mae'r Gweinidog wedi'u cael ynghylch creu canolfan ragoriaeth ar gyfer y diwydiant adeiladu? (WAQ46308)

**Y Gweinidog dros Fenter, Arloesi a Rhwydweithiau (Andrew Davies):** Cyfarfu'r Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio a minnau â'r CITB-Sgiliau Adeiladu Cymru ym mis Tachwedd 2004 pan gafodd y cynnig ynglyn â chanolfan sgiliau adeiladu ei awgrymu gyntaf.

Yn fwy diweddar, mae'r Gweinidog dros Addysg a Dysgu Gydol Oes a minnau wedi cael nifer o drafodaethau am ddatblygu strategaeth ehangach er mwyn i Lywodraeth y Cynulliad a'i phartneriaid ddarparu ymateb cyson a chydgysylltiedig i anghenion economaidd ac anghenion sgiliau'r sector adeiladu yng Nghymru.

**Peter Black:** A wnaiff y Gweinidog fanylu ynghylch unrhyw geisiadau neu ymholiadau a dderbyniwyd gan Gymdeithas Lleiafrifoedd Ethnig Cymru Gyfan am gyllid Amcan 1 er 1999? (WAQ46323)

**Andrew Davies:** Nid yw Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru wedi derbyn unrhyw geisiadau am gyllid Amcan 1 gan AWEMA er 1999, ac nid yw wedi cofnodi unrhyw ymholiadau am gyllid Amcan 1 gan y mudiad.

**Peter Black:** A wnaiff y Gweinidog fanylu ynghylch unrhyw geisiadau neu ymholiadau a dderbyniwyd gan Gymdeithas Lleiafrifoedd Ethnig Cymru Gyfan am gyllid dan ei reolaeth er 1999? (WAQ46324)

**Andrew Davies:** Er 1999 mae fy adran wedi darparu'r cymorth ariannol canlynol i AWEMA:

I gyflogi swyddog datblygu economaidd:

| | |
|---|---|
| 2001-02 | £27,667 |
| 2002-03 | £50,000 |
| Mid Ebrill hyd at fis Medi 2003 | £27,667 |

Mae pwyllgor rheoli EQUAL Cymru wedi cymeradwyo dau gais gan Bartneriaeth Ddatblygu Curiad Calon Cymru, yn cynrychioli tua 20 o gyrff partner: AWEMA yw'r partner arweiniol. Rhoddir manylion cryno isod:

| | |
|---|---|
| Rhaglen: | EQUAL (Menter Gymunedol Cronfa Gymdeithasol Ewrop) |
| Teitlau'r Prosiectau: | Curiad Calon Cymru |
| Grant a Ddyfarnwyd: | £64,741 |
| Rhaglen: | EQUAL (Menter Gymunedol Cronfa Gymdeithasol Ewrop) |
| Teitlau'r Prosiectau: | Curiad Calon Cymru A2 |
| Grant a Ddyfarnwyd: | £1,744,718 |

Cyflwynwyd pedwar cais i raglen Amcan 3, ond fe'u tynnwyd yn ôl ym mis Hydref 2005.

**Nick Bourne:** Sawl damwain ffordd a fu ar yr A487 yng Nglandyfi dros y 10 mlynedd ddiwethaf y mae cofnodion ar gael ar eu cyfer? (WAQ46329)

**Andrew Davies:** Yn y 10 mlynedd ddiwethaf, rhwng 1 Mawrth 1996 a 28 Chwefror 2006, mae 13 o ddamweiniau lle'r achoswyd anafiadau personol wedi cael eu cofnodi ar yr A487 yng Nglandyfi, rhwng yr eiddo a elwir yn 'Voelas' a'r gyffordd â'r isffordd sy'n arwain i Gaerhedyn, tua 2 km o hyd. O'r rhain yr oedd 11 yn fân ddamweiniau a dwy yn ddifrifol. Ni fyddai'r nifer hwn o ddamweiniau dros y cyfnod hwn yn cael ei ystyried yn gyfradd ddamweiniau uchel fel arfer.

**Nick Bourne:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am roi cyfyngiad cyflymder ar waith ar yr A487 yng Nglandyfi gan gofio'r problemau y gwyddys amdanynt ar y darn hwn o ffordd? (WAQ46330)

**Andrew Davies:** Mae statws anghyfyngedig cyfredol yr A487 yng Nglandyfi yn unol â pholisi cyfyngiadau cyflymder Trafnidiaeth Cymru, o ystyried y lefel isel iawn o ddatblygiad ar hyd y ffryntiad.

Ein bwriad ar hyn o bryd yw peidio â phennu cyfyngiad cyflymder newydd, ond byddwn yn monitro'r sefyllfa'n ofalus.

Bydd cynllun gwella arfaethedig Glandyfi, y mae gorchmynion statudol drafft wedi cael eu cyhoeddi ar ei gyfer, yn gwella llinell y ffordd a'i lled yn fawr.

**Nick Bourne:** Pa waith gwella cefnffyrdd sydd ar y gweill yn sir Gaerfyrddin ar gyfer 2006-07, 2007-08 a 2008-09? (WAQ46331)

**Nick Bourne**: Pa waith gwella cefnffyrdd sydd ar y gweill yn sir Benfro ar gyfer 2006-07, 2007-08 a 2008-09? (WAQ46332)

**Nick Bourne:** Pa waith gwella cefnffyrdd sydd ar y gweill yng Ngheredigion ar gyfer 2006-07, 2007-08 a 2008-09? (WAQ46333)

**Nick Bourne:** Pa waith gwella cefnffyrdd sydd ar y gweill ym Mhowys ar gyfer 2006-07, 2007-08 a 2008-09? (WAQ46334)

**Andrew Davies:** Mae fy mlaenoriaethau cyfredol o ran gwelliannau mawr i'r seilwaith cefnffyrdd yng Nghymru wedi eu cynnwys yn atodiad 2004 at flaenraglen gefnffyrdd 2002. Nid oes cynlluniau mawr yn y flaenraglen i ddechrau yng Ngheredigion cyn 2010. Rhoddir crynodeb o'r cynlluniau yn sir Gaerfyrddin, sir Benfro a Phowys cyn 2010 a'u blaenoriaeth isod:

| **Ardal** | **Ar y Gweill** | **Rhaglennwyd i Ddechrau erbyn mis Mawrth 2007** | **Yn Barod i Ddechrau erbyn mis Ebrill 2010** |
|---|---|---|---|

| | | | |
|---|---|---|---|
| Powys | A479 Ffordd Liniaru Talgarth / Ffordd Osgoi Bonllys<br><br>(I’w chwblhau gwanwyn 2007) | A470 Alltmawr<br><br>A483 Four Crosses | |
| Sir Benfro | | A40 The Kell | |
| Sir Gaerfyrddin | | | A483 Llandeilo<br><br>A40 Llanddewi Felffre<br><br>A40 Penblewin hyd at Barc Slebech<br><br>A477 Sanclêr hyd at Rhos-goch |

Mae gennym hefyd raglen o gynlluniau uwchraddio, sy’n cynnwys gwelliant yng Nglandyfi ar yr A487 (yng Ngheredigion), a threfniadau newydd i ddarparu gwell cyffordd ar yr A40 yn Llansanffraid ym Mhowys. Ymysg enghreifftiau eraill o gynlluniau arfaethedig o fewn y rhaglen hon mae Christmas Pitch ac Ysgïog ar yr A470 ym Mhowys, a gwaith ar Moors Straight ar yr A483 ym Mhowys i wneud y ffordd yn llai tueddol o gael llifogydd.

Mae’r Cynulliad hefyd yn gwario £30 miliwn y flwyddyn yn fras ar waith gwella arall ar draws Cymru. Yn ogystal â gwella’r lefelau gwasanaeth i fodurwyr, mae’r cynlluniau hyn yn hyrwyddo cerdded a beicio diogel ac maent yn gwella’r amgylchedd lleol y mae’r gefnffordd yn mynd drwyddo. Drwy’r cynlluniau hyn, mae cyfraniad y rhwydwaith tuag at dargedau cenedlaethol diogelwch ar y ffyrdd yn cael ei gyflawni.

Mae’r rhaglenni i gyd yn amodol ar i’r gweithdrefnau statudol gael eu cwblhau a bod cyllid ar gael.

**David Lloyd:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am docynnau teithio rhad mewn tacsi ar gyfer pensiynwyr na allant ddefnyddio bysiau oherwydd eu hiechyd corfforol ac, yn ei sgil, y cynllun teithio am ddim ar y bysiau? (WAQ46373)

**Andrew Davies:** Yn unol â darpariaethau adran 145(6) o Ddeddf Trafnidiaeth 2000, gall person y mae ganddo hawl i gael tocyn teithio rhad statudol gan awdurdod lleol ofyn i'r awdurdod hwnnw ganiatáu consesiwn amgen yn unol ag adran 93 o Ddeddf Trafnidiaeth 1985. Fel arfer, mae'r pwer dewisol hwn sydd gan awdurdodau lleol wedi cael ei ddefnyddio i ddarparu tocynnau i'w defnyddio ar fathau eraill o gludiant cyhoeddus ar wahân i fysiau. Yr wyf yn darparu £3 miliwn dros dair blynedd i brofi'r dull gorau o ddarparu teithio am ddim ar gludiant cymunedol i ddeiliaid tocynnau sydd ag anabledd difrifol nad ydynt yn gallu defnyddio hyd yn oed fws modern hygyrch, â llawr isel.

**David Lloyd:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am lefel y cyllid a ddyfarnwyd i Gymdeithas Lleiafrifoedd Ethnig Cymru Gyfan gan Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru, a lefel yr arian cyfatebol y cytunwyd arni i'w roi gan y Gymdeithas honno? (WAQ46377)

**Andrew Davies:** Mae pwyllgor rheoli EQUAL Cymru wedi cymeradwyo dau gais prosiect oddi wrth Bartneriaeth Ddatblygu Curiad Calon Cymru, sef grant o £1,809,459 i gyd. Mae'r bartneriaeth yn cynrychioli rhyw 20 o gyrff partner: AWEMA yw'r partner arweiniol. Partneriaeth Ddatblygu Curiad Calon Cymru sy'n darparu'r pecyn arian cyfatebol.

**Alun Cairns:** A wnaiff y Gweinidog restru aelodau'r grwpiau ymgynghorol menter ac arloesi a fydd yn cynnig cyfle i'r sector preifat gael cipolwg ar bolisïau? (WAQ46390)

**Andrew Davies:** Mae'r swyddogion yn gweithio ar hyn o bryd ar y broses o recriwtio cadeirydd ac aelodau i'r grwp hwn. Mae'r broses yn cadw'n gaeth at egwyddorion penodiadau cyhoeddus Nolan ac ni chaiff unrhyw fanylion eu cyhoeddi nes bydd y broses hon wedi cael ei chwblhau.

**Kirsty Williams:** Pa anogaeth a roddir i'r gadwyn o archfarchnadoedd Morrison i gynnwys canghennau Cymru yn eu proses bresennol o gyflwyno pympiau tanwydd bio ethanol E85? (WAQ46391)

**Andrew Davies:** Nid oes trafodaethau wedi cael eu cynnal gyda Morrisons. Penderfyniad masnachol ac amgylcheddol gan Morrisons oedd cyflwyno pympiau tanwydd bio ethanol E85. Mae'n ceisio cyllid o dan grant seilwaith yr Ymddiriedolaeth Arbed Ynni tuag at gostau'r mannau ail-lenwi â thanwydd. Mae'r grant hwn ar gael ar draws y DU.

Yn dilyn ymrwymiad yn y cynllun gweithredu ar ddatblygu cynaliadwy, mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi comisiynu prosiect i ymchwilio i fanteision hyrwyddo tanwyddau amgen yng Nghymru a'r rhwystrau rhag gwneud hynny. Caiff yr adroddiad ei gyhoeddi'n fuan.

**Leighton Andrews:** A yw'r Gweinidog yn ymwybodol o unrhyw ymchwil i effaith taliadau iawndal y glowyr ar economi De Cymru; ac os nad yw, a wnaiff gomisiynu ymchwil o'r fath? (WAQ46432)

**Andrew Davies:** Mae'r wybodaeth ddiweddaraf a ddarparwyd gan yr Adran Masnach a Diwydiant, sy'n arwain ar y cynlluniau iawn am anafiadau iechyd personol yn y meysydd glo, yn dangos bod dros £450 miliwn wedi cael ei dalu erbyn 28 Chwefror 2006 i hawlwyr o dde Cymru (a ddiffinnir fel etholaethau Cynulliad Cenedlaethol Cymru i'r de o Geredigion a Sir Drefaldwyn).

Ymgymerodd yr Adran Masnach a Diwydiant ag ymchwil i effaith economaidd y gwariant cyhoeddus ychwanegol hwn yn 2004, ac amcangyfrifai fod y taliadau iawndal yn cael effaith sylweddol yng Nghymoedd y De (a ddiffinnir gan ardaloedd NUTS 3 y 'Cymoedd Canol' a 'Chymoedd Gwent'). Dyfynnir yr ymchwil hwn yn fyr yn yr adolygiad o gynlluniau iawndal iechyd y meysydd glo:

http://www.dti.gov.uk/coalhealth/pdf/ex_review.pdf (Saesneg, tudalen 29)

http://www.dti.gov.uk/coalhealth/pdf/t0J3K9M1.pdf (Cymraeg, tudalen 31)

Ar hyn o bryd, nid wyf yn bwriadu cynnal unrhyw ymchwil pellach.

**Lisa Francis:** Faint o arian a roddwyd i brosiectau twristiaeth yng nghanolbarth a gorllewin Cymru a gogledd Cymru er 1999 ac a wnaiff y Gweinidog roi manylion y prosiectau unigol? (WAQ46441)

**Andrew Davies:** Mae Bwrdd Croeso Cymru wedi cymeradwyo grantiau gwerth £49,891,615 i brosiectau yng nghanolbarth, gorllewin a gogledd Cymru er 1999. Mae'r rhain yn cynnwys rhai prosiectau Cymru gyfan sy'n dod â budd i'r ardaloedd hynny. Mae rhestr o'r prosiectau a gymeradwywyd ynghlwm fel atodiad PDF at y ffeil hon.

**William Graham:** A wnaiff y Gweinidog amlinellu sut y caiff y gefnogaeth a roddwyd i gwmnïau yng Nghymru ei chynrychioli yn TechnologyWorld06? (WAQ46442)

**Andrew Davies:** Mae MasnachCymru Rhyngwladol wedi rhoi gwybod i gwmnïau yn y meysydd priodol er mwyn iddynt ystyried cymryd rhan, a bydd cynrychiolaeth yno o'r tîm technoleg, gwyddoniaeth ac arloesi newydd yn Llywodraeth Cynulliad Cymru.

**Owen John Thomas:** Pa gynlluniau sydd gan y Gweinidog i gefnogi anghenion cyn weithlu ASW yng ngoleuni adroddiad yr Ombwdsmon Seneddol am bensiynau? (WAQ46455)

**Andrew Davies:** Yr ydym yn dal i gefnogi'r cais o blaid ailsefydlu hawliau pensiwn cyn weithwyr ASW ar ôl i'w cyflogwr fynd i ddwylo'r derbynnydd yn 2002.

Yn sgil rhyddhau adroddiad yr ombwdsmon, ysgrifennodd y Prif Weinidog at yr Ysgrifennydd Gwladol dros Waith a Phensiynau ar eu rhan.

## Cwestiynau i'r Gweinidog dros Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau

**Janice Gregory:** A wnaiff y Gweinidog roi'r newyddion diweddaraf am ysgolion yn Ogwr sy'n cymryd rhan yn y cynllun brecwast am ddim mewn ysgolion? (WAQ46392)

**Y Gweinidog dros Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau (Jane Davidson):** Dim ond un ysgol sydd wedi ei lleoli yn ardal Ogwr, sef Ysgol Gynradd Cwm Ogwr. Mae'r ysgol wedi cael gwahoddiad i gymryd rhan yn y cynllun. Fodd bynnag, mae'r AALl wedi hysbysu'r swyddogion nad yw Ysgol Gynradd Cwm Ogwr am fanteisio ar y cynnig hwn ar hyn o bryd.

Mae'r cyd-drefnydd brecwast dros Ben-y-bont ar Ogwr wedi ysgrifennu'n ddiweddar at yr holl ysgolion cynradd nad ydynt yn cymryd rhan yn y cynllun eto (yn cynnwys Cwm Ogwr), a bydd yn parhau i gysylltu â'r ysgolion i ganfod y rhesymau dros beidio â chymryd rhan a, lle bo hynny'n bosibl, i fynd i'r afael â'r rhesymau hynny.

**Janet Ryder:** Pa drafodaethau diweddar y mae'r Gweinidog wedi eu cael ynghylch y terfyn o £3,000 ar ffioedd dysgu yng Nghymru? (WAQ46404)

**Jane Davidson:** Mae cyflwyno ffioedd dysgu hyblyg yng Nghymru wedi bod ymysg y pynciau a drafodwyd gyda chynrychiolwyr o'r sector addysg uwch yn ddiweddar, yn cynnwys Undeb Cenedlaethol y Myfyrwyr—Cymru ac Universities UK.

**Janice Gregory:** A wnaiff y Gweinidog amlinellu'r cynnydd er 2003 o ran cwtogi maint dosbarthiadau'r sector cynradd yn Ogwr? (WAQ46405)

**Jane Davidson:** Nid yw maint dosbarthiadau ar gael ar lefel etholaethau. O ran y ddau awdurdod lleol

sy’n gwasanaethu etholaeth Ogwr gostyngodd y ganran o ddisgyblion iau mewn dosbarthiadau o fwy na 30 yn sylweddol rhwng mis Medi 2003 a mis Medi 2005, o 19.4 y cant i 3.0 y cant ym Mhen-y-bont ar Ogwr ac o 27.6 y cant i 6.8 y cant yn Rhondda Cynon Taf. Sicrhawyd gostyngiadau sylweddol ym maint dosbarthiadau babanod yn y blynyddoedd cyn 2003, ac ym mis Medi 2005 0.7 y cant o ddisgyblion babanod ym Mhen-y-bont ar Ogwr oedd mewn dosbarthiadau o fwy na 30, a 4.1 y cynt o ddisgyblion babanod yn Rhondda Cynon Taf. Lle’r oedd dosbarthiadau iau a babanod yn cynnwys mwy na 30 o ddisgyblion ym mis Medi 2005, yr oedd hynny’n digwydd yn y mwyafrif helaeth o achosion am eu bod yn cynnwys plant y caniateir eu trin fel eithriadau dros dro at ddibenion y ddeddfwriaeth am faint dosbarthiadau babanod neu’r targed o ran maint dosbarthiadau iau.

**Janice Gregory:** Faint o fyfyrwyr o Ogwr sy’n mynychu prifysgolion Cymru? (WAQ46406)

**Jane Davidson:** Dengys data diweddaraf yr Asiantaeth Ystadegau Addysg Uwch fod 1,520 o fyfyrwyr AU o etholaeth Ogwr wedi cofrestru mewn sefydliadau addysg uwch yng Nghymru yn 2004-05.

**Janice Gregory:** A wnaiff y Gweinidog amlinellu llwyddiannau Llywodraeth Cynulliad Cymru ym maes addysg a dysgu gydol oes yn Ogwr? (WAQ46407)

**Jane Davidson:** Mae rhai datblygiadau cyffrous iawn ym maes addysg a dysgu gydol oes o fewn Awdurdod Addysg Lleol Pen-y-bont ar Ogwr, sy’n cynnwys etholaeth Ogwr, y mae’n werth eu nodi:

> Mae’r ganran o blant saith oed yn Ogwr sy’n cyrraedd y dangosydd pynciau craidd wedi codi 10 pwynt canran er 2003. Mae’r perfformiad fymryn uwchlaw’r cyfartaledd i Gymru gyfan erbyn hyn.
>
> Mae’r perfformiad yng nghyfnod allweddol 2 hefyd wedi gwella yn Ogwr dros y tair blynedd ddiwethaf. Mae 74 y cant o ddisgyblion 11 oed wedi cyrraedd y dangosydd pynciau craidd erbyn hyn, sef 1 pwynt canran yn unig islaw’r cyfartaledd i Gymru gyfan.
>
> Cyrhaeddodd 59 y cant o ddisgyblion 14 oed yn Ogwr y dangosydd pynciau craidd ar ddiwedd cyfnod allweddol 3, 1 pwynt canran uwchlaw’r cyfartaledd i Gymru gyfan.
>
> Mae’r perfformiad ar lefel TGAU hefyd wedi gwella yn Ogwr er 2003. Enillodd 47 y cant o ddisgyblion 15 oed o leiaf bum TGAU graddau A* i C. Mae hyn, fodd bynnag, 5 pwynt canran islaw’r cyfartaledd i Gymru gyfan.
>
> Gwelwyd cynnydd sylweddol o 9 pwynt canran yn y perfformiad Safon Uwch yn Ogwr yn 2004. Fodd bynnag, ni chafodd hyn ei gynnal yn 2005 ac mae’r ganran o ddisgyblion

17 oed a oedd yn ymgeisio mewn dau neu fwy o bynciau Safon Uwch gan ennill o leiaf ddwy radd A i C wedi gostwng i 57 y cant, sydd 11 pwynt canran islaw'r cyfartaledd i Gymru gyfan.

Y mis hwn gwelwyd Awdurdod Addysg Pen-y-bont ar Ogwr yn lansio ei becyn partneriaeth i rieni. Nod y pecyn yw helpu disgyblion gyda'u gwaith mewn sefydliadau blynyddoedd cynnar a'u gwaith ysgol mewn partneriaeth â rhieni.

Dim ond un ysgol sy'n cymryd rhan yn y cynllun brecwast am ddim mewn ysgolion cynradd o fewn etholaeth Ogwr ar hyn o bryd, sef ysgol gynradd y Betws. Mae'r cyd-drefnydd brecwast dros Ben-y-bont ar Ogwr wedi ysgrifennu'n ddiweddar at yr holl ysgolion cynradd nad ydynt yn cymryd rhan eto i'w hannog i gymryd rhan. Bydd yn parhau i gysylltu â'r ysgolion i ganfod y rhesymau dros beidio â chymryd rhan a, lle bo hynny'n bosibl, i fynd i'r afael â'r rhesymau hynny. Yn ogystal, mae'r holl ysgolion yn gallu cysylltu â gwefan prydau ysgol AALl Pen-y-bont ar Ogwr, a lansiwyd yn 2006. Nod y wefan yw rhoi gwybodaeth i rieni a disgyblion am brydau ysgol.

Drwy gydol y flwyddyn academaidd mae AALl Pen-y-bont ar Ogwr yn trefnu amryw o ddiwrnodau themâu addysgol a chystadlaethau. Nod y diwrnodau hyn yw annog a gwobrwyo disgyblion sy'n cymryd prydau ysgol am ddethol a bwyta'r dewisiadau iach sydd ar gael.

Mae prydau ysgol gynradd ym Mhen-y-bont ar Ogwr yn cynnwys pryd dau gwrs cytbwys a diod oer am £1.50 y diwrnod. Caiff y fwydlen ei chynnal ar gylchdro tair wythnos ac mae'n cael ei dosbarthu i rieni.

Mae cyllid wedi cael ei ryddhau i AALl Pen-y-bont ar Ogwr gan Lywodraeth Cynulliad Cymru, dan arweiniad CILT Cymru, y Ganolfan Ieithoedd Genedlaethol, i roi rhaglen beilot dair blynedd ar gyfer ieithoedd tramor modern ar waith mewn ysgolion cynradd. Mae'r peilot hwn yn rhan o gynllun 'Ieithoedd sy'n Cyfrif' y Cynulliad, a nod y cynllun yw cynyddu cyfranogiad mewn ieithoedd ar draws Cymru. Mae nifer o ysgolion cynradd ac ysgolion iau yn etholaeth Ogwr yn cymryd rhan yn y cynllun peilot hwn.

Drwy'r grant cyfarpar arbennig i ddysgwyr sydd ag anghenion ychwanegol, derbyniodd AALl Pen-y-bont ar Ogwr ddyraniad o £22,031 ar gyfer 2004-05 a 2005-06. Nod y grant yw darparu cyfarpar arbenigol a chymhorthion cyfathrebu y mae mawr eu hangen i alluogi disgyblion sydd ag AAA i gyrchu at y cwricwlwm.

Bydd Pen-y-bont ar Ogwr ynghyd â Chastell-nedd Port Talbot yn cael taliad llawn o £294,136 dros gynllun grant tair blynedd ar gyfer prosiectau peilot ym maes gwasanaethau lleferydd ac iaith. Nod y prosiect peilot yw datblygu trefn i gydgomisiynu gwasanaethau lleferydd ac iaith ar draws iechyd ac addysg drwy ddatblygu partneriaethau

strategol a gwasanaethau integredig.

Rhwng 1997 a 2002 darparodd Llywodraeth y Cynulliad £4,145,200 i Ben-y-bont ar Ogwr drwy’r Fargen Newydd a chyllid cyfalaf ychwanegol i wella adeiladau ysgolion. Ers hynny mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr wedi sicrhau £6,929,135 rhwng 2002 a 2007, o dan y rhaglen grant gwella adeiladau ysgolion..

Erbyn 31 Rhagfyr 2005, yr oedd Pen-y-bont ar Ogwr wedi derbyn 740 o geisiadau am y lwfans cynhaliaeth addysg oddi wrth bobl ifanc yn etholaeth Ogwr. O’r rhain, proseswyd 610 o geisiadau yn llwyddiannus.

Mae campws Pencoed o Goleg Pen-y-bont ar Ogwr yn cynnig bagloriaeth Cymru ar y lefel ganolraddol a’r lefel uwch. Ar hyn o bryd mae gan Goleg Pen-y-bont ar Ogwr 32 o fyfyrwyr canolraddol a 79 o fyfyrwyr uwch. Ymunodd Coleg Pen-y-bont ar Ogwr â pheilot bagloriaeth Cymru ym mis Medi 2005 ac mae 31 o fyfyrwyr wedi cael eu cyflwyno ar gyfer y dyfarniad canolraddol yr haf hwn.

Yn ddiweddar gwelodd cyngor Pen-y-bont ar Ogwr Ganolfan Adeiladu Caerau’n agor. Crëwyd y ganolfan mewn ymateb i’r trosglwyddiad stoc tai a ddigwyddodd ym Mwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr yn 2003. Er mwyn manteisio ar y buddsoddiad mewn tai cymdeithasol, dynodwyd rhaglen beilot o hyfforddiant mewn sgiliau adeiladu yn ardal Pen-y-bont ar Ogwr yn ystod y cyfnod hwn, a’r bwriad yw y bydd y ganolfan yn help i ddenu pobl sy’n anweithgar yn economaidd (ac eraill) yn yr ardaloedd o amgylch i gymryd rhan a chael eu hyfforddi.

Dyrannwyd £6,000 i Ben-y-bont ar Ogwr drwy’r cynllun grant cyrhaeddiad lleiafrifoedd ethnig. Diben y grant hwn yw gwella ansawdd y cyfleoedd addysgol i bob grwp o leiafrifoedd ethnig, yn cynnwys mesurau i gynorthwyo myfyrwyr y mae’r Saesneg yn iaith ychwanegol iddynt a mesurau i wella’r safonau cyrhaeddiad a mynd i’r afael â’r perygl o dangyflawni. Nid yw hyn yn cynnwys darpariaeth ar gyfer plant ceiswyr lloches sydd o oedran ysgol.

**Janice Gregory:** Faint o bobl ifanc yn Ogwr sydd wedi derbyn y lwfans cynhaliaeth addysg yn y flwyddyn academaidd 2005-06? (WAQ46408)

**Jane Davidson:** Erbyn 31 Rhagfyr 2005, yr oedd 740 o geisiadau am lwfans cynhaliaeth addysg Cymru wedi cael eu gwneud ym mlwyddyn academaidd 2005/06 gan fyfyrwyr oedd â’u cod post yn etholaeth Ogwr. O’r rhain, proseswyd 610 o geisiadau yn llwyddiannus.

Ffynhonnell: y Cwmni Benthyciadau i Fyfyrwyr. Seilir y data ar god post yr ymgeisydd ar yr adeg y

gwnaethpwyd y cais ac mae’r ffigurau wedi cael eu talgrynnu i’r 10 agosaf.

**Kirsty Williams:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am grant gwella adeiladau ysgolion blynyddol Powys ar gyfer 2006-07, y dyraniad rhagamcanedig ar gyfer 2007-08 a sut y mae’n cymharu â’r ffigurau a ddarparwyd i Gyngor Sir Powys yn 2003? (WAQ46451)

**Jane Davidson:** Dyrennir y grant gwella adeiladau ysgolion i awdurdodau lleol ar gyfer cynlluniau mawr a gyllidir o’r cyfrannau £9 miliwn a’r dyraniadau fformiwla blynyddol. Mae dyraniad 2006-07 i Bowys yn £5.072 miliwn—£4.202 miliwn i gynlluniau mawr ac £870,000 ar ffurf dyraniad fformiwla. Mae’r dyraniad rhagamcanedig i Bowys yn 2007-08 oddeutu £1,699,714 i gynlluniau mawr ac £863,000 ar ffurf dyraniad fformiwla.

Yn 2003-04 cafodd yr awdurdod ddyraniad o £1,745,216 ar ffurf grant gwella adeiladau ysgolion.

**Peter Black:** A wariwyd unrhyw arian cyhoeddus ar hyfforddiant yng nghyswllt datblygu melin bapur parc ynni Baglan ac os felly ar beth? (WAQ46454)

**Jane Davidson:** Ymrwymodd Dysgu ac Addysgu Cymru i gontract gyda’r cwmni gweithredu, Intertissue, am £31,459. Cyllid oedd hwn, a oedd yn daladwy ym mis Mawrth 2003, i alluogi’r cwmni i gynnal dadansoddiad o’r anghenion hyfforddiant ac i helpu i ddatblygu a darparu’r adnoddau canlynol:

cynllun hyfforddi i’r cwmni;

rhaglen sefydlu;

hyfforddiant pwrpasol; a

chymorth ‘hyfforddi’r hyfforddwr’.

Yn ogystal, er mis Medi 2003, mae gweithlu’r cwmni wedi gallu cymryd rhan mewn dysgu seiliedig ar waith a gyllidir gan ELWa drwy ddarparwr hyfforddiant lleol, ar gost o £120,000 yn fras.

**Janet Ryder:** A wnaiff y Gweinidog gyhoeddi’r llythyr a anfonwyd ganddi at awdurdodau lleol Cymru a oedd yn cynnwys cyngor ynghylch rhoi arbedion effeithlonrwydd o 1 y cant ar waith yng nghyllidebau ysgolion, ac a fyddai gystal â chyhoeddi ar ba ddyddiad yr anfonwyd y llythyr hwn? (WAQ46463)

**Jane Davidson:** Ysgrifennais ar 1 Rhagfyr 2005 at arweinydd Cyngor Sir Penfro, llefarydd Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru ar addysg a dysgu gydol oes, gyda chopi i'r holl aelodau cabinet dros addysg a'u cyfarwyddwyr. Cyfeiriai'r llythyr at y canllawiau a oedd wedi cael eu rhoi i brif weithredwyr yr awdurdodau lleol i gyd ar 8 Mehefin 2005 gan gyfarwyddwr grwp llywodraeth leol a gwasanaethau cyhoeddus Llywodraeth y Cynulliad. Yr oedd y canllawiau'n tynnu eu sylw at wybodaeth am ein ffordd o ymdrin â gwelliannau gwerth am arian, a nodwyd yn 'Making the Most of our Resources: Framework and Guidance'. Mae copi o'r llythyr hwn ar gael erbyn hyn ar:

http://www.wales.gov.uk/themesmakingconnection/content/resources-let-e.pdf

Dilynwyd hynny ym mis Rhagfyr y llynedd gan ganllawiau rhaglen Cymru ar gyfer gwella i'r awdurdodau lleol, 2005 (Cylchlythyr 28/2005), sy'n cynnwys y darn canlynol:

'Rhaid i welliannau effeithlonrwydd, a gynllunnir ac a nodir o dan y WPI, gynnwys newidiadau gwirioneddol a chynaliadwy i arferion y busnes, sydd naill ai'n arbed arian neu'n cynnig gwasanaethau gwell trwy ddefnyddio'r un adnoddau. Nid yw toriadau yn y gyllideb, gan gynnwys y cyllid a ddyrennir i ysgolion neu i drydydd parti arall, yn cynrychioli gwell effeithlonrwydd ac ni ddylid eu trin felly. Mae Llywodraeth y Cynulliad wedi paratoi canllawiau manylach, ar wahân, ar gynllunio ac adrodd ar effeithlonrwydd i'r awdurdodau fwrw golwg arnynt.'

Mae copi o'r cylchlythyr ar gael ar: http://www.cymru.gov.uk/subilocalgov/content/circulars/improve-prog-guide-w.pdf

Ysgrifennodd Undeb Cenedlaethol yr Athrawon, Cymru, ataf ar 8 Mawrth 2006 yn gofyn pa gyngor yr oedd Llywodraeth y Cynulliad wedi ei roi i'r awdurdodau lleol am arbedion effeithlonrwydd 'Creu'r Cysylltiadau' a chyllidebau ysgolion. Anfonais gopi o'm hateb ar 12 Mawrth, a oedd yn ailadrodd y cyngor yn y cylchlythyr, at yr undebau athrawon eraill er gwybodaeth.

**Janet Ryder:** A wnaiff y Gweinidog gyhoeddi rhestr o'r ysgolion hynny sydd â systemau ysgeintio dwr wedi'u gosod, ym mhob un o siroedd y Gogledd? (WAQ46464)

**Jane Davidson:** Nid yw'r wybodaeth a geisiwch yn cael ei chasglu'n ganolog.

**Alun Cairns:** Yn dilyn WAQ46252, a wnaiff y Gweinidog restru cyfran a nifer y plant ym mhob ysgol sy'n defnyddio'r cyfleusterau brecwast am ddim? (WAQ46468)

**Jane Davidson:** Mae'r swyddogion yn y broses o gasglu a choladu'r niferoedd sy'n manteisio ar y

ddarpariaeth o ymarferiad a gynhaliwyd yn ystod yr wythnos yn dechrau 13 Mawrth.

Fel y dywedais yn y Cyfarfod Llawn ar 8 Mawrth, pan fydd y wybodaeth hon i gyd gennyf byddaf yn ei rhannu gyda’r Pwyllgor Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau.

**Eleanor Burnham:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am bolisi Llywodraeth Cynulliad Cymru ar ieithoedd tramor modern? (WAQ46478)

**Jane Davidson:** Fe’ch cyfeiriaf at yr ateb a roddais i WAQ46104 yn gynharach y mis hwn.

**Carl Sargeant:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am yr hyn y mae Llywodraeth Cynulliad Cymru’n ei wneud i sicrhau bod pobl ifanc a ddaw o gefndiroedd difreintiedig yn aros ymlaen yn yr ysgol ar ôl eu pen blwydd yn un ar bymtheg? (WAQ46479)

**Jane Davidson:** Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi ymrwymo i drawsnewid y ddarpariaeth 14 i 19 yng Nghymru. Bydd y Llwybrau Dysgu 14 i 19 yn trawsnewid y cyfleoedd i bob person ifanc. Gwneir hyn drwy ehangu dewis a hyblygrwydd, drwy sicrhau llwybrau dysgu wedi’u teilwrio’n unigol sy’n diwallu anghenion dysgwyr a thrwy ddarparu cyfleoedd a phrofiadau mwy cyfoethog a fydd yn helpu dysgwyr i ddatblygu’r sgiliau y mae eu hangen arnynt ar gyfer bywyd a gwaith.

Yr hyn yr ydym am ei gyflawni drwy’r Llwybrau Dysgu 14-19 yw bod pob unigolyn 14 i 19 oed yn cael llwybr dysgu unigol gyda’r opsiwn sy’n gweddu orau i’w ddiddordebau, ei allu a’i arddulliau dysgu ef neu hi.

Bydd hyn yn ei dro yn:

Lleihau’r nifer o bobl ifanc sy’n gadael addysg amser llawn heb unrhyw gymwysterau.

Cynyddu presenoldeb, lleihau allgáu a gwella’r cyfraddau cadw.

Rhoi ffocws cadarnhaol ar gyflawni lle mae llwyddiant pobl ifanc yn cael ei ddathlu.

Cyflwynwyd cynllun lwfans cynhaliaeth addysg Cymru i bobl ifanc 16 oed am y tro cyntaf yn 2004-05. Yn 2005-06, cafodd y cynllun ei ymestyn i gynnwys pobl ifanc 16 a 17 oed sy’n mynychu ysgolion neu golegau yng Nghymru. Mae’r cynllun yn gymhelliad i bobl ifanc o deuluoedd ar incwm is i aros a

pharhau mewn addysg amser llawn. Prif elfen y lwfans yw dyfarniad wythnosol a delir yn uniongyrchol i gyfrif banc y person ifanc. Mae’r dyfarniad yn ddibynnol ar bresenoldeb boddhaol. Gall y rhai sy’n gymwys gael dyfarniadau o £10, £20 neu £30, yn dibynnu ar incwm y teulu. Gallant hefyd gymhwyso am daliadau bonws ychwanegol o £100 o bryd i’w gilydd os cyflawnir amcanion dysgu. Bydd y cynllun yn cael ei ymestyn i bobl ifanc 16 i 18 oed y flwyddyn nesaf.

Erbyn diwedd mis Chwefror, yr oedd 27,660 o geisiadau wedi dod i law am 2005-06. O’r rhain, yr oedd 24,720 wedi cael eu cymeradwyo.

**Carl Sargeant:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am gyfleoedd dysgu i oedolion sydd ag anawsterau dysgu? (WAQ46480)

**Jane Davidson:** Mae ELWa, ar y cyd â’i bartneriaid, wedi bod yn cyllido ystod o ddarpariaeth sy’n addas i oedolion sydd ag anawsterau neu anableddau dysgu. Mae cymorth ELWa wedi dod o dan dri phrif bennawd: (i) darparu cyllid i brynu cymorth i ddysgwyr sydd ag anawsterau neu anabledd dysgu i’w helpu i gymryd rhan mewn darpariaeth brif ffrwd o fewn addysg bellach a dysgu seiliedig ar waith; (ii) rhyddhau cyllid yn gefn i gynnal darpariaeth arbenigol ar gyfer dysgwyr o’r fath mewn colegau prif ffrwd; a (iii) cyllido lleoliadau preswyl mewn colegau AB ac ysgolion a cholegau preswyl arbenigol yng Nghymru ac ar draws y DU, yn ôl anghenion yr unigolyn. Bydd y trefniadau hyn yn parhau pan fydd swyddogaethau a staff ELWa’n trosglwyddo i Lywodraeth Cynulliad Cymru ar 1 Ebrill, 2006.

**Ann Jones:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am gyllido ysgolion yn Sir Ddinbych? (WAQ46481)

**Jane Davidson:** Darperir mwyafrif y cyllid ar gyfer darpariaeth cyn-16 mewn ysgolion yng Nghymru ar sail heb ei neilltuo drwy’r setliad refeniw i lywodraeth leol. Cred Llywodraeth y Cynulliad mai’r awdurdodau lleol sydd yn y sefyllfa orau i farnu anghenion ac amgylchiadau lleol ac i gyllido ysgolion yn unol â hynny. Mae’r awdurdodau lleol yn atebol i’w hetholwyr am y penderfyniadau a wnânt.

Mae’r rhan fwyaf o’r cyllid yn mynd allan i ysgolion ar ffurf cyllidebau dirprwyedig unigol. Penderfynir ar y rhain drwy gyfrwng fformiwla gyllido leol, wedi’i seilio’n bennaf (70 y cant) ar niferoedd disgyblion ond mae lle i’r AALlau i ddefnyddio ffactorau eraill i gydnabod amgylchiadau lleol.

Derbyniodd yr awdurdodau lleol bron i £3.3 biliwn drwy setliad refeniw llywodraeth leol yn 2005-06 i gyllido gwasanaethau allweddol. Cynrychiolai hyn gynnydd o 5.1 y cant neu £159 miliwn o’i gymharu â 2004-05. Cafodd Sir Ddinbych gynnydd o 4.4 y cant yn ei grant cynnal refeniw. Dengys y setliad terfynol i lywodraeth leol ar gyfer 2006-07 y bydd y cyllid i lywodraeth leol yn cynyddu 5.1 y cynt o’i gymharu â 2005-06 ar ôl addasu ar gyfer trosglwyddiadau. Mae’r cynnydd i Sir Ddinbych yn 5.9 y cant, uwchlaw’r cyfartaledd i Gymru.

Mae Cyngor Cenedlaethol Cymru dros Addysg a Hyfforddiant (ELWa) yn darparu grant ar gyfer addysg ôl-16 mewn ysgolion yn uniongyrchol i'r AALlau. Mae'r grant yn rhan o gyllideb ysgolion awdurdod. Dyrennir y grant i gyllidebau dirprwyedig ysgolion ar sail amodau grant a bennir gan ELWa. Mae cyllid ELWa i'r chweched dosbarth wedi cynyddu dros 4 y cant i £108.9 miliwn yn 2005-06 a bwriedir iddo gynyddu rhyw 6.6 y cant yn 2006-07 i £116.5 miliwn. Mae'r cynnydd i Sir Ddinbych yn 10.8 y cant, lawer yn uwch na chyfartaledd Cymru a chwyddiant, i ryw £3.4 miliwn.

Dangosai ffigurau a gyflwynwyd gennyf i'r Pwyllgor Addysg a Dysgu Gydol Oes ar 13 Hydref 2005 (gweler ELL2 11-05(td3)) fod y gwariant crynswth ar ysgolion yn Sir Ddinbych wedi ei gyllidebu i godi 6.2 y cant i £65.5 miliwn yn 2005-06, sy'n uwch na'r cynnydd o 5 y cant ar gyfartaledd drwy Gymru. Yr oedd y gwariant y disgybl sydd wedi'i gyllidebu yn yr awdurdod yn £4,019. Y cyfartaledd i Gymru yw £4,291. Yr oedd cyfradd ddirprwyo Sir Ddinbych yn 77.9 y cant, yn uwch na chyfartaledd Cymru o 76.7 y cant.

Mae'r cyllid ar gyfer buddsoddi cyfalaf mewn ysgolion yng Nghymru wedi codi i £143.5 miliwn yn y flwyddyn ariannol hon. O'r swm hwn, mae £59.3 miliwn yn cael ei ddarparu i'r awdurdodau lleol fel cyllid cyfalaf cyffredinol heb ei neilltuo: mae £74.7 miliwn yn grant gwella adeiladau ysgolion sy'n grant ychwanegol wedi'i neilltuo: ac mae £9.5 miliwn i gyllido cynlluniau cyfalaf ar gyfer ysgolion gwirfoddol a gynorthwyir. Cynyddodd y grant gwella adeiladau ysgolion o £42 miliwn yn 2004-05 i £74.7 yn 2005-06 a bydd yn parhau ar y lefel hon tan 2010.

Dyraniadau Sir Ddinbych o dan y grant gwella adeiladau ysgolion ar gyfer 2005-06 a 2006-07 yw £2,472,401 a £5,728,000 y naill a'r llall.

**Peter Black:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am unrhyw wendidau a ganfuwyd yn systemau cyfrifyddu ELWa? (WAQ46482)

**Jane Davidson:** Mae ELWa wedi bod yn destun archwiliadau trylwyr, adolygiadau rheoli gweithdrefnau, a chynlluniau gweithredu adferol yn deillio o gyfnod ei anawsterau gweithredol cynnar. Ym mis Gorffennaf 2005, cwblhaodd PricewaterhouseCoopers adolygiad o'r mesurau rheoli gweithredol yn ELWa ac adroddodd yn ffafriol ar addasrwydd mesurau rheoli ELWa i'w pwrpas a'i afael ar y busnes. Adroddodd fod ELWa wedi gwneud cynnydd yn erbyn ei gynllun gweithredu a bod polisïau a gweithdrefnau effeithiol wedi cael eu sefydlu i sicrhau bod rheoli risg yn rhan annatod o'r gweithdrefnau ar draws y sefydliad.

Mae rhagor y gellir ei wneud bob amser, a thynnodd PWC sylw at feysydd i'w datblygu ymhellach. Diben y gwaith hwnnw fyddai ysgogi caboli pellach a gwneud y gweithdrefnau'n fwy soffistigedig, gan symud ymlaen o gydymffurfio'n syml â gweithdrefnau i fod yn sefydliad sy'n edrych tua'r dyfodol ac yn canolbwyntio ar gyflawni.

Fel rhan o'r paratoadau ar gyfer uno ELWa â Llywodraeth Cynulliad Cymru, comisiynwyd cyfres o 'archwiliadau iechyd' i werthuso'r trefniadau sydd wedi cael eu sefydlu i sicrhau trylwyredd y systemau sydd ar waith. Y canfyddiadau cyffredinol oedd bod y systemau a'r prosesau angenrheidiol wedi cael eu sefydlu i alluogi ELWa i fonitro, llywio a rheoli'r busnes.

Byddir yn ymateb ymhellach unwaith y bydd Pwyllgor Archwilio Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi ystyried adroddiad Swyddfa Archwilio Cymru.

**Ann Jones:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am gost yswirio adeiladau ysgolion? (WAQ46483)

**Jane Davidson:** Fe'ch cyfeiriaf at yr ateb a roddais ichi ar 1 Rhagfyr 2005, WAQ45020.

**John Griffiths:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am rôl addysg uwch o ran cyflawni polisïau trawsbynciol Llywodraeth y Cynulliad ar gyfer Cymru? (WAQ46484)

**Jane Davidson:** Mae sefydliadau addysg uwch yng Nghymru yn chwarae rhan bwysig yn symud polisïau trawsbynciol y Cynulliad, yn cynnwys cyfle cyfartal, datblygu cynaliadwy a chynhwysiant cymdeithasol, ymlaen.

**John Griffiths:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am gynnydd polisi Llywodraeth Cynulliad Cymru ar gyfer addysg uwch yn Nwyrain Casnewydd? (WAQ46485)

**Jane Davidson:** Mae 'Ymgeisio yn Uwch' yn nodi polisïau Llywodraeth y Cynulliad i wneud y sector addysg uwch yng Nghymru yn fwy cystadleuol. Byddwn yn parhau i gefnogi'r datblygiadau sydd ar waith ar draws sefydliadau addysg uwch wrth iddynt fynd ar drywydd y polisïau hynny.

**Jonathan Morgan:** Faint o ysgolion yng Nghymru a glustnodwyd ar gyfer eu cau o ganlyniad i ad-drefnu ysgolion awdurdodau lleol? (WAQ46486)

**Jane Davidson:** Ar hyn o bryd, mae 12 ysgol, yn cynnwys dwy ysgol feithrin, sydd i gau o ganlyniad i gynigion statudol sydd eisoes wedi cael eu cyhoeddi ac y penderfynwyd arnynt ond nad ydynt wedi cael eu gweithredu eto. Penderfynwyd ar bedwar o'r rhain yn lleol gan nad oedd gwrthwynebiad.

Mae’r awdurdodau addysg lleol hefyd wedi cyhoeddi cynigion i gau 16 ysgol arall, yn cynnwys tair ysgol feithrin, ond ni phenderfynwyd ar y rhain eto.

Nid yw’r ffigurau hyn yn cynnwys uno ysgolion babanod ac iau na chynigion posibl sy’n dal i fod yn y cyfnod ymgynghori ac nad ydynt wedi cael eu cyhoeddi eto.

**Nick Bourne:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am lefel y sgiliau sylfaenol ymysg oedolion yn y Canolbarth a’r Gorllewin? (WAQ46487)

**Jane Davidson:** Mae’r arolwg cenedlaethol diweddaraf o sgiliau sylfaenol a gomisiynwyd gan yr Asiantaeth Sgiliau Sylfaenol yn 2004 yn darparu data llinell sylfaen am sgiliau sylfaenol yng Nghymru ynghyd ag amcangyfrifon ar gyfer awdurdodau lleol unigol. Seilir y canlyniadau hyn yn rhannol ar amcangyfrifon wedi’u modelu o’r nifer ddisgwyliedig o achosion o sgiliau llythrennedd neu rifedd isel yn yr ardal ac nid oes ffigurau wedi cael eu cyhoeddi am yr etholaethau rhanbarthol.

Mae’r ffigurau’n amrywio ar draws y Canolbarth a’r Gorllewin gyda rhai awdurdodau uwchlaw cyfartaledd Cymru a rhai islaw. Cyhoeddir amcangyfrifon ar gyfer awdurdodau unigol ar wefan yr Asiantaeth Sgiliau Sylfaenol drwy’r hypergyswllt isod:

http://www.basic-skills-wales.org/bsastrategy/cy/resources/post_16/
national_survey___la_and_ward_results.cfm

Mae strategaeth Llywodraeth y Cynulliad i wella sgiliau sylfaenol ar draws Cymru wedi ei nodi yn ‘Geiriau’n Galw Rhifau’n Cyfri’, a lansiwyd ym mis Ebrill 2005. Mae’n sefydlu dull cynhwysfawr, sy’n cwmpasu pob oedran, ac mae’n cynnwys rhaglenni arloesol fel iaith a chwarae a chynllun adduned y cyflogwr.

**Michael German:** Pa drafodaethau y mae’r Gweinidog wedi eu cynnal gyda Gweinidogion Addysg y DU ynglyn â’r cap £3000 ar ffioedd dysgu prifysgolion? (WAQ46488)

**Jane Davidson:** Mae swyddogion Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi bod mewn trafodaeth â’u cymheiriaid yn yr Adran Addysg a Sgiliau i benderfynu ar y trefniadau manwl i gynyddu cyfradd y ffi uchaf y gellir ei chodi yn unol â chwyddiant ar gyfer 2007-08.

**Laura Anne Jones:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am y ddarpariaeth bwyd iach yn ysgolion Cymru? (WAQ46489)

**Jane Davidson:** Fe’ch cyfeiriaf at fy natganiad yn y Cyfarfod Llawn ar 16 Tachwedd 2005 yn ymdrin â dull cyffredinol o ymdrin â maeth mewn ysgolion. Mae modd gweld y datganiad ar y fewnrwyd.

**Jonathan Morgan:** Pa asesiad a wnaed ynghylch costau ailstrwythuro staff yn ysgolion Cymru drwy daliadau cyfrifoldeb dysgu ac addysgu? (WAQ46490)

**Jane Davidson:** Yn nhystiolaeth ysgrifenedig atodol Llywodraeth Cynulliad Cymru i’r Corff Adolygu Athrawon Ysgol ym mis Rhagfyr 2004 nodasom fod y grwp gwobrwyon a chymhellion wedi dweud y byddai’n disgwyl i gost y taliadau cyfrifoldeb dysgu ac addysgu drwyddi draw fod yn llai na’r cyfanswm oedd yn cael ei dalu ar lwfansau rheoli ar y pryd. Y rheswm am hynny oedd bod cyfran o’r lwfansau rheoli yn cael eu dyfarnu bryd hynny am gyfrifoldebau na fyddent yn bodloni’r meini prawf newydd a’r ffaith y byddai llai o bwysau ar lwfansau rheoli yn sgil ailfodelu ysgolion.

Ar y sail hon, daethom i’r casgliad fod effeithiau tymor hwy setliad tâl ar gyfer y cynllun athrawon rhagorol a’r taliadau cyfrifoldeb dysgu ac addysgu yn debygol, yn ein barn ni, o fod yn fforddiadwy yng Nghymru.

**Eleanor Burnham:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am effaith y taliadau cyfrifoldeb dysgu ac addysgu ar gyllidebau ysgolion yng Nghymru? (WAQ46491)

**Jane Davidson:** Yn nhystiolaeth ysgrifenedig atodol Llywodraeth Cynulliad Cymru i’r Corff Adolygu Athrawon Ysgol ym mis Rhagfyr 2004 nodasom fod y grwp gwobrwyon a chymhellion wedi dweud y byddai’n disgwyl i gost y taliadau cyfrifoldeb dysgu ac addysgu drwyddi draw fod yn llai na’r cyfanswm oedd yn cael ei dalu ar lwfansau rheoli ar y pryd. Y rheswm am hynny oedd bod cyfran o’r lwfansau rheoli yn cael eu dyfarnu bryd hynny am gyfrifoldebau na fyddent yn bodloni’r meini prawf newydd a’r ffaith y byddai llai o bwysau ar lwfansau rheoli yn sgil ailfodelu ysgolion.

Ar y sail hon, daethom i’r casgliad nad oedd ein barn fod effeithiau tymor hwy setliad tâl ar gyfer y cynllun athrawon rhagorol a’r taliadau cyfrifoldeb dysgu ac addysgu yn debygol o fod yn fforddiadwy yng Nghymru wedi newid.

**Owen John Thomas:** Pryd fydd awdurdodau lleol yn derbyn canllawiau newydd ar gyfer pennu’r galw am addysg cyfrwng Cymraeg ymysg rhieni plant dan dair blwydd oed? (WAQ46492) [W]

**Jane Davidson:** Mae dyletswydd statudol ar awdurdodau lleol i ddarparu lleoedd addysg blynyddoedd cynnar i blant o’r tymor sy’n dilyn eu pen-blwydd yn dair oed.

Mae awdurdodau lleol eisoes wedi derbyn copi ymlaen llaw o’r canllawiau ar gynlluniau addysg sengl sy’n datgan bod angen iddynt i sicrhau trefniadau i asesu’r galw am ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg. Mae’r canllawiau’n cynnwys ffurflen holi enghreifftiol. Mae AALlau yn rhydd i addasu’r ffurflen yn ôl eu hamgylchiadau ac i’w defnyddio i’w helpu i bennu maint y galw yn y dyfodol am leoedd ysgol. Awgrymir bod yr adolygiad yn cael ei anelu’n bennaf at rieni plant o dan oed ysgol.

Mae’r rheoliadau sydd i roi’r cynlluniau addysg sengl ar waith wedi’u gwneud a chaiff canllawiau eu dosbarthu ar ddechrau tymor yr haf.

**Owen John Thomas:** Pa gamau mae’r Gweinidog yn eu cymryd i hyrwyddo cyhoeddi cynlluniau Llywodraeth Cynulliad Cymru i ehangu’r ddarpariaeth addysg uwch cyfrwng Cymraeg? (WAQ46493)

**Jane Davidson:** Y llynedd cefnogasom bum cymrodoriaeth addysgu cyfrwng Cymraeg ar draws amryw o bynciau. Ar 2 Tachwedd 2004, cyhoeddais becyn ehangach o ysgoloriaethau a chymrodoriaethau gwerth £2.9 miliwn a fydd yn adeiladu ar y gwaith da a wnaethpwyd hyd yma.

Mae Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru wedi comisiynu arfarniad opsiynau sydd ar y gweill ar hyn o bryd i edrych ar wahanol fodelau o ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg. Dyma un o’r argymhellion a ddeilliodd o waith grwp llywio Andrew Green yn ystyried darpariaeth cyfrwng Cymraeg mewn addysg uwch.

**Laura Anne Jones:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am gyfleusterau mewn ysgolion arbennig yn Nwyrain De Cymru? (WAQ46494)

**Jane Davidson:** Mae’r AALlau yn gwneud darpariaeth ar gyfer ystod eang o gyfleusterau mewn ysgolion arbennig. Mae cyllid ar gael i gynorthwyo awdurdodau i weithio gyda’i gilydd i ddiwallu anghenion prin ac mae un prosiect o’r fath ar y gweill yn Nhor-faen ar hyn o bryd. Mae fy swyddogion yn gweithio hefyd gyda fforwm penaethiaid ysgolion arbennig i ddatblygu eu rôl i’r dyfodol.

## Cwestiynau i’r Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynllunio a Chefn Gwlad

**Helen Mary Jones:** A wnaiff y Gweinidog gyflwyno adroddiad cynnydd ar weithredu’r cynllun pasbort i geffylau, ac a wnaiff fanylu ynghylch pa ddarpariaethau sy’n bodoli ac a yw wedi rhoi ystyriaeth i

sefydlu wardeniaid lles ar dir comin? (WAQ46393)

**Y Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynllunio a Chefn Gwlad (Carwyn Jones):** Mae’n ofynnol yn ôl y Rheoliadau Pasbortau Ceffylau (Cymru) fod gan bob ceffyl, merlen a mul yng Nghymru basport. Mae bron i 700,000 o basbortau wedi cael eu cyflwyno erbyn hyn gan y 78 o awdurdodau cyflwyno basbortau i berchenogion ceffylau ledled y Deyrnas Unedig.

Nid oes tystiolaeth wedi cael ei darparu i’r Cynulliad dros y flwyddyn ddiwethaf am broblemau lles ar diroedd comin. Mae elusennau lles wedi hysbysu’r swyddogion fod llai o anifeiliaid ar diroedd comin ers cyflwyno’r ddeddfwriaeth pasbortau ceffylau, a bod hynny wedi lleddfu materion lles. Mater i’r tirfeddianwyr a’r cominwyr fyddai penodi wardeiniaid lles.

**Elin Jones:** A wnaiff y Gweinidog esbonio pa ystadegau prisiau’r farchnad a pha ffynonellau y byddai’n eu defnyddio ar gyfer y tabl gwerth anifeiliaid arfaethedig wrth dalu iawndal ar gyfer TB mewn gwartheg? (WAQ46394) [W]

**Carwyn Jones:** Bydd y gwerthoedd yn y tabl arfaethedig o gategorïau ar gyfer pennu iawndal TB mewn gwartheg, BSE, brwselosis a lewcosis ensöotig mewn gwartheg yn dod o wybodaeth gwerthiant. Bydd yr wybodaeth hon yn cael ei chasglu’n barhaus o farchnadoedd gwartheg stôr, marchnadoedd lloi magu, marchnadoedd anifeiliaid magu ac ocsiynau fferm ym Mhrydain Fawr. Os na fydd yr wybodaeth ar gyfer unrhyw gategori, am unrhyw fis, yn ddigonol, yna bydd iawndal yn cael ei bennu un ai trwy ddefnyddio’r pris mwyaf diweddar ar gyfer yr un categori neu drwy brisio’n unigol.

**Alun Cairns:** A wnaiff y Gweinidog restru faint o wastraff a ailgylchwyd ym mhob Awdurdod Lleol fesul blwyddyn ar gyfer y pum mlynedd ddiwethaf? (WAQ46452)

**Carwyn Jones:** Dangosir data am y tunelli metrig o wastraff trefol sy’n cael ei ailgylchu a’i gompostio fesul awdurdod lleol yn y tabl sydd ynghlwm.

| | **Gwastraff trefol sy’n cael ei ailgylchu/compostio** | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | 2000-01 | 2001-02 | 2002-03 | 2003-04 | 2004-05 |
| Blaenau Gwent | 1,075 | 1,401 | 3,102 | 9,389 | 12,228 |
| Pen-y-bont ar Ogwr | 4,002 | 7,401 | 13,032 | 12,903 | 26,061 |
| Caerffili | 3,607 | 5,443 | 11,364 | 23,677 | 37,025 |
| Caerdydd | 5,254 | 8,588 | 14,447 | 27,411 | 19,764 |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Sir Gaerfyrddin | 7,548 | 9,978 | 12,442 | 17,149 | 24,163 |
| Ceredigion | 4,851 | 6,122 | 8,156 | 11,060 | 14,660 |
| Conwy | 20,478 | 15,187 | 13,250 | 16,027 | 16,433 |
| Sir Ddinbych | 2,592 | 2,041 | 6,121 | 8,644 | 11,685 |
| Sir y Fflint | 5,844 | 7,904 | 17,683 | 21,890 | 20,797 |
| Gwynedd | 3,455 | 4,755 | 9,449 | 13,265 | 18,160 |
| Ynys Môn | 1,398 | 1,160 | 5,546 | 7,561 | 8,654 |
| Merthyr Tudful | 774 | 887 | 3,274 | 7,350 | 8,367 |
| Sir Fynwy | 3,354 | 5,001 | 5,821 | 8,043 | 12,656 |
| Castell-nedd Port Talbot | 2,031 | 2,041 | 1,868 | 8,493 | 14,238 |
| Casnewydd | 5,330 | 7,692 | 11,587 | 14,648 | 19,327 |
| Sir Benfro | 7,943 | 12,358 | 14,060 | 14,951 | 15,949 |
| Powys | 5,289 | 10,752 | 14,263 | 23,893 | 33,845 |
| Rhondda Cynon Taf | 4,026 | 6,174 | 10,072 | 13,039 | 20,502 |
| Abertawe | 17,296 | 19,052 | 22,797 | 32,171 | 43,312 |
| Tor-faen | 2,442 | 2,022 | 5,451 | 9,300 | 9,593 |
| Bro Morgannwg | 4,746 | 5,788 | 9,915 | 12,271 | 18,344 |
| Wrecsam | 1,633 | 2,514 | 8,295 | 9,426 | 11,784 |
| **Cymru** | 114,966 | 144,261 | 221,995 | 322,561 | 417,547 |

efallai nad yw’r ffigurau’n crynhoi i’r cyfansymiau oherwydd talgrynnu.

1. Mae’r tabl o dunelli metrig ailgylchu/compostio yn cynnwys yr holl ddata am wastraff trefol, yn cynnwys rwbel annomestig, ond nid yw’n cynnwys cerbydau gadawedig.

2. Mae Llywodraeth y Cynulliad yn cyhoeddi adroddiad rheoli gwastraff trefol blynyddol, sy’n cynnwys manylion ailgylchu/compostio, tirlenwi, llosgi ac ati yr awdurdodau lleol. Mae’r adroddiad yn cynnwys tablau hyd at 2004-05 a roddai ddata cryno cyfun am ailgylchu/compostio a dyna’r data sydd yn y tabl sydd ynghlwm. Fodd bynnag, mae’r data yn y tablau hyn yn wahanol i’r data a ddefnyddiwyd i ddarparu dangosyddion perfformiad Cynulliad Cenedlaethol Cymru, sydd ar hyn o bryd yn cael eu cynhyrchu a’u cyhoeddi gan uned ddata llywodraeth leol Cymru, am ddau reswm.

(a) Mae dangosyddion perfformiad Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn defnyddio diffiniad gwahanol nad yw’n cynnwys rhai mathau o wastraff sy’n cael eu cynnwys yn yr arolwg gwastraff trefol. Mae’r rhain yn cynnwys: lludw o waelod llosgyddion, gwastraff glanhau traethau a rwbel.

(b) Cafodd arolwg uned ddata llywodraeth leol Cymru a’r arolwg gwastraff trefol eu llunio’n annibynnol felly gallai’r data amrywio rhywfaint.

Er bod y data yn y tabl wedi’i seilio ar ddiffiniad gwahanol i ddata dangosyddion perfformiad Cynulliad Cenedlaethol Cymru, nid yw effaith y gwahaniaethau ar y tunelli metrig drwyddynt draw ond bach.

3. Efallai y caiff y system WasteDataFlow ei defnyddio yn y dyfodol i gyflenwi data dangosyddion perfformiad Cynulliad Cenedlaethol Cymru a’r data blynyddol am wastraff trefol ar gyfer arolygon Llywodraeth y Cynulliad. Dylai’r datblygiad hwn, ynghyd â gwneud y diffiniad o wastraff trefol yn fwy eglur, olygu bod ffigurau dangosyddion perfformiad Cynulliad Cenedlaethol Cymru a ffigurau arolygon gwastraff trefol Llywodraeth y Cynulliad yn dod yn llawer nes at ei gilydd.

**William Graham:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am y cwmnïau o Gymru a gynrychiolid yng Nghynhadledd Interspill 2006? (WAQ46461)

**Carwyn Jones: Cynhaliwyd cynhadledd ryngwladol ‘interspill’, sy’n cael ei chynnal am yr ail flwyddyn, yn Llundain ym mis Mawrth eleni. Gellir gweld rhestr lawn o’r arddangoswyr a fu’n cymryd rhan ar wefan bwrpasol y digwyddiad:** http://www.spill06.co.uk

**Irene James:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am roi Tir Mynydd ar waith? (WAQ46462)

**Carwyn Jones:** Mae’r trefniadau ar gyfer Tir Mynydd i’r dyfodol o dan y cynllun datblygu gwledig olynol i Gymru, 2007 hyd at 2013, yn ddarostyngedig i benderfyniadau yn dilyn yr ymgynghori diweddar. Daeth yr ymgynghori i ben ar 10 Mawrth ac mae’r ymatebion yn cael eu dadansoddi ar hyn o bryd.

**Kirsty Williams:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am y cyllid ar gyfer taliadau Tir Mynydd yn y gyllideb ddrafft ac wedyn yn setliad terfynol y gyllideb? (WAQ46469)

**Carwyn Jones:** Mae cyllid ar gyfer Tir Mynydd yn gynwysedig yn llinell Tir Cymru y gyllideb. Ar gyfer 2006-07 cafodd y ffigur ei ostwng £1.3 miliwn er mwyn caniatáu ar gyfer blaenoriaethau a bennwyd gan y gwrthbleidiau. Mae’r trefniadau ar gyfer Tir Mynydd i’r dyfodol o dan y cynllun datblygu gwledig olynol i Gymru, 2007 hyd at 2013, yn ddarostyngedig i benderfyniadau yn dilyn yr ymgynghori diweddar. Daeth yr ymgynghori i ben ar 10 Mawrth ac mae’r ymatebion yn cael eu

dadansoddi ar hyn o bryd.

**Carl Sargeant:** Ar ôl codi’r gwaharddiad ar fewnforio cig eidion i wledydd eraill Ewrop yn ddiweddar, a fydd allforio gwartheg byw o Gymru yn ailddechrau? (WAQ46476)

**Carwyn Jones:** Pleidleisiodd pwyllgor sefydlog y Comisiwn Ewropeaidd ar y gadwyn fwyd ac iechyd anifeiliaid yn unfrydol ar 8 Mawrth 2006 ar gynnig i godi’r gwaharddiad ar allforio cig o’r DU sydd wedi bod mewn grym ers rhyw 10 mlynedd. Bydd hyn yn cynnwys allforio gwartheg byw a anwyd ar neu ar ôl 1 Awst 1996, yn amodol ar amodau iechyd a lles caeth, a fydd yn cael eu gorfodi’n llym. Disgwyliwn i’r gwaharddiad gael ei godi ddiwedd Ebrill/yn gynnar ym mis Mai. Mater i’r diwydiant yng Nghymru wedyn fydd unrhyw fasnach mewn gwartheg o Gymru.

**Carl Sargeant:** Beth mae Llywodraeth y Cynulliad yn ei wneud i sicrhau lles gwartheg byw wrth iddynt gael eu cludo? (WAQ46477)

**Carwyn Jones:** Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi ymrwymo i sicrhau safonau uchel o iechyd a lles i bob anifail wrth iddo gael ei gludo, pa un a yw i gael ei allforio ai peidio. Mae’r rheolau wedi cael eu nodi’n glir yn y ddeddfwriaeth a’r canllawiau presennol a chânt eu gorfodi’n llym. Caiff achos ei ddwyn yn erbyn unrhyw un nad yw’n cydymffurfio â hwy.

## Cwestiynau i’r Gweinidog Cyllid

**Nick Bourne:** A wnaiff y Gweinidog roi’r wybodaeth ddiweddaraf i ni am ei pholisïau ar gyfer gwella gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru? (WAQ46310)

**Y Gweinidog Cyllid (Sue Essex):** Mae gwella gwasanaethau cyhoeddus yn flaenoriaeth bennaf i Lywodraeth y Cynulliad. Nododd ei gweledigaeth ar gyfer cyflawni hyn yn ‘Creu’r Cysylltiadau’ a gyhoeddwyd ym mis Hydref 2004. Yr ydym yn bwrw ymlaen yn dda â’n cynllun gweithredu pum mlynedd ddilynol, ‘Cyflawni’r Cysylltiadau’, a gyhoeddwyd ym mis Mehefin 2005.

Mae’r cynllun gweithredu yn cynnwys ystod eang o gamau gweithredu ar draws y gwasanaeth cyhoeddus y byddwn yn adrodd arnynt yn ddiweddarach yn y flwyddyn. Un o’n hymrwymiadau allweddol yw adolygiad o’r ffordd y caiff gwasanaethau eu cyflenwi’n lleol. Bydd Syr Jeremy Beecham yn adrodd ar hyn yn yr haf.

**David Melding:** Pa sylwadau y mae’r Gweinidog wedi’u cyflwyno i Swyddfa’r Dirprwy Brif Weinidog ynghylch y bwriad i ddiwygio cynllun pensiwn llywodraeth leol ac a wnaiff ddatganiad? (WAQ46396)

**David Melding:** Pa sylwadau y mae’r Gweinidog wedi’u cyflwyno i Swyddfa’r Dirprwy Brif Weinidog ynghylch y bwriad i ddiddymu’r rheol 85 mlynedd yng nghynllun pensiwn llywodraeth leol ac a wnaiff ddatganiad? (WAQ46397)

**Sue Essex:** Mae diwygio cynllun pensiwn llywodraeth leol yn fater nad yw wedi cael ei ddatganoli. Cyfrifoldeb Swyddfa’r Dirprwy Brif Weinidog ydyw.

Yr wyf wedi ysgrifennu at y Gweinidog sy’n gyfrifol amdano i sicrhau bod buddiannau cyflogwyr a gweithwyr llywodraeth leol yng Nghymru yn cael eu cymryd i ystyriaeth wrth ddatblygu’r cynllun newydd. Mae Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru hefyd yn cael ei chynrychioli ar y pwyllgor teir-ran a sefydlwyd gan Swyddfa’r Dirprwy Brif Weinidog i symud y trafodaethau â rhanddeiliaid ymlaen.

**Ann Jones:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am swyddogaeth asesiadau wedi’u seilio ar ddangosyddion wrth bennu cyllidebau awdurdodau lleol yng Nghymru? (WAQ46495)

**Sue Essex:** Defnyddir asesiadau seiliedig ar ddangosyddion i bennu cyfran pob awdurdod o gyfanswm Cymru ar gyfer yr asesiad o wariant safonol gogyfer â phob gwasanaeth unigol. Swm cyfun asesiadau seiliedig ar ddangosyddion pob awdurdod unigol sy’n rhoi ei gyfran o’r asesiad o wariant swyddogol drwyddo draw. Y ffigur cyfun hwn llai’r incwm tybiedig o’r dreth gyngor i’r awdurdod sy’n rhoi dyraniad grant cynnal refeniw’r awdurdod. Bydd yr awdurdod yn pennu ei gyllideb gan gymryd amryw o ffactorau i ystyriaeth, yn cynnwys y pwysau gwariant, ei flaenoriaethau strategol a’i gyllid yn cynnwys ei ddyraniad grant cynnal refeniw, grantiau penodol, yr incwm rhagamcanedig o’r dreth gyngor a lefel y cronfeydd wrth gefn.

**Carl Sargeant:** Pa gamau y mae’r Gweinidog yn eu cymryd i sicrhau bod awdurdodau lleol yn manteisio i’r eithaf ar gyllid Cymunedau yn Gyntaf? (WAQ46496)

**Sue Essex:** Mae’r awdurdodau lleol yn gweithredu fel cyrff derbyn grant i’r mwyafrif o bartneriaethau Cymunedau yn Gyntaf. Fel rhan o’r rôl hon dylent ddarparu datganiadau cyllideb i’r partneriaethau yn rheolaidd. Pan nodir tanwariant rhoddir cyfle i’r partneriaethau i drosglwyddo arian rhwng penawdau yn y gyllideb gan sicrhau drwy hynny eu bod yn manteisio i’r eithaf ar y grant sydd ar gael.

**Carl Sargeant:** A wnaiff y Gweinidog amlinellu llwyddiannau Llywodraeth Cynulliad Cymru ym maes llywodraeth leol yn sir y Fflint? (WAQ46497)

**Sue Essex:** Ym mis Ionawr 2005, cwblheais gytundeb polisi gyda Chyngor Sir y Fflint yn nodi'r gwelliannau yr oedd yr awdurdod wedi cytuno gyda Llywodraeth y Cynulliad y byddai yn eu cyflawni erbyn 2007. Wrth lofnodi'r cytundeb, cafodd Sir y Fflint grant cymell perfformiad o £1,428,476. Ar ôl dadansoddi perfformiad yr awdurdod yn erbyn cerrig milltir y cytunwyd arnynt ar gyfer 2004-05, cafodd Sir y Fflint £1,468,919 pellach ar ôl cyflawni'r gwelliannau canlynol:

Cynnydd yn y gyfradd bresenoldeb mewn ysgolion uwchradd.

Cynnydd yn y nifer o ddisgyblion sy'n gadael yr ysgol gyda chymwysterau cydnabyddedig.

Gostyngiad yn nifer yr achosion o oedi cyn trosglwyddo gofal am resymau gofal cymdeithasol.

Gwelliant arbennig yn y gwasanaethau i bobl hyn yn cynnwys: cynnydd yn y nifer o bobl hyn sy'n cael help i fyw gartref a gostyngiad yn y nifer o bobl hyn mewn gofal preswyl.

Gostyngiad yng nghanran y plant yng ngofal yr awdurdod lleol sy'n newid ysgol un neu fwy o weithiau yn ystod cyfnod o dderbyn gofal.

Gostyngiad yn y gollyngiadau carbon deuocsid yn y stoc cyngor annomestig.

Gostyngiad yn y gollyngiadau carbon deuocsid a'r defnydd o ynni yn y stoc tai.

Mwy o gymorth gan y cyngor i helpu busnesau bach, sydd wedi ennill eu plwyf, i ddatblygu a thyfu.

Cynnydd yn nifer y prentisiaethau modern yn yr awdurdod.

Erbyn diwedd cyfnod y cytundeb mae Sir y Fflint hefyd yn anelu at:

Wneud cynnydd tuag at roi terfyn ar ddefnyddio llety gwely a brecwast ar gyfer teuluoedd digartref a lleihau'r cyfnod o amser y mae pobl ddigartref yn ei dreulio mewn llety dros dro.

Gwneud gwelliannau sylweddol i'w gwasanaethau i blant sydd yng ngofal yr awdurdod lleol.

Cyrraedd lefel 3 o’r Safon Gydraddoldeb mewn llywodraeth leol.

Cyrraedd lefel 2 o System Amgylcheddol y Ddraig Werdd.

**Owen John Thomas:** Yng nghyswllt dyfarniad Coughlin a’ch trafodaethau dilynol gyda’r Gweinidog Iechyd, a fydd awdurdodau lleol yn derbyn ad-daliad am hawliadau llwyddiannus ar gyfer gofal parhaus ôl-weithredol a gyllidir gan y GIG? (WAQ46498)

**Sue Essex:** Mae’r broses o ad-dalu costau cartref gofal (o ran hawliadau llwyddiannus am gyllid ôl-weithredol gogyfer â gofal parhaus gan y GIG cyn mis Ebrill 2003) wedi cael ei sefydlu i ad-dalu preswylwyr unigol (neu eu hystadau). Ni thybiwyd bod angen sefydlu trefniadau er mwyn i awdurdodau lleol wneud hawliadau. Byddai’n anodd cyfiawnhau’r gost gyhoeddus sylweddol a achosid gan yr ymchwiliadau, a hynny dim ond i symud arian o un pwrs cyhoeddus (y GIG) i un arall (awdurdodau lleol).

**Jonathan Morgan:** A yw’r Gweinidog wedi asesu a yw’r cynnydd o 4.42 y cant yn y dreth gyngor yng Nghaerdydd yn fforddiadwy i’r rhai hynny sydd ar incwm cyfartalog? (WAQ46499)

**Sue Essex:** Mater i bob awdurdod unigol a’i aelodau etholedig yw lefel y dreth gyngor. Yn ystod fy nhrafodaethau gyda’r awdurdodau unedol ac awdurdodau’r heddlu cyn ymarferiad pennu’r gyllideb eleni fe’i gwneuthum yn glir fy mod yn disgwyl iddynt ystyried y cynnydd yn eu cyllideb ar gyfer y flwyddyn nesaf a’r lefelau treth gyngor cysylltiol yn ofalus, ac ymddwyn yn rhesymol. Y codiad treth gyngor band D cyfartalog yng Nghymru ar gyfer 2006-07 yw’r codiad ail isaf ers cyflwyno’r dreth gyngor, ac ar £962 mae £306 yn is na’r dreth gyngor band D gyfartalog yn Lloegr.

**Jonathan Morgan:** Pa drafodaethau y mae’r Gweinidog wedi eu cael gyda swyddogion Cyngor Sir Caerdydd ynglyn â’r baich trymach ar bobl sy’n talu’r dreth gyngor ledled Caerdydd? (WAQ46501)

**Sue Essex:** Cyfarfum â swyddogion a gwleidyddion Cyngor Sir Caerdydd ym mis Ionawr 2006. Un o’r materion a drafodasom oedd gosod lefel y dreth gyngor yn 2006-07.

## Cwestiynau i’r Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

**Owen John Thomas:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am ddeintyddion yng Nghymru? (WAQ46309)

**Y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol (Brian Gibbons):** Mae nifer y deintyddion sy'n darparu gofal GIG yn dal i gynyddu yng Nghymru. Yr oedd 1,070 o ddeintyddion ym mis Medi 2005 o'i gymharu â 975 ym mis Mehefin 1999. Symudodd cyfanswm o 524 o ddeintyddion, rhyw 49 y cant o'r holl ddeintyddion, drosodd i'r ffyrdd newydd o weithio o dan y trefniadau peilot gwasanaethau deintyddol personol.

**Jonathan Morgan:** Sawl lle deintyddol a ddarperir gan Dentacare yng Nghymru yn ystod y flwyddyn ariannol hon o'i gymharu â'r 3 blynedd ariannol ddiwethaf? (WAQ46315)

**Brian Gibbons:** Ar hyn o bryd mae DentiCare yn darparu 4,400 o leoedd deintyddol GIG yn ardal Bwrdd Iechyd Lleol Powys, 4,354 o leoedd deintyddol GIG yn ardal Bwrdd Iechyd Lleol Abertawe, a 30,916 o leoedd deintyddol GIG yn ardal Bwrdd Iechyd Lleol Castell-nedd Port Talbot—cyfanswm o 39,670 o leoedd deintyddol ar gyfer 2005-06.

Darparodd Denticare 10,485 o leoedd yn 2004-05, 10,563 o leoedd yn 2003/04, a 10,491 o leoedd yn 2002-03, i gyd yn ardal BILl Castell-nedd Port Talbot.

**Jonathan Morgan:** Sawl lle deintyddol a ddarperir yng Nghaerdydd a beth fu'r newid blynyddol er 1999? (WAQ46316)

**Brian Gibbons:** Dim ond o 2003 y mae gwybodaeth am nifer y cleifion a oedd yn gofrestredig gyda deintydd am driniaeth GIG yng Nghaerdydd ar gael, ac fe'i gwelir yn y tabl isod. Cyn 2003 yr oedd ardal BILl Caerdydd yn rhan o Awdurdod Iechyd Bro Taf ac nid yw'r ffigurau ar gael.

**Cleifion wedi cofrestru gyda deintydd am driniaeth GIG (Gwasanaethau Deintyddol Cyffredinol neu Wasanaethau Deintyddol Personol), Bwrdd Iechyd Lleol Caerdydd**

| | Cyfanswm | | Plant | | Oedolion | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | **Nifer** | **Y cant** | **Nifer** | **Y cant** | **Nifer** | **Y cant** |
| 30 Medi 2003 | 172,055 | 54.6 | 48,663 | 69.9 | 123,392 | 50.3 |
| 30 Medi 2004 | 169,225 | 53.4 | 47,276 | 68.4 | 121,949 | 49.2 |
| 30 Medi 2005 | 167,576 | 52.9 | 46,385 | 67.1 | 121,191 | 48.9 |

Mae BILl Caerdydd wedi cael dros 20 o geisiadau am gynlluniau peilot gwasanaethau deintyddol personol wedi'u cymeradwyo. Mae hyn wedi sicrhau gofal GIG i dros 99,000 o gleifion presennol a bydd yn darparu mynediad i fwy nag 20,000 o gleifion newydd. Nid yw effaith y cynlluniau hyn yn cael ei hadlewyrchu'n llawn yn y tabl eto.

**Alun Cairns:** A wnaiff y Gweinidog restru, ar gyfer pob Ymddiriedolaeth GIG, effaith ariannol y costau ynni cynyddol ar gyfer 2002-03, 2003-04 ac 2004-05? (WAQ46327)

**Brian Gibbons:** Mae'r gwariant gwirioneddol a gofnodwyd ar gostau ynni gan bob ymddiriedolaeth GIG rhwng 2002-03 a 2004-05 wedi ei nodi yn y tabl sydd ynghlwm. Darparwyd y ffigurau hyn gan bob sefydliad fel rhan o'r broses gyfrifon flynyddol.

Nid yw Llywodraeth Cynulliad Cymru yn dal gwybodaeth am gyllidebau manwl, na'r dadansoddiad gwariant manwl, a bennir ac a reolir gan ymddiriedolaethau unigol. Mae ymddiriedolaethau yn gyfrifol am bennu eu cyllidebau eu hunain ac am gytuno ar gyllid, yn cynnwys unrhyw gyllid gogyfer â phwysau o ran costau, oddi wrth eu comisiynwyr fel rhan o broses gyllido flynyddol y fframwaith gwasanaeth a chyllid. Nid yw'n bosibl felly i Lywodraeth Cynulliad Cymru amlinellu'r effaith ariannol ar ymddiriedolaethau unigol.

A chymryd y codiadau disgwyliedig yng nghostau ynni i ystyriaeth, dylid defnyddio rhagdybiaeth gynllunio o gynnydd chwyddiant mewn costau ar wahân i gyflogau o 5.34 y cant. Mae hynny'n cyfateb i gynnydd o 1.27 y cant yng nghyfanswm costau gwasanaethau ysbytai a gwasanaethau iechyd yn y gymuned a bydd yn cael ei gyllido fel ychwanegiad safonol. O fewn y cynnydd o 5.34 y cant mae 94 y cant ar gyfer trydan uwchlaw 100 kW, 49 y cant ar gyfer trydan o dan 100 kW, 60 y cant ar gyfer nwy a 50 y cant ar gyfer tanwyddau eraill.

Cyhoeddir tabl fel atodiad at y ffeil hon.

**Nick Bourne:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am y gefnogaeth i ofalwyr yng Nghymru? (WAQ46328)

**Brian Gibbons:** Yr ydym yn dal i weithio gyda phanel adolygu'r strategaeth ar gyfer gofalwyr i roi ein strategaeth ar waith ac i annog awdurdodau statudol lleol i ddatblygu gwasanaethau ar gyfer gofalwyr. Yr ydym yn darparu cyllid i fudiadau gwirfoddol ar gyfer gofalwyr sy'n gweithredu drwy Gymru gyfan ac yr ydym yn dal i ymrwymo i arwain drwy esiampl drwy roi polisïau cyflogi sy'n ystyriol o ofalwyr ar waith.

Ar 15 Chwefror eleni, cyhoeddais £3 miliwn ychwanegol mewn grant ychwanegol i gynorthwyo

gofalwyr, gyda'r prif ffocws ar ofalwyr pobl sydd â phroblemau iechyd meddwl. Ar hyn o bryd yr ydym yn trafod y trefniadau manwl ar gyfer y grant newydd hwn gyda rhanddeiliaid allweddol a bwriadaf sefydlu ymgynghoriad cyhoeddus ehangach am y trefniadau hyn yn ddiweddarach y mis hwn.

**Christine Chapman:** Pa ganllawiau y mae Llywodraeth Cynulliad Cymru'n eu rhoi i fyrddau iechyd lleol ynghylch hunan-weinyddu meddyginiaethau? (WAQ46335)

**Brian Gibbons:** Nid oes canllawiau penodol wedi cael eu rhoi yng nghyswllt cynlluniau hunan-weinyddu. Mae cylchlythyr iechyd Cymru WHC (2002) 71 yn nodi canllawiau i fyrddau iechyd lleol ar ddefnyddio pecynnau gwreiddiol gwneuthurwyr yn eu hymddiriedolaethau. Bwriadwyd y canllawiau hyn i annog ehangu'r drefn o gyflenwi meddyginiaethau gan ganolbwyntio ar y claf mewn ysbytai. Mae'r dull hwn yn galluogi ysbytai i ddatblygu system i helpu cleifion i ddeall eu meddyginiaethau a sut mae eu cymryd. Gall hunan-weinyddu meddyginiaethau fod yn rhan o'r dulliau newydd hyn o gyflenwi meddyginiaethau. Mae'r model gwasanaeth hwn yn golygu bod y claf yn cael cwpwrdd cloi wrth ochr ei wely lle mae ei holl feddyginiaethau yn cael eu storio'n ddiogel. Mae hyn yn disodli system y droli feddyginiaethau y bydd staff nyrsio yn mynd â hi o amgylch y ward. Gall cleifion symud ymlaen wedyn o weinyddu dan oruchwyliaeth lawn y staff nyrsio, i reoli'r broses ar y cyd â'r nyrs, ac yna i hunan-weinyddu'n llwyr gyda'r claf yn cadw'r allwedd i'w gwpwrdd ei hun. Yn ymarferol, ychydig o gleifion yn yr ysbyty sy'n cyrraedd y trydydd cam hwn gan fod hyd arhosiad yn yr ysbyty ar gyfartaledd yn rhy fyr i'r broses gael ei chwblhau.

**Christine Chapman:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am swyddogaeth hunan-weinyddu meddyginiaethau mewn ysbytai yng Nghymru? (WAQ46336)

**Brian Gibbons:** Mae hunan-weinyddu meddyginiaethau mewn ysbytai yn broses ddefnyddiol iawn fel rhan o fodel cyflenwi meddyginiaethau sy'n canolbwyntio ar y claf. Mae'r broses yn galluogi cleifion i adnabod a deall eu meddyginiaeth a dysgu ei chymryd yn gywir. Dylai fod yn rhan o ddull strwythuredig o reoli meddyginiaethau i sicrhau bod staff priodol ar gael ar lefel ward i gynorthwyo i gyflwyno'r drefn. Mae'r agwedd hon o reoli meddyginiaethau yn rhan o'r archwiliad portffolio o ysbytai aciwt a gyflawnwyd gan y Comisiwn Archwilio dros yr wythnosau diwethaf. Disgwylir i'r adroddiad am yr archwiliad gael ei gyhoeddi ym mis Ebrill 2006.

**Christine Chapman:** A wnaiff y Gweinidog restru sawl ysbyty yng Nghymru sydd â system ar waith ar gyfer hunan-weinyddu meddyginiaethau? (WAQ46337)

**Brian Gibbons:** Byddai pob ysbyty sydd wedi cyflwyno'r model gwasanaeth sy'n canolbwyntio ar y claf, gyda chypyrddau meddyginiaeth sy'n cloi wrth ymyl y gwely, yn gallu caniatáu hunan-weinyddu gan gleifion. Cyfyngir ar roi'r cam hwn ar waith gan hyd arhosiad y claf.

**Helen Mary Jones:** A wnaiff y Gweinidog fanylu ynghylch nifer y nyrsys arbenigol a meddygon ymgynghorol yng Nghymru ar gyfer gwasanaethau iau/afu? (WAQ46338)

**Brian Gibbons:** Nid yw'r wybodaeth hon yn cael ei dal yn ganolog.

**Helen Mary Jones:** Pa gynlluniau sydd gan y Gweinidog i wella faint o wasanaethau iau/afu sydd ar gael yng Nghymru, ac a wnaiff fanylu ynghylch pa ddarpariaeth sydd ar gael ar hyn o bryd? (WAQ46339)

**Brian Gibbons:** Yng Nghymru, Dr Andy Godkin sy'n arwain y gwasanaeth iau/afu yn Ysbyty Athrofaol Cymru. Mae Mr N. Kumar wedi datblygu gwasanaeth iau/afu cyn-toriad ar gyfer canser eilaidd. Mae'r adolygiad strategol cenedlaethol o hepatitis C yn parhau, o dan gadeiryddiaeth Dr Geoffrey Carroll o Gomisiwn Iechyd Cymru ac yn cael ei gyd-drefnu gan Dr Marian Lyons o'r Gwasanaeth Iechyd Cyhoeddus Cenedlaethol. Mae hyn yn cynnwys asesiadau epidemiolegol ac anghenion cymdeithasol, ynghyd â gwerthusiad o'r gwasanaethau cyfredol. Bydd adroddiad terfynol yn cael ei gyflwyno i Lywodraeth Cynulliad Cymru yn ddiweddarach eleni.

Nid oes grwp strategol cenedlaethol i gynllunio gwasanaethau iau/afu yng Nghymru ar wahân i grwp hepatitis C.

**Helen Mary Jones:** A wnaiff fanylu ynghylch i ble cyfeirir cleifion o Gymru ar hyn o bryd y mae angen gwasanaethau iau/afu arnynt? (WAQ46340)

**Brian Gibbons:** Mae cleifion o Gymru y mae angen trawsblaniad iau/afu arnynt yn cael eu hanfon i Birmingham, Ysbyty Kings College ac Ysbyty Royal Free. Mae cleifion y mae angen triniaeth ar gyfer hepatitis C arnynt yn cael eu hanfon i Basingstoke, Llundain neu Birmingham. Ar gyfer llawdriniaeth iau/afu bediatrig mae cleifion o Gymru'n cael eu cyfeirio i Ysbyty Great Ormond Street, Birmingham neu Leeds.

**Jonathan Morgan:** Beth yw gwerth ariannol y contract ocsigen newydd i Air Products Cyf? (WAQ46341)

**Brian Gibbons:** Yr oedd gwerth tendr Air Products Ltd ar gyfer Cymru yn £2.15 miliwn y flwyddyn

fras.

**Jonathan Morgan:** Faint o gleifion sydd heb dderbyn eu cyflenwad ocsigen o fewn yr amserlen y cytunwyd arni ers trosglwyddo'r contract ocsigen newydd i Air Products Cyf? (WAQ46342)

**Brian Gibbons:** Nid yw'r data hwn ar gael. I'r cleifion hynny na chafodd eu hocsigen ei ddarparu gan Air Products o fewn amserlenni'r contract yn ystod y mis cyntaf, bydd trefniadau wedi cael eu gwneud ar eu cyfer gan fferyllwyr cymunedol o dan y trefniadau wrth gefn a gyflwynais ar 3 Chwefror.

**Jonathan Morgan:** Faint o staff nad ydynt yn staff meddygol a gyflogir ar hyn o bryd gan ein byrddau iechyd lleol a sut y mae'r ffigur hwn wedi newid ers iddynt gael eu sefydlu? (WAQ46343)

**Brian Gibbons:** Mae'r ffigurau diweddaraf sydd ar gael yn dangos, ar 30 Medi 2004, fod 745.6 o staff cyfwerth ag amser llawn, nad ydynt yn staff meddygol, yn cael eu cyflogi gan y byrddau iechyd lleol (heb gynnwys BILl Powys). Mae hyn yn cynrychioli cynnydd o 154.1 o staff cyfwerth ag amser llawn er 30 Medi 2003, y flwyddyn y sefydlwyd y byrddau iechyd lleol ynddi, pan oedd y ffigur yn 591.5.

Bydd ffigurau mis Medi 2005 yn cael eu cyhoeddi ymhen ychydig o wythnosau.

Gellir cael gwybodaeth bellach yng nghyhoeddiad/ar wefan Ystadegau Cymru Cynulliad Cenedlaethol Cymru, sydd hefyd yn rhoi dadansoddiad unigol am bob bwrdd iechyd lleol.

**Jonathan Morgan:** Beth yw'r rhagolwg ar gyfer dyled gronnus y GIG hyd at ddiwedd y flwyddyn ariannol hon? (WAQ46354)

**Brian Gibbons:** Byddai'r rhagolwg o ran dyled gronnus y GIG hyd at ddiwedd y flwyddyn ariannol yn cynnwys yr holl fenthyciadau hanesyddol blaenorol i'r ymddiriedolaethau a chymorth strategol i'r BILlau (y cytunwyd arnynt fel rhan o'r cynllun adfer cyfredol), ynghyd ag unrhyw ddiffygion a ragwelir (diffygion a ragwelir uwchlaw'r targedau mantoli'r gyllideb y cytunwyd arnynt) yn 2005-06. Nodir isod sut mae'r ffigur hwn wedi cael ei gyfrifo:

| | £ miliwn |
|---|---|
| Dyled gronnus sy'n ddyledus ar 31 Mawrth 2005 | 73.977 |

| | |
|---|---|
| Llai dyledion hanesyddol cyn 2001 sydd i gael ei dileu pan fydd rhai sefydliadau GIG yn cyrraedd y targedau mantoli'r gyllideb am gyfnod y cytunwyd arno o ddwy flynedd | (16.647)<br><br>(Gweler Nodyn 1) |
| Cyfanswm y cymorth ad-daladwy ar 31 Mawrth 2005 | 57.330 |
| Ynghyd ag unrhyw ddiffygion a oedd yn cael eu rhagweld gan ymddiriedolaethau GIG a BILlau ym mis Ionawr 2006 | 19.092 |
| Cyfanswm y ddyled gronnus sy'n cael ei rhagweld ar 31 Mawrth 2006 | 76.422 |

**Nodyn 1**

O dan ddatganiad cyhoeddus a wnaed gan y cyn Weinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cyhoeddus ym mis Ionawr 2002, cytunwyd y byddai dyledion mewn perthynas â phedwar sefydliad ymddiriedolaeth GIG, a oedd wedi cronni cyn 2001, yn cael eu dileu pan fyddai'r ymddiriedolaethau hynny yn cyrraedd eu targedau mantoli'r gyllideb am gyfnod o ddwy/tair blynedd. Nid yw'r ymddiriedolaethau hyn wedi cyflawni hynny eto ac mae gweddill y benthyciadau yn dal i gael ei adrodd fel symiau dyledus yn y cyfrifon unigol a gyhoeddir.

**Nodyn 2**

Mae a wnelo'r ffigurau yn y tabl ag ymddiriedolaethau GIG a byrddau iechyd lleol. Nid ydynt yn cynnwys benthyciad o £10.364 miliwn y cytunwyd arno a diffyg ychwanegol o £9.873 miliwn a ragwelir i Gomisiwn Iechyd Cymru. Mae Comisiwn Iechyd Cymru yn gorff cyhoeddus a noddir gan y Cynulliad ac nid yw ei ffigurau dyled yn cael eu cynnwys felly fel dyled GIG yng nghyfrifon cryno'r GIG.

**Jonathan Morgan:** A wnaiff y Gweinidog amlinellu'r broses a'i harweiniodd at ollwng ymrwymiad Llywodraeth Cynulliad Cymru i ddarparu gofal yn y cartref am ddim i bobl anabl? (WAQ46355)

**Brian Gibbons:** Cyflwynais bapur i'r Cabinet ar 9 Ionawr am y cynnydd o ran gweithredu'r ymrwymiad i ddarparu gofal yn y cartref am ddim i bobl anabl. Yr oedd yn cynnwys y canfyddiadau a oedd yn dod i'r amlwg o'r adroddiad costio annibynnol yr oeddwn wedi ei gomisiynu, ynghyd ag esboniad o'r sialensiau yr oeddem yn eu hwynebu o ran gweithredu'r ymrwymiad. O ystyried y rhain, cytunodd y Cabinet y gallwn ystyried dull gweithredu amgen i dargedu'r un grwp o gleientiaid a'r un gwasanaethau ag a gâi eu targedu gan y polisi gwreiddiol. Cytunodd y Cabinet i'r pecyn amgen a gyhoeddais yn y Cyfarfod Llawn ar 15 Chwefror yn ei gyfarfod ar 6 Chwefror. Mae'r cofnodion o'r

cyfarfodydd hynny ar gael ar:

http://www.wales.gov.uk/organicabinet/content/CabMeetings/index.htm

**Eleanor Burnham:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am gyllid ar gyfer gofal iechyd parhaus? (WAQ46356)

**Brian Gibbons:** Mae ‘gofal iechyd parhaus gan y GIG’ a gyllidir yn llawn yn cael ei ddarparu gan y GIG (mewn ysbyty, mewn cartref gofal, neu yng nghartref y person ei hun) pan fydd anghenion gofal iechyd unigolyn yn gyfryw fel yr asesir eu bod yn gyfrifoldeb llawn y GIG. Y byrddau iechyd lleol sy’n gyfrifol am gomisiynu gwasanaethau priodol i ddiwallu’r anghenion a nodir, ac mae’r cyllid yn gynwysedig yn eu dyraniad cyffredinol.

Nododd adroddiad yr Ombwdsmon yn 2003 y gallai llawer o bobl fod wedi talu am eu gofal eu hunain mewn cartrefi gofal, pan ddylent fod yn gymwys i gael gofal iechyd parhaus gan y GIG. Sefydlwyd proses drwy Gymru gyfan i bobl (neu eu hystadau) gael ad-daliad o’u costau gofal lle’r oedd hyn wedi digwydd. Mae’r broses o ran hawliadau cyn mis Ebrill 2003 yn cael ei rheoli gan BILl Powys, a’i chyllido gan y Cynulliad. Hyd yma, yng Nghymru, mae dros 300 o bobl wedi cael rhywfaint o ad-daliad o’u costau gofal: mae achosion yn dal i ddod i law ac yn cael gwrandawiad. Mae’r gost hyd yma yn fwy na £6 miliwn. Cyfrifoldeb y byrddau iechyd lleol yw ceisiadau am adolygiad, a chyllid, am y cyfnod ers mis Ebrill 2003.

**Carl Sargeant:** Beth y mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn ei wneud i hybu ymwybyddiaeth o glefydau a drosglwyddir trwy ryw ymhlith grwpiau sy’n agored i niwed? (WAQ46357)

**Brian Gibbons:** Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi cynnal rhaglen o ymgyrchoedd ymwybyddiaeth gyhoeddus yn canolbwyntio ar heintiau a drosglwyddir trwy ryw. Mae hefyd wedi sefydlu rhwydwaith iechyd rhywiol Cymru gyfan i ddarparu fforwm er mwyn rhannu’r arferion gorau ym maes hybu iechyd rhywiol.

Mae’r ymgyrch heintiau a drosglwyddir trwy ryw yn arddangos posteri a thaflenni gwybodaeth yn nhoiledau tafarnau, clybiau, prifysgolion a cholegau ledled Cymru. Mae wedi ei thargedu at bobl yn eu harddegau ac oedolion ifanc. Mae posteri a thaflenni wedi cael eu hanfon hefyd at glybiau ieuenctid, meddygon teulu, clinigau iechyd rhywiol a fferyllfeydd ar draws Cymru.

Mae Ymddiriedolaeth Terrence Higgins wedi cael ei chyllido gan Lywodraeth y Cynulliad ers mis Gorffennaf 2001 i ddarparu ymgyrch hyrwyddo iechyd HIV Cymru sy’n targedu dynion hoyw. Mae’r ymddiriedolaeth yn cael ei chyllido hefyd i gynnal yr ymgyrch ‘Better to know’ i annog pobl sy’n byw

yng Nghymru, sy’n dod o wledydd lle mae’r risg yn uchel, i gynnig eu hunain i gael profion HIV. Mae canfod HIV yn gynnar yn golygu gwell canlyniad i’r unigolyn o safbwynt triniaeth ac mae’n help i atal HIV rhag cael ei drosglwyddo ymhellach. Cyflogwyd gweithiwr ‘allgymorth’ gan Ymddiriedolaeth Terrence Higgins i hyrwyddo’r ymgyrch hon i gymunedau Affricanaidd yng Nghymru.

Mae rhwydwaith iechyd rhywiol Cymru gyfan yn cael ei redeg gan Ganolfan Iechyd Cymru a’r Gymdeithas Cynllunio Teulu. Mae’r rhwydwaith yn dod â gweithwyr proffesiynol, sy’n gweithio ym maes iechyd rhywiol, ynghyd gan hyrwyddo’r arferion gorau ym mhob agwedd o hyrwyddo iechyd rhywiol.

**Ann Jones:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am y strategaeth ystadau gofal sylfaenol yn sir Ddinbych? (WAQ46358)

**Brian Gibbons:** Gallaf gadarnhau bod strategaeth ystadau gofal sylfaenol integredig derfynol Bwrdd Iechyd Lleol Sir Ddinbych wedi cael ei chymeradwyo gan y Cynulliad ym mis Tachwedd ac mae ar gael ar wefan y BILl.

**Ann Jones:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am y gefnogaeth i bobl â dementia? (WAQ46359)

**Brian Gibbons:** Cyfrifoldeb y byrddau iechyd lleol ar draws Cymru yw comisiynu gwasanaethau i bobl â dementia, a phob gwasanaeth gofal iechyd arall. Mae’r BILlau yn asesu anghenion yr ardal leol a, chan weithio gydag ymddiriedolaethau GIG, awdurdodau lleol, y sector gwirfoddol ac eraill maent yn cynllunio a blaenoriaethu gwasanaethau i ddiwallu’r anghenion hynny o fewn yr adnoddau a ddarperir gan Lywodraeth Cynulliad Cymru. Rhaid i’r penderfyniadau hyn gael eu seilio ar dystiolaeth sydd ar gael i ddangos anghenion y boblogaeth leol.

Un o amcanion penodol y fframwaith gwasanaeth cenedlaethol ar gyfer pobl hyn yng Nghymru, a lansiwyd ar 20 Mawrth, yw comisiynu a darparu gwasanaethau iechyd meddwl cynhwysfawr ac integredig i bobl hyn ac oedolion iau sydd â dementia. Erbyn diwedd mis Mawrth 2007, dylai’r BILlau a’r awdurdodau lleol fod wedi sefydlu strategaethau comisiynu lleol ar gyfer y gwasanaethau hynny. Dylai’r strategaethau hyn gynnwys trefniadau ar gyfer:

diagnosio amserol o fewn gofal sylfaenol a chyfeirio i gael asesiad;

triniaeth, gofal a chymorth effeithiol, boed hynny yn y gymuned, fel claf mewnol neu mewn cartref gofal; a

chyswllt effeithiol â gwasanaethau cyffredinol iechyd, gofal cymdeithasol a thai.

Erbyn diwedd mis Mawrth 2008, rhaid i'r BILlau a'r awdurdodau lleol—yn gweithio gydag ymddiriedolaethau'r GIG, a darparwyr gwasanaethau yn y sectorau gwirfoddol ac annibynnol—sicrhau bod llwybrau diagnostig a chyfeirio yn cael eu datblygu rhwng gofal sylfaenol, gofal eilaidd, gofal yn y gymuned a gwasanaethau gwirfoddol i bobl hyn ac iau sydd â dementia. Dylai'r trefniadau hyn ategu prosesau'r dull gweithredu drwy gyfrwng asesiad unedig/rhaglen ofal. Dylai ystod o wasanaethau a chymorth arbenigol i bobl iau sydd â dementia a'u teuluoedd gael ei darparu hefyd.

**Peter Black:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am gyllid sydd ar gael ar gyfer gwasanaethau trin traed? (WAQ46360)

**Peter Black:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am wasanaethau trin traed yng Ngorllewin De Cymru? (WAQ46367)

**Brian Gibbons:** Mae'r cyfrifoldeb comisiynu am wasanaethau trin traed, a gwasanaethau gofal iechyd eraill, yn gorffwys gyda'r byrddau iechyd lleol. Mater i bob BILl yw asesu'r anghenion iechyd yn lleol a gweithio gyda darparwyr gwasanaethau gofal iechyd ac eraill i gynllunio a blaenoriaethu gwasanaethau i ddiwallu'r anghenion hynny o fewn yr adnoddau a ddarperir gan Lywodraeth Cynulliad Cymru.

Cyhoeddwyd strategaeth ddrafft a elwir yn 'Therapïau ar gyfer Moderneiddio' gan Lywodraeth Cynulliad Cymru ym mis Rhagfyr 2005. Mae'n nodi cyfraniadau therapïau—yn cynnwys trin traed—tuag at y rhaglen foderneiddio. Mae'r swyddogion yn dadansoddi'r ymatebion. Caiff y ddogfen derfynol ei chyhoeddi yn yr haf.

Yn dilyn adolygiad o wasanaethau podiatreg ar draws y DU, mae gwell lefelau o wasanaeth podiatreg i'r cleifion sy'n fwyaf eu hangen ar gael erbyn hyn yn Abertawe. Bu'n rhaid cynnal yr adolygiad hwn oherwydd y cynnydd sylweddol mewn diabetes yn y boblogaeth ac mae'n caniatáu i ddarparwyr gwasanaethau podiatreg gydymffurfio â'r safonau a nodwyd yn y fframwaith gwasanaeth cenedlaethol ar gyfer diabetes. Mae'r gwasanaeth newydd yr un fath â'r gwasanaeth sy'n cael ei ddarparu ar draws Cymru.

**Nick Bourne:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am ei flaenoriaethau cyfredol ar gyfer gwella'r gwasanaeth iechyd gwladol yng Nghymru? (WAQ46361)

**Brian Gibbons:** Mae 'Cynllun Oes' yn nodi gweledigaeth newydd o ran y gwell gofal iechyd y gall holl bobl cymryd ei ddisgwyl erbyn 2015. Mae'n cynnwys gweithredu i wella iechyd, gofal cymdeithasol a lles pawb ac i drawsnewid gwasanaethau. Bydd yn canolbwyntio yn y tair blynedd gyntaf ar wella clefyd coronaidd y galon, canser, iechyd meddwl, gwasanaethau i bobl hyn a phlant, gwasanaethau i'r

rhai sydd â chlefydau cronig ac sy’n aros am lawdriniaeth ddewisol.

**Nick Bourne:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am ei bolisïau ar gyfer cynyddu mynediad at wasanaethau deintyddol y GIG? (WAQ46362)

**Brian Gibbons:** Mae trefniadau peilot gwasanaethau deintyddol personol wedi sicrhau darpariaeth GIG ar gyfer 701,637 o gleifion presennol a bydd yn darparu mynediad ychwanegol i 201,087 o gleifion yn rhagor.

Ym mis Ebrill yr ydym yn cyflwyno contract newydd gyda’r nod o wella bywydau deintyddion a’u timau, gan eu galluogi i drin cleifion yn fwy fel unigolion a chanolbwyntio ar waith ataliol a thriniaethau o safon a rhoi terfyn ar y cylch presennol lle telir amrywiaeth eang o ffioedd gwahanol i ddeintyddion am bob triniaeth y maent yn ei rhoi. Bydd buddsoddiad sylweddol mewn diwygiadau deintyddol, gwerth rhyw £30 miliwn o 2006-07, yn caniatáu i wasanaethau deintyddol y GIG dyfu ymhellach a bydd yn rhoi mwy o reolaeth i’r BILlau dros y ffordd y caiff y gwasanaethau hynny eu datblygu i ddiwallu anghenion lleol. Os bydd deintydd yn lleihau ei ymrwymiad i’r GIG bydd y BILl hefyd yn gallu defnyddio’r adnoddau a ryddheir i ddarparu gwasanaethau deintyddol amgen.

Yr ydym hefyd wedi cynyddu’r lleoedd hyfforddi deintyddol i israddedigion 17 y cant ac, o 2006-07, bydd nifer y lleoedd hyfforddi galwedigaethol deintyddol yng Nghymru yn cynyddu o 55 i 65.

**William Graham:** A wnaiff y Gweinidog amlinellu’r cyfleusterau ar gyfer canfod a thrin dystonia yng Nghymru? (WAQ46363)

**Brian Gibbons:** Cyflwr niwrolegol yw dystonia sy’n gallu ymddangos mewn gwahanol ffurfiau. Nid oes un prawf pendant am y cyflwr hwn a bydd diagnosio dystonia yn dibynnu ar bresenoldeb symptomau ac arwyddion clinigol nodweddiadol. Mae niwrolegwyr yn gallu cynnal asesiadau niwrolegol a gallai fod angen iddynt ddefnyddio cyfleusterau diagnostig, yn cynnwys sganiau ar yr ymennydd a phrofion gwaed, i helpu i gadarnhau diagnosis. Mae’r driniaeth ar gyfer dystonia yn dibynnu ar fath a difrifoldeb y cyflwr neilltuol. Gall gynnwys ffisiotherapi, therapi cyffuriau a llawdriniaeth, lle bo hynny’n briodol a bydd yn seiliedig ar y farn glinigol mewn achosion unigol.

**Owen John Thomas:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am oblygiadau dyfarniad achos Coughlin ar gyllideb iechyd Llywodraeth Cynulliad Cymru? (WAQ46364)

**Brian Gibbons:** Mae a wnelo prif oblygiadau ariannol achos Coughlin ag argaeledd cyllid i dalu

hawliadau llwyddiannus am gostau gofal ôl-weithredol. Cododd yr hawliadau hyn am nad oedd llawer o breswylwyr mewn cartrefi gofal wedi cael eu dynodi'n briodol fel preswylwyr a oedd â hawl i ofal iechyd parhaus o dan y GIG (a fyddai'n golygu bod gofyn i'r GIG dalu eu ffioedd yn llawn). Mae cyllid wedi cael ei ddynodi gan Lywodraeth Cynulliad Cymru i dalu hawliadau llwyddiannus am y cyfnod hyd at 1 Ebrill 2003. Mae'r broses o ran hawliadau cyn mis Ebrill 2003 yn cael ei rheoli gan BILl Powys, sy'n gyfrifol am atebolrwydd gweddilliol yr awdurdodau iechyd. Hyd yma, yng Nghymru, mae dros 300 o bobl wedi cael rhywfaint o ad-daliad o'u costau gofal: mae achosion yn dal i ddod i law a chael gwrandawiad. Mae'r gost hyd yma dros £6 miliwn. Cyfrifoldeb y byrddau iechyd lleol yw ceisiadau am adolygiad, a chyllid, am y cyfnodau ers mis Ebrill 2003.

**Owen John Thomas:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am y gwasanaeth awtistiaeth trydyddol yng Nghaerdydd? (WAQ46365)

**Brian Gibbons:** Mae'r gwasanaeth cyfredol yn parhau yn y tymor byr tra bo gwaith manylach yn cael ei wneud gan y gymuned iechyd leol dros y chwe mis nesaf i sicrhau y bydd gwasanaeth priodol yn dal i gael ei ddarparu.

**William Graham:** Yn dilyn eich ateb i WAQ45993, a wnaiff y Gweinidog gadarnhau a oes yr un cyfle i bawb a gwasanaethau o safon ledled y wlad? (WAQ46366)

**Brian Gibbons:** Ni fydd gwasanaethau nad ydynt yn cyrraedd ein safonau ansawdd a mynediad cydradd yn cael eu goddef. Mae 'Cynllun Oes' yn nodi'r weledigaeth o ran iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru hyd at 2015 ac yr wyf yn disgwyl y bydd pob sefydliad yn cynllunio ei wasanaethau yn unol â'r elfennau allweddol y mae gofyn eu darparu o fewn y strategaeth hon. Mae'n golygu bod rhaid i'r gymuned iechyd ddarparu gwasanaethau sy'n gwella yn awr a dal i'w datblygu'n barhaus yn unol â gofynion 'Cynllun Oes' ar gyfer y dyfodol. Atgyfnerthir yr ymgyrch hon o blaid gwella ansawdd a mynediad cydradd drwy osod targedau fframwaith gwasanaeth a chyllid Cymru gyfan.

**Karen Sinclair:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am gynllun atgyfeirio cleifion i wneud ymarfer corff gan Lywodraeth Cynulliad Cymru? (WAQ46368)

**Brian Gibbons:** Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru am ehangu'r cynlluniau atgyfeirio cleifion i wneud ymarfer corff ar draws Cymru. Lansiwyd canllawiau arferion da o dan y teitl 'Exercise Referral—a guide to developing high quality schemes' ym mis Ionawr eleni. Mae'n dwyn yr arferion gorau o bob cwr o Gymru ynghyd ac yn rhoi cyngor i gyd-drefnwyr a gweithwyr proffesiynol yn y maes iechyd ac ymarfer corff ar sut mae datblygu cynlluniau.

Yr ydym hefyd yn y broses o ddatblygu rhaglen genedlaethol i adeiladu ar y cynlluniau presennol a chreu cyfleoedd mewn meysydd newydd. Bydd y prosiect cyfan yn cynnwys: astudiaeth ar hap, a reolir, i ganfod pa mor effeithiol yw'r ymyriad o ran cynyddu gweithgarwch corfforol, gwella iechyd ac arbedion costau posibl i'r gwasanaeth iechyd gwladol; hyfforddiant am ddim i sicrhau bod pob prosiect yn cael ei ddarparu gan hyfforddwyr ymarfer corff sydd â chymwysterau priodol; a chymorth i bartneriaethau lleol i roi protocolau y cytunir arnynt yn lleol ar waith. Bydd chwe ardal yn cael eu dethol i gael cymorth ym mlwyddyn 1, a bydd y cynlluniau hyn yn lansio ym mis Ionawr 2007.

**Karen Sinclair:** Beth y mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn ei wneud i sicrhau bod triniaeth IVF o fewn cyrraedd mwy o bobl yng Nghymru? (WAQ46369)

**Brian Gibbons:** Ym mis Gorffennaf 2005, cyhoeddodd Llywodraeth Cynulliad Cymru feini prawf mynediad newydd ar gyfer triniaeth IVF. Bydd pob claf sy'n bodloni'r meini prawf newydd yn cael cynnig un cylch o driniaeth IVF am ddim, wedi'i chyllido gan y GIG. Bydd hyn yn sicrhau gweithredu cyson yn y dyfodol ni waeth ymhle yng Nghymru y mae'r claf yn byw.

**Rhodri Glyn Thomas:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am argaeledd cyffuriau ar gyfer clefyd Alzheimer? (WAQ46370) [W]

**Brian Gibbons:** Cyflwynodd y Sefydliad Cenedlaethol dros Iechyd a Rhagoriaeth Glinigol (NICE) ganllawiau ar y defnydd o gyffuriau ar gyfer trin y clefyd Alzheimer yn 2001, gan argymell y dylid eu defnyddio ar gyfer trin achosion ysgafn i gymedrol o'r clefyd yng Nghymru a Lloegr. Mae NICE wrthi'n adolygu'r canllawiau hynny ac mae canfyddiadau dros dro wedi codi amheuon ynghylch effeithiolrwydd clinigol y cyffuriau hyn a'u heffeithiolrwydd o ran cost. Serch hynny, daeth tystiolaeth newydd i'r amlwg yn awgrymu y gallai'r cyffuriau fod yn effeithiol ar gyfer rhai grwpiau o gleifion. Penderfynodd NICE ddosbarthu dogfen ymgynghori ddiwygiedig ar arfarnu yn argymell y dylid parhau i roi'r cyffuriau hyn ar bresgripsiwn i gleifion sy'n dioddef o'r math cymedrol o glefyd Alzheimer.

Bydd pwyllgor arfarnu NICE yn cyfarfod ar 27 Ebrill er mwyn ystyried yr ymatebion a dderbynnir i'r ddogfen ymgynghori a rhagwelir y bydd y canllawiau terfynol yn cael eu dosbarthu erbyn mis Gorffennaf eleni. Bydd canllawiau gwreiddiol NICE a luniwyd yn 2001 yn parhau mewn grym hyd hynny.

**Alun Ffred Jones:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am y sefyllfa ddiweddaraf parthed Ysbyty Alltwen, Tremadog, Porthmadog? (WAQ46371) [W]

**Brian Gibbons:** Mae cam 1, sy’n cynnwys y gwaith ar raddfa fawr yn Ysbyty Alltwen ym Mhorthmadog, newydd ei gwblhau. Yr oedd y gwaith hwn yn cynnwys creu ffordd fynediad newydd ynghyd â chyffordd i’r A487, mynediad i brif faes parcio'r ysbyty ac i fynedfa arfaethedig yr ysbyty.

Mae cam 2, sy’n cynnwys y prif waith dylunio mewn perthynas â’r ysbyty, wedi’i gwblhau ac mae’r gwaith adeiladu wedi cael ei brisio. Mae Ymddiriedolaeth GIG Gogledd-orllewin Cymru wedi llwyddo i sicrhau cynnydd yn y cyllid cyfalaf sydd ar gael trwy drafodaethau â Llywodraeth Cynulliad Cymru yn sgil canlyniad y broses dendro ac mae’n paratoi ar gyfer cam nesaf y gwaith adeiladu.

**Rhodri Glyn Thomas:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am y gwasanaethau cefnogi sydd ar gael i bobl â dementia? (WAQ46372) [W]

**Brian Gibbons:** Mae cyfrifoldeb ar fyrddau iechyd lleol yng Nghymru i gomisiynu gwasanaethau ar gyfer pobl y mae dementia arnynt, ynghyd â gwasanaethau gofal iechyd eraill. Mae BILl yn asesu anghenion yr ardal leol a, thrwy gydweithio ag ymddiriedolaethau’r GIG, Awdurdodau Lleol, y sector gwirfoddol ac eraill, yn cynllunio ac yn blaenoriaethu gwasanaethau er mwyn bodloni’r angen hwnnw o fewn yr adnoddau a ddarperir gan Lywodraeth Cynulliad Cymru. Mae’n rhaid i’r penderfyniadau hyn gael eu cefnogi gan y dystiolaeth sydd ar gael sy’n dangos anghenion y boblogaeth leol.

Un o amcanion penodol y fframwaith gwasanaeth cenedlaethol ar gyfer pobl hyn yng Nghymru, a lansiwyd ar 20 Mawrth, yw comisiynu a darparu gwasanaethau iechyd meddwl cynhwysfawr ac integredig ar gyfer pobl hyn ac oedolion iau y mae demensia arnynt. Erbyn diwedd mis Mawrth 2007, dylai BILl ac awdurdodau lleol fod â strategaethau comisiynu lleol ar gyfer y gwasanaethau hyn. Dylai’r strategaethau hyn gynnwys trefniadau ar gyfer:

> Diagnosis amserol o fewn gofal sylfaenol ac atgyfeiriadau ar gyfer asesiadau;
>
> Triniaeth, gofal a chymorth effeithiol boed yn y gymuned, fel claf mewnol neu yn y cartref; a
>
> Cyswllt effeithiol â gwasanaethau iechyd, gwasanaethau gofal cymdeithasol a gwasanaethau tai cyffredinol.

Erbyn diwedd mis Mawrth 2008, mae’n rhaid i BILl ac awdurdodau lleol—trwy gydweithio ag Ymddiriedolaethau’r GIG, a darparwyr gwasanaethau o fewn y sector gwirfoddol a’r sector annibynnol—sicrhau bod llwybrau diagnostig ac atgyfeirio yn cael eu datblygu rhwng gofal sylfaenol, gofal eilaidd, gofal yn y gymuned a gwasanaethau gwirfoddol ar gyfer pobl hyn a phobl iau y mae demensia arnynt. Dylai’r trefniadau hyn gyd-fynd â phrosesau asesu unedig/dull rhaglen ofal. Dylai gwahanol wasanaethau arbenigol ynghyd â chymorth hefyd gael eu darparu ar gyfer pobl iau y mae

demensia arnynt a’u teuluoedd.

**David Lloyd:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am sut y rheolir nychdod cyhyrol Duchenne yng Nghymru yn y dyfodol? (WAQ46376)

**Brian Gibbons:** Mae darparu gwasanaethau ar gyfer cleifion sydd â nychdod cyhyrol Duchenne yn golygu cyd-drefnu gofalus ar draws nifer o arbenigeddau yn cynnwys geneteg, niwrowyddorau, meddygaeth anadlol, cardioleg, orthopedeg y cefn a theclynnau. Mae nychdod cyhyrol Duchenne yn effeithio ar nifer fach o wrywod sydd, yn dibynnu ar y rheolaeth glinigol drostynt, yn gallu byw i’w 30au cynnar. Mae’r byrddau iechyd lleol a Chomisiwn Iechyd Cymru fel comisiynwyr yn ymwneud ag elfennau o’r gwasanaethau ond gan fod anghenion cleifion yn amrywio mewn ffordd unigryw ar draws arbenigeddau gwahanol, ni fu ymgais benodol i gyd-drefnu ac eithrio drwy ddarparwyr niwrowyddorau.

Ar hyn o bryd, nid oes gwasanaeth ‘cydgysylltiedig’ yn bod (fel a geir gyda llawer o wasanaethau). Mae yna achos busnes dros ddatblygu gwasanaeth i glefydau niwrogyhyrol yng Nghaerdydd.

Mae Comisiwn Iechyd Cymru mewn trafodaeth ag Ymddiriedolaeth GIG Caerdydd a’r Fro ar hyn o bryd fel y brif ganolfan drydyddol i drafod blaenoriaethau datblygu a sut y mae modd gwella’r gwasanaethau hyn.

Efallai y gellid gwneud gwelliannau drwy drefnu gwasanaethau cleifion allanol fel eu bod o ddifrif yn glinigau o fath MDT ac nad yw cleifion ond yn gwneud un ymweliad ag un safle.

**David Lloyd:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am rwydwaith niwrogyhyrol Cymru? (WAQ46378)

**Brian Gibbons:** Lansiwyd rhwydwaith niwrogyhyrol Cymru yn 2003 o dan grant tair blynedd a hanner gan yr ysgol feddygaeth, Prifysgol Caerdydd. Mae’r rhwydwaith yn ymwneud â chlefydau’r prif gyhyrau sy’n effeithio ar oddeutu 1,800 o blant ac oedolion yng Nghymru, gan achosi dirywiad yn y cyhyrau a gwendid.

Rôl y rhwydwaith yw cynyddu gwybodaeth ac ymchwil i glefydau cyhyrol a gosod safonau gofal ar gyfer cleifion yng Nghymru sydd â chlefydau ar y prif gyhyrau. Mae’n cysylltu gweithwyr proffesiynol meddygol â’i gilydd i drafod clefydau’r cyhyrau. Mae’r rhwydwaith hefyd yn gwella’r gofal i gleifion a’u teuluoedd ac yn ehangu eu gwybodaeth am y cyflwr.

Yn ystod y tair blynedd ddiwethaf mae’r rhwydwaith wedi cwrdd yn rheolaidd i wella’r wybodaeth am y cyflyrau hyn ar draws gofal sylfaenol, eilaidd a thrydyddol gyda chysylltiadau â’r gwasanaethau cymdeithasol ac addysg. Cynhaliwyd y cyfarfodydd hyn ar hyd a lled Cymru. Mae’r gwaith wedi bod yn

mynd yn ei flaen i ddatblygu llwybr a safonau gofal i gleifion, yn cynnwys llunio cysylltiadau â grwpiau eraill sy’n ymwneud ag orthopedeg, cardioleg, meddygaeth anadlol a gwasanaethau cadeiriau olwyn.

**Lisa Francis:** A all y Gweinidog gadarnhau pryd yn union ym mis Mawrth y mae’n disgwyl cael drafft cyntaf y ddogfen a fydd yn siapio dyfodol gwasanaethau i bobl sydd ag arthritis a chyflyrau cyhyrysgerbydol yng Nghymru? (WAQ46379)

**Brian Gibbons:** Mae gwaith ar y gweill ar hyn o bryd i gyfieithu drafft cyntaf dogfen Cymru gyfan am arthritis a chyflyrau cyhyrysgerbydol. Yr ydym yn disgwyl i’r ddogfen gael ei lansio yn gynnar ym mis Ebrill 2006 ar gyfer ymgynghoriad cyhoeddus tri mis.

**David Lloyd:** Yn dilyn ei ateb i WAQ46023, a wnaiff y Gweinidog ddatganiad am ddatblygu'r gallu i hepgor ecson (Exon Skipping) ar gyfer nychdod cyhyrol Duchenne? (WAQ46395)

**Brian Gibbons:** Nid oes dim ymhellach y gallaf ei ychwanegu at fy ateb blaenorol ar hyn o bryd.

**Lynne Neagle:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am nifer y bobl sy’n aros am therapïau addasu clefydau yng Nghymru? (WAQ46398)

**Lynne Neagle:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am sefyllfa Comisiwn Iechyd Cymru o ran cyllido therapïau addasu clefydau yng Nghymru? (WAQ46399)

**Lynne Neagle:** A wnaiff y Gweinidog ddarparu dadansoddiad yn ôl amser aros, ymddiriedolaeth a bwrdd iechyd lleol ar gyfer y rhai sy’n aros am therapïau addasu clefydau yng Nghymru? (WAQ46400)

**Brian Gibbons:** Mae therapïau addasu clefydau yn gymwys i nifer o gyflyrau meddygol gwahanol ac ni allaf ateb eich dau gwestiwn cyntaf heb gael gwybodaeth benodol gennych am y cyflyrau dan sylw. O ran eich trydydd cwestiwn, mater i ymddiriedolaethau GIG unigol yw hwn.

**Jenny Randerson:** Pryd y bydd y Gweinidog yn cyhoeddi strategaeth Gymru-gyfan ar gyfer awtistiaeth? (WAQ46401)

**Brian Gibbons:** Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi ymrwymo’n llwyr i ymgynghori ynghylch y

cynllun gweithredu drafft ar gyfer anhwylderau yn y sbectrwm awtistiaeth yn y gwanwyn. Bydd cyhoeddi’r ddogfen derfynol, a fydd yn gynllun traws-sector ac yn cwmpasu pob oedran, yn dibynnu ar ganlyniadau’r broses ymgynghori.

**Janice Gregory:** A wnaiff y Gweinidog roi gwybodaeth am gynlluniau ffyrdd iach o fyw yn Ogwr a hyrwyddir gan Lywodraeth Cynulliad Cymru? (WAQ46402)

**Brian Gibbons:** Mae amryw o gynlluniau ffyrdd iach o fyw ar waith yn Ogwr. Maent yn cynnwys:

**Cynlluniau Ysgolion Iach - Rhwydwaith Cymru (WNHSS)**

Mae nifer o ysgolion yn aelodau o gynlluniau ysgolion iach Pen-y-bont ar Ogwr neu Rondda Cynon Taf, sydd wedi cael eu hachredu gan Lywodraeth Cynulliad Cymru.

Mae tair ysgol yn Ogwr wedi cael achrediad Cynlluniau Ysgolion Iach - Rhwydwaith Cymru cam 3: Ysgol Gynradd Blaengarw, Ysgol Iau Blaencaerau ac Ysgol Fabanod Pontycymer. Mae chwe ysgol wedi cael achrediad cam 2 a saith wedi cael achrediad cam 1, ac mae nifer o ysgolion eraill yn gweithio tuag at hyn.

Gellir cael rhagor o wybodaeth am y cynllun yma:

http://www.cmo.wales.gov.uk/content/work/schools/wnhss-e.htm.

**Atal ysmygu**

Mae dosbarthiadau yn Ysgol Gyfun Maesteg ac Ysgol Gyfun Llanhari wedi ymgeisio yn y gystadleuaeth Dosbarth Di-fwg eleni. Mae disgyblion cynradd o nifer o ysgolion yn Ogwr hefyd yn aelodau o’r Clwb Bygiau Baco!, clwb y ceir ymuno ag ef am ddim sy’n hyrwyddo manteision peidio ag ysmygu. Mae rhagor o wybodaeth am y cynlluniau hyn ar gael ar: http://www.eysgoliach.org.uk/.

Fel rhan o beilot Ewropeaidd, cyllidodd Llywodraeth y Cynulliad brosiect rhoi’r gorau i ysmygu yn ardal Pen-y-bont ar Ogwr yn ystod blwyddyn ariannol 2005-06 yn targedu disgyblion ysgol uwchradd yn ogystal â phobl ifanc 15 i 18 oed yng ngharchar y Parc.

**Y Gronfa Anghydraddoldebau Iechyd**

Mae gan y gronfa anghydraddoldebau iechyd dri phrosiect ar waith yn ardal Ogwr ac maent, yn unol â phortffolio’r gronfa, yn canolbwyntio’n bennaf ar glefyd coronaidd y galon.

Mae prosiect 'Calon y Gymuned', yng nghymoedd Ogwr a Garw, yn rhaglen o dan arweiniad gofal sylfaenol sy'n targedu cymunedau ac unigolion y mae risg uchel iddynt ddatblygu clefyd coronaidd y galon.

Mae 'Heart Smart' yn targedu pobl y mae risg uchel iddynt ddatblygu clefyd coronaidd y galon drwy fynd i mewn i'r gweithle i sgrinio a chynnig cyngor ac ymyriadau priodol.

Mae Ymddiriedolaeth Bro Morgannwg yn arwain prosiect sy'n darparu gwasanaeth adsefydlu cardiaidd i gleifion o Ben-y-bont ar Ogwr a'r ardal gyfagos.

**Iechyd a Gwaith**

Mae Ogwr yn elwa hefyd o gynlluniau yn y gweithle sydd â ffocws ar Ben-y-bont ar Ogwr: e.e. mae'r bwrdd iechyd lleol wedi cyrraedd y safon iechyd gorfforaethol ar y lefel aur, tra bo'r awdurdod lleol ac Ymddiriedolaeth Bro Morgannwg wedi cyrraedd y lefel arian.

**Janice Gregory:** A wnaiff y Gweinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am y camau y mae Llywodraeth Cynulliad Cymru'n eu cymryd i fynd i'r afael ag anghydraddoldebau iechyd yng Nghymoedd De Cymru? (WAQ46403)

**Brian Gibbons:** Mae gweithredu a dargedir i helpu pobl i wella eu hiechyd yn dal i fod yn nodwedd gref o'n gwaith ac mae amrywiaeth eang o gynlluniau ar y gweill ar draws Cymoedd y De. Er enghraifft, mae'r gronfa anghydraddoldebau iechyd yn dal i gefnogi 62 o brosiectau byw yng nghymunedau mwyaf difreintiedig Cymru gan ganolbwyntio'n bennaf ar glefyd coronaidd y galon. Mae 25 o brosiectau yng Nghymoedd y De.

Mae prosiectau yn Rhondda Cynon Taf, Blaenau Gwent, Caerffili a Merthyr Tudful yn dal i ddarparu gweithredu lleol, gan helpu i wella mynediad pobl at wasanaethau a gwella eu hiechyd a'u lles. Mae'r gweithredu yn cynnwys sgrinio, ymyrryd ac asesu risg, a hefyd adsefydlu cardiaidd, ymarfer corff a rhoi'r gorau i ysmygu.

Mae tri phrosiect ar y gweill yn ardal Ogwr. Yn cydgysylltu â ac yn ategu cynlluniau fel Cychwyn Cadarn ac Ysgolion Iach, mae prosiect 'Calon y Gymuned' yn darparu rhaglen gymunedol o dan arweiniad gofal sylfaenol. Mae'n cefnogi newidiadau cynaliadwy o ran ffordd o fyw, ac fe'i targedir at gymunedau ac unigolion y nodwyd bod risg uchel iddynt ddatblygu clefyd coronaidd y galon. Mae'r prosiect yn canolbwyntio'n benodol ar gymunedau cymoedd Ogwr a Garw.

Prosiect arloesol sy'n mynd law yn llaw â 'Chalon y Gymuned' yw 'Heart Smart'. Caiff ei dargedu at bobl y mae risg uchel iddynt ddatblygu clefyd coronaidd y galon nad ydynt fel arfer yn cysylltu â nac yn manteisio ar ofal iechyd sylfaenol. Bu'n hynod o lwyddiannus yn mynd i mewn i'r gweithle i sgrinio,

gan gynnig cyngor ac ymyriadau priodol yn cynnwys cyfeirio ymlaen at feddygon teulu, rhaglenni ymarfer corff, diet a rhoi’r gorau i ysmygu.

Gan weithio’n agos â’i chwaer brosiect yn ardal Castell-nedd Port Talbot ac ar y cyd ag ef, mae Ymddiriedolaeth Bro Morgannwg yn arwain prosiect sy’n darparu gwasanaeth adsefydlu cardiaidd integredig i gleifion o Ben-y-bont ar Ogwr a’r ardal gyfagos.

Prosiectau sy’n arwain y ffordd yn yr ymatebion lleol i Her Iechyd Cymru ac maent yn cynhyrchu tystiolaeth dda o’u heffeithiolrwydd o ran cynnydd a llwyddiant. Yr ydym hefyd wedi comisiynu gwerthusiad annibynnol o’r gronfa.

Ym mis Chwefror, cyhoeddais y byddai’r cyllid i brosiectau’r gronfa anghydraddoldebau iechyd yn cael ei ymestyn am flwyddyn arall. Bellach bydd llawer o’r prosiectau yn para tan fis Mawrth 2008. Hefyd, cyhoeddwyd adroddiad, ‘The Inequalities In Health Fund—making a difference’, ym mis Chwefror ac mae hwn yn tynnu sylw at y cynnydd yng ngwaith y gronfa a’r hyn a gyflawnwyd hyd yma. Anfonodd y swyddogion gopi atoch yn ddiweddar.

Dyrannodd y Cynulliad £41 miliwn yn 2003-04 a 2004-05 i symud ymlaen i weithredu fformiwla anghenion uniongyrchol Townsend. O’r arian hwn, dyrannwyd y cyllid canlynol i fyrddau iechyd lleol y Cymoedd:

Merthyr—£0.892 miliwn

RhCT—£2.054 miliwn

Blaenau Gwent—£1.9 miliwn

Tor-faen—£5.83 miliwn

Caerffili—£7.668 miliwn.

**Jenny Randerson:** Pa gamau a gymerir i sicrhau bod cyllid digonol ar gael i roi canllaw gwerthusiad technegol Rhif 60 NICE ar waith yng Nghymru? (WAQ46411)

**Brian Gibbons:** Mae cyllid i roi canllawiau NICE ar waith yn cael ei ddarparu i’r byrddau iechyd lleol a Chomisiwn Iechyd Cymru drwy eu dyraniadau refeniw blynyddol. Dan delerau’r cytundeb cyllid cenedlaethol, mae dyraniadau refeniw’r BILlau a Chomisiwn Iechyd Cymru yn cynyddu’n flynyddol i adlewyrchu galwadau newydd a roddir ar y gwasanaeth megis canllawiau newydd sy’n cael eu cyhoeddi gan NICE.

**Jenny Randerson:** Pa gamau a gymerir i sicrhau bod rhaglenni addysg i bobl ifanc sydd â diabetes yng Nghymru'n bodloni'r meini prawf a nodwyd yn y datganiad ar y cyd gan Diabetes UK a'r Adran Iechyd yn 2005? (WAQ46412)

**Brian Gibbons:** Mae rhaglenni addysg i bobl ifanc sydd â diabetes yn faes y mae angen mynd i'r afael ag ef. Bydd Llywodraeth Cynulliad Cymru yn cefnogi seminar sy'n cael ei drefnu gan grwp Brycheiniog—(Ymgynghorwyr Pediatrig, Nyrsys Arbenigol Diabetes a Dietegwyr Cymru Gyfan) i roi sylw i'r mater hwn.

Mae rhaglen DAFYDD wedi cychwyn i oedolion ifanc yn sir Gaerfyrddin a Chasnewydd. Mae'r rhaglen hon yn cyflawni'r meini prawf a nodwyd yn y datganiad ar y cyd ac fe'i cefnogir gan Diabetes UK, y Rhwydwaith Diabetes Math 1 a'r Adran Iechyd. Mae Cymru'n arwain o ran sefydlu'r math yma o raglen i oedolion ifanc.

**Jenny Randerson:** Pa fecanweithiau a sefydlir i sicrhau bod cyrsiau addysg diabetes a gomisiynir gan fyrddau iechyd lleol yng Nghymru'n bodloni'r meini prawf a nodwyd yng nghanllaw gwerthusiad technegol Rhif 60 NICE? (WAQ46413)

**Brian Gibbons:** Yr ydym eisoes yn ymwybodol o'r cyrsiau addysg diabetes sydd wedi cael eu rhoi ar waith a byddwn yn parhau i fonitro'r cynnydd o ran rhoi cyrsiau addysg diabetes ar waith i sicrhau eu bod yn bodloni meini prawf NICE. Ar hyn o bryd mae'r gwaith monitro'n cael ei wneud drwy gysylltiad â'r byrddau iechyd lleol, ymddiriedolaethau ac adroddiadau gan gleifion yng nghyfarfodydd grwp cyfeirio cleifion Cymru gyfan. Yr ydym yn y broses o sefydlu rhwydwaith addysg diabetes i Gymru gyfan a byddwn yn ymgorffori'r gwaith o fonitro'r rhaglenni addysg i gleifion ar draws Cymru yng nghylch gwaith y rhwydwaith.

**Alun Cairns:** Pa gynlluniau sydd gan GIG Cymru i sefydlu canolfannau a thimau cymorth lleol i helpu i drin pobl sydd â syndrom blinder cronig /enseffalomyelitis myalgig? (WAQ46415)

**Alun Cairns:** Pa ganllawiau a roddir i GIG Cymru ynglyn â thrin syndrom blinder cronig / enseffalomyelitis myalgig (CFS/ME)? (WAQ46416)

**Alun Cairns:** Beth yw polisi Llywodraeth Cynulliad Cymru ynglyn â chynorthwyo pobl sy'n dioddef o'r syndrom blinder cronig /enseffalomyelitis myalgig (CFS/ME)? (WAQ46417)

**Brian Gibbons:** Mae fy swyddogion wedi bod yn cymryd camau i edrych ar y ffordd y rheolir cyflyrau syndrom blinder cronig ac enseffalomyelitis myalgig ac maent wedi bod yn dilyn y datblygiadau ymchwil, yn cynnwys y rhai sydd ar y gweill gan y Cyngor Ymchwil Meddygol. Bydd canlyniadau datblygiadau'r cyngor yn cael eu hasesu maes o law a bydd ei ganfyddiadau yn cael eu cymryd i ystyriaeth o safbwynt y driniaeth a'r rheolaeth briodol ar gyfer y cyflyrau hyn.

Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru, ynghyd â'r Adran Iechyd, hefyd wedi comisiynu'r Sefydliad Cenedlaethol dros Ragoriaeth Glinigol i ddatblygu canllawiau clinigol ar ddiagnosio a rheoli syndrom blinder cronig ac ME. Bydd y canllawiau hyn yn cynnig cyngor clir o ran pa wasanaethau y dylai'r GIG eu darparu ar sail y dystiolaeth orau sydd ar gael.

Nid yw Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi cyhoeddi polisi penodol yn ymdrin â maes syndrom blinder cronig ac ME. Byddir yn ymdrin ag argymhellion yn ymwneud â thrin pob cyflwr cronig drwy'r fframwaith rheoli clefydau cronig i Gymru sy'n cael ei ddatblygu ar hyn o bryd.

**Rhodri Glyn Thomas:** Pa ddarpariaethau sydd wedi'u gwneud i sicrhau y darperir gwasanaethau deintyddol y GIG yng Nghwm Aman yn y dyfodol? (WAQ46418)

**Brian Gibbons:** Mae dau gynllun peilot Gwasanaeth Deintyddol Personol wedi sicrhau darpariaeth y GIG i 19,020 o gleifion presennol a bydd yn darparu lleoedd ychwanegol ar gyfer 1,216 o gleifion eraill yng Nghwm Aman. Yn ychwanegol at hynny, bydd sefydlu practis deintyddol newydd yn Llandeilo o fis Ebrill ymlaen, gyda lle i hyd at 4,200 o gleifion GIG newydd, hefyd o fudd i drigolion Cwm Aman.

O 1 Ebrill bydd buddsoddiad sylweddol yn y gwelliannau deintyddol newydd yn cychwyn comisiynu lleol, sy'n rhoi rheolaeth gynyddol i Fyrddau Iechyd Lleol ynglyn â sut y caiff gwasanaethau deintyddol y GIG eu datblygu i fodloni anghenion lleol. Os bydd deintydd yn lleihau ei ymrwymiad i'r GIG bydd y Bwrdd Iechyd Lleol yn gallu defnyddio'r adnoddau a ryddhawyd i ddarparu gwasanaethau deintyddol eraill.

**Rhodri Glyn Thomas:** Gyda golwg ar bob Ymddiriedolaeth GIG, a wnaiff y Gweinidog fanylu ynghylch yr arian a fydd ar gael i'r Agenda ar gyfer Newid yn y flwyddyn ariannol nesaf? (WAQ46419)

**Brian Gibbons:** Mae'r arian a fydd ar gael i'r 'Agenda ar gyfer Newid' ar gyfer pob ymddiriedolaeth GIG yn y flwyddyn ariannol nesaf wedi ei nodi yn y tabl isod. Rhoddir manylion am y ffigurau hyn yn nyraniadau refeniw 2006-07 Byrddau Iechyd Lleol a Chomisiwn Iechyd Cymru, sy'n cynnwys codiad o 4.5 y cant ar gyfer chwyddiant.

**Arian 'Agenda ar gyfer Newid' fesul Ymddiriedolaeth 2006-07**

| **Ymddiriedolaeth GIG** | **£’000** |
|---|---|
| Ymddiriedolaeth GIG Bro Morgannwg | 4,150 |
| Ymddiriedolaeth GIG Caerdydd a’r Fro | 7,850 |
| Ymddiriedolaeth GIG Sir Gaerfyrddin | 2,100 |
| Ymddiriedolaeth GIG Ceredigion a Chanolbarth Cymru | 740 |
| Ymddiriedolaeth GIG Conwy a Sir Ddinbych | 3,440 |
| Ymddiriedolaeth GIG Gofal Iechyd Gwent | 7,170 |
| Ymddiriedolaeth GIG Gogledd-ddwyrain Cymru | 3,110 |
| Ymddiriedolaeth GIG Gogledd Morgannwg | 1,860 |
| Ymddiriedolaeth GIG Gogledd-orllewin Cymru | 3,110 |
| Ymddiriedolaeth GIG Sir Benfro a Derwen | 2,080 |
| Ymddiriedolaeth GIG Pontypridd a Rhondda | 2,620 |
| Ymddiriedolaeth GIG Abertawe | 4,720 |
| Ymddiriedolaeth GIG Felindre | 1,140 |
| Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru | 13,080 |
| Bwrdd Iechyd Lleol Powys | 1,330 |
| Ymddiriedolaethau GIG yn Lloegr | 1,290 |
| **Cyfanswm** | **59,790** |

**Rhodri Glyn Thomas:** Gyda golwg ar bob un o Ymddiriedolaethau’r GIG, a wnaiff y Gweinidog ddweud a oes ganddo unrhyw fwriad o roi ad-daliad i Ymddiriedolaethau’r GIG sydd wedi profi diffyg cyllid gan Lywodraeth Cynulliad Cymru yn y flwyddyn ariannol gywir i dalu am yr Agenda ar gyfer Newid, ac a wnaiff ddarparu amserlen? (WAQ46420)

**Brian Gibbons:** Rwy’n eich cyfeirio at fy ateb diweddar i WAQ46226 ar 16 Mawrth 2006.

**Rhodri Glyn Thomas:** Gyda golwg ar bob Ymddiriedolaeth GIG, a wnaiff y Gweinidog fanylu ynghylch unrhyw ddiffyg yn y cyllid sydd ar gael i’r Agenda ar gyfer Newid yn y flwyddyn ariannol gyfredol? (WAQ46421)

**Brian Gibbons:** Nid yw cyfanswm costau gweithredu'r 'Agenda ar gyfer Newid' ym mhob ymddiriedolaeth GIG eto wedi eu cwblhau. Mae nifer o sefydliadau wedi modelu rhagamcanion o'r costau ond mae'r ffigurau hyn yn dal yn amcangyfrifon hyd nes y bydd yr holl swyddi staff wedi eu cyfatebu a'u hymgorffori a bod y staff wedi eu talu. Nid yw'r costau llawn yn debygol o fod wedi eu penderfynu tan ganol 2006-07.

Mae nifer o ymddiriedolaethau GIG yn parhau i ddweud eu bod yn rhagweld diffyg ar ddiwedd y flwyddyn. Mae'n bosibl bod y diffyg hwn yn cynnwys diffyg o ganlyniad i weithredu 'Agenda ar gyfer Newid'.

**Carl Sargeant:** Pa gyfran o gyllideb y GIG yng Nghymru a werir ar a) ymchwil wyddonol a b) ymchwil glinigol? (WAQ46422)

**Brian Gibbons:** Ni chaiff y wybodaeth hon ei chasglu'n ganolog yng nghyfrifon blynyddol cyrff y GIG.

Mae Swyddfa Cymru ar gyfer Ymchwil a Datblygu (WORD) yn cynnal ymchwil mewn iechyd a gofal cymdeithasol. Cyllideb WORD yn 2005-06 oedd £21,058,000. Yn fwy penodol mae swyddogaethau WORD yn cynnwys:

cefnogi ymchwil a datblygu yn y GIG drwy'r cynllun cefnogi darparwyr;

comisiynu prosiectau ymchwil o safon uchel drwy'r cynllun ariannu ymchwil;

datblygu capasiti a seilwaith ar gyfer ymchwil a datblygu er mwyn cynyddu ansawdd a maint yr ymchwil a wneir yng Nghymru;

cefnogi datblygu eiddo deallusol yn y sectorau iechyd a gofal cymdeithasol;

gweithio gyda sefydliadau academaidd a gwasanaethu i sicrhau bod systemau llywodraethu ymchwil yn cael eu gweithredu ledled Cymru; a

gweithio'n glos gyda chyrff ariannu eraill yn y DG er mwyn sicrhau bod Cymru'n manteisio ar y cyfleoedd sydd ar gael ar gyfer ymchwil.

Ymhlith y gwaith arall y mae WORD yn ei gefnogi mae:

parc geneteg Cymru, sy'n ymwneud ag ymchwil craidd mewn meysydd fel canser colorectal, sglerosis cnapiog a geneteg anhwylderau niwroseiciatrig; a

banc canser Cymru a rhwydwaith ymchwil canser Cymru.

**Jenny Randerson:** Yng nghyswllt cefnogaeth gyllidol y Gweinidog i roi’r Fframwaith Gwasanaeth Cenedlaethol ar gyfer Diabetes ar waith, at beth y defnyddir y £3 miliwn ac ar gyfer pa gyfnod y mae’r cyllid hwn? (WAQ46423)

**Brian Gibbons:** Yn ystod blwyddyn ariannol 2001-02, cyhoeddodd Jane Hutt y byddid yn trefnu bod £3 miliwn ar gael i ariannu prosiectau i baratoi ar gyfer y fframwaith gwasanaeth cenedlaethol ar gyfer diabetes. Yn ystod blwyddyn ariannol 2001-02 i 2003-04 darparwyd £1 miliwn y flwyddyn. Derbyniodd awdurdodau iechyd a byrddau iechyd lleol yng Nghymru ddyraniad o £750,000 bob blwyddyn i ariannu mentrau i baratoi ar gyfer gweithredu’r strategaeth gyflawni ar ddiabetes. Am y ddwy flynedd gyntaf ariannodd £500,000 brosiectau peilot ac ymchwil yn gysylltiedig â’r Fframwaith Gwasanaeth Cenedlaethol ac adolygiad y Comisiwn Archwilio i safonau gofal i gleifion wrth baratoi ar gyfer y Fframwaith Gwasanaeth Cenedlaethol. Cyhoeddwyd adroddiad diabetes Cymru gyfan ym mis Ionawr 2004, ynghyd â 22 o adroddiadau lleol i gynorthwyo i ddatblygu’r strategaeth gyflawni. Penodwyd Swyddog Diabetes hefyd i weithio gyda Diabetes UK er mwyn cael bersbectif y claf o’r Fframwaith Gwasanaeth Cenedlaethol.

Yn y flwyddyn olaf, 2003-04, darparodd y Cynulliad gyllid o £250,000 ar gyfer prosiectau Cymru gyfan a ddynodwyd o gynlluniau gweithredu’r strategaeth gyflawni lle yr oedd bylchau gwybyddus yn y gwasanaeth.

lleoedd hyfforddi ychwanegol i gynnal y prosiectau peilot i gleifion arbenigol;

cwrs sylfaen Cymru gyfan mewn diabetes i Feddygon Teulu;

cyrsiau diabetes Cymru gyfan i nyrsys arbenigol, dietegwyr, ymgynghorwyr – addasu dos inswlin ar gyfer bwyta normal;

cwrs addasu ymddygiad – dietegwyr Cymru gyfan.

**Grwpiau bregus**

cafodd un person o bob un o’r carchardai ei ariannu i fynychu cwrs diploma mewn diabetes;

comisiynwyd Coleg Brenhinol y Nyrsys i gyflwyno cyrsiau hyfforddi i nyrsys sy’n arbenigo mewn diabetes i addysgu pobl sy’n gweithio mewn

cartrefi preswyl a nyrsio, gellir defnyddio'r rhaglen hon hefyd i addysgu pobl sydd â diabetes Math 2;

hyrwyddo iechyd diabetes mewn cymunedau lleiafrifoedd ethnig, swyddog cronfa ddata Diabetes UK Cymru;

rhaglen addysg diabetes i fydwragedd.

**Jenny Randerson:** A yw'r Gweinidog yn bwriadu cyflwyno graddfa gyflog newydd ar gyfer deintyddion gofal sylfaenol sydd ar gyflog? (WAQ46428)

**Brian Gibbons:** Yn dilyn adolygiad o wasanaethau gofal sylfaenol gan ddeintyddion ar gyflog yn Lloegr, mae'r Adran Iechyd wedi cytuno bod cyflogwyr y GIG yn agor trafodaethau gyda Chymdeithas Ddeintyddol Prydain ar strwythur cyflog newydd ac amodau a thelerau cysylltiedig ar gyfer deintyddion gofal sylfaenol sydd ar gyflog i'w gyflwyno o 1 Ebrill 2007 ymlaen. Bydd Llywodraeth y Cynulliad yn enwebu sylwedydd i fynychu'r trafodaethau gyda'r bwriad o gynghori Gweinidogion ar eu haddasrwydd i'w cyflwyno yng Nghymru.

**Jenny Randerson:** A yw'r Gweinidog yn bwriadu codi'r swm a fuddsoddir i ddarparu gwasanaethau deintyddol ar gyflog? (WAQ46429)

**Jenny Randerson:** A yw'r Gweinidog yn bwriadu cynyddu nifer y deintyddion sydd ar gyflog ledled Cymru? (WAQ46430)

**Brian Gibbons:** Mae'r gwasanaeth deintyddol cymunedol, y deintyddion ar gyflog a gyflogir gan ymddiriedolaethau'r GIG, wedi bod yn destun adolygiad a gomisiynwyd gan Lywodraeth Cynulliad Cymru. Daeth ymgynghori ar yr adolygiad i ben ar 31 Rhagfyr 2005. Yn dilyn ystyriaeth lawn o'r ymatebion bydd Llywodraeth y Cynulliad yn rhyddhau ymateb cyhoeddus, a hefyd yn cyhoeddi canllawiau ar rôl y Gwasanaeth Deintyddol Cymunedol a gwasanaethau deintyddol gofal sylfaenol eraill sydd ar gyflog yn y dyfodol.

O'r 1 Ebrill ymlaen bydd buddsoddiad sylweddol yn y diwygiadau deintyddol newydd yn cychwyn comisiynu lleol sy'n rhoi rheolaeth gynyddol i Fyrddau Iechyd Lleol ynglyn â sut y caiff gwasanaethau deintyddol y GIG eu datblygu i fodloni anghenion lleol. Caiff cyfranogiad y Gwasanaeth Deintyddol Cymunedol i ddarparu gwasanaethau deintyddol ychwanegol ei ddatblygu ar hyn o bryd drwy bartneriaeth â'r Bwrdd Iechyd Lleol mewn nifer o ardaloedd.

**Jenny Randerson:** Ble mae'r Gweinidog yn bwriadu rhoi'r staff a gyflogir ar hyn o bryd gan yr Uned Dyfarniadau Myfyrwyr a Phroffesiynau Iechyd Cymru ar ôl diddymu Proffesiynau Iechyd Cymru? (WAQ46433)

**Brian Gibbons:** Bu adleoli staff Proffesiynau Iechyd Cymru yn destun gwerthusiad dewis lleoliad wedi'i gostio yn ystod 2005. Cymeradwyodd bwrdd y prosiect y byddai'r swyddogaethau hynny a fyddai'n cael eu parhau gan yr Asiantaeth Genedlaethol Arwain ac Arloesi mewn Gofal Iechyd fel rhan o'r uned newydd ar ddatblygu, addysgu a chontractio'r gweithlu, yn cael ei hadleoli ym mhrif swyddfa AGAAI yn Llanharan. Byddai swyddogaethau a oedd yn trosglwyddo i Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru yn cael eu hadleoli yn AGIC sydd wedi'i leoli yng Nghaerffili.

Er mwyn sicrhau parhad busnes, ceir symudiad gam wrth gam allan o Golate House dros y 4-6 mis nesaf. Bydd staff yr uned dyfarniadau myfyrwyr yn cael eu cyflogi gan Ymddiriedolaeth GIG Bro Morgannwg a bydd eu swyddogaeth yn dod yn gyfrifoldeb AGAAI. Rhoddwyd sicrwydd i'r uned dyfarniadau myfyrwyr y gwneid pob ymdrech i geisio adleoli yn ardal Caerdydd, er mwyn gwneud y gorau o gadw arbenigedd staff.

Ceisiwyd am opsiynau o fewn ystad y GIG ac arweiniodd hynny at gydleoli staff yr Uned Dyfarniadau Myfyrwyr gydag Atebion Iechyd Cymru yn Nhy Brunel, Caerdydd. Gwneir cynlluniau i drosglwyddo staff yr Uned Dyfarniadau Myfyrwyr allan o Golate House dros gyfnod amser tebyg i'r uchod.

**Jenny Randerson:** Pryd mae'r Gweinidog yn bwriadu cyhoeddi ei bapur polisi am ddyfodol gwasanaethau cymdeithasol a gofal cymdeithasol er mwyn ei osod ochr yn ochr â Chynllun Oes? (WAQ46434)

**Brian Gibbons:** Yr wyf yn bwriadu cyhoeddi'r fersiwn ymgynghori o'r papur polisi ar wasanaethau cymdeithasol ym mis Mai a'r fersiwn derfynol yn yr hydref.

**Jenny Randerson:** Pryd mae'r Gweinidog yn bwriadu cyhoeddi'r Strategaeth Datblygu Gofal Brys ac a fydd hon yn ddogfen ymgynghori? (WAQ46435)

**Brian Gibbons:** Mae'r newidiadau terfynol i ddrafft y polisi ar gyflwyno gwasanaethau gofal brys yn cael eu gwneud. Ymgymerir ag ymgynghoriad cyhoeddus wedi hynny. Yr wyf yn rhagweld, o ganlyniad i adolygiadau ychwanegol, y byddwn yn awr yn cyhoeddi'r ddogfen yn gynnar yn yr haf.

**Jenny Randerson:** Sut y mae'r Gweinidog yn bwriadu rhanbarthu comisiynu yng Nghymru a pha wasanaethau y mae'n bwriadu eu cynnwys yn hyn? (WAQ46436)

**Brian Gibbons:** Nododd 'Cynllun Oes' y ceid adolygiad trylwyr o gomisiynu, er mwyn cryfhau cynllunio a chomisiynu gwasanaethau iechyd yng Nghymru. Mae'r adolygiad hwn yn awr yn tynnu at y terfyn.

Mae gweithgor gorchwyl a gorffen ar gomisiynu wedi'i sefydlu, dan gadeiryddiaeth cyfarwyddwr y strategaeth iechyd a gofal cymdeithasol, ac yn cynnwys cynrychiolwyr o fyrddau iechyd lleol, ymddiriedolaethau'r GIG, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru a'r Gwasanaeth Iechyd Cyhoeddus Cenedlaethol.

Bydd y grwp hwn yn adrodd imi yn fuan ac yr wyf yn bwriadu cyhoeddi cynllun gweithredu – dan y teitl 'Designed to Deliver' – ym mis Mai 2006 a fydd, ymhlith pethau eraill, yn darparu fframwaith comisiynu newydd i'w roi ar waith erbyn mis Ebrill 2007.

**Jenny Randerson:** A yw'r Gweinidog yn bwriadu cynyddu'r cyllid sydd ar gael ar gyfer profion HER2 i ddiwallu'r cynnydd disgwyliedig yn y galw? (WAQ46437)

**Jenny Randerson:** Pa gynlluniau sydd gan y Gweinidog i gynyddu'r gallu i gynnal profion HER2 ar gyfer menywod sydd â chanser y fron yn ei gamau cynnar? (WAQ46439)

**Brian Gibbons:** Mae byrddau iechyd lleol ac ymddiriedolaethau'r GIG, sy'n gyfrifol am hyn, yn gweithio drwy'r rhwydweithiau canser rhanbarthol i dynodi a darparu'r gallu i weithredu canllawiau grwp strategaeth meddyginiaethau Cymru gyfan ar gynllunio ar gyfer, a gweithredu, triniaeth trastuzumab (Herceptin) pe byddai'n cael ei drwyddedu a'i gymeradwyo'n gadarnhaol gan y Sefydliad Cenedlaethol dros Iechyd a Rhagoriaeth Glinigol.

**Jenny Randerson:** A yw'r Gweinidog yn bwriadu cyflwyno system, ar ôl i Fyrddau Iechyd Lleol ysgwyddo'r cyfrifoldeb dros wasanaethau iechyd carchardai, er mwyn sicrhau y caiff cofnodion iechyd carcharorion eu trosglwyddo i'w meddygon teulu eu hunain pan gânt eu rhyddhau? (WAQ46438)

**Brian Gibbons:** Er mai'r byrddau iechyd lleol fydd yn comisiynu'r gwasanaethau iechyd yng ngharcharai'r sector cyhoeddus yng Nghymru, Gwasanaeth Carchardai Ei Mawrhydi fydd yn parhau i ddarparu'r rhan fwyaf o'r gwasanaethau hynny. Ar hyn o bryd mae gan y Gwasanaeth Carchardai ledled Cymru a Lloegr ffurf unigryw ar gofnod meddygol nad yw'n cydweddu â chofnodion meddygon teulu yn y gymuned. Caiff y cofnodion hyn eu cadw gan y Gwasanaeth Carchardai am y dyfodol rhagweladwy.

Ceir dyhead yn y tymor hir i gyflwyno system wybodaeth iechyd mewn carchardai, a fydd yn y pen draw yn ei gwneud yn bosibl i gael cyswllt electronig rhwng meddygon teulu a gwasanaethau iechyd carchardai. Yn y cyfamser ceir gorchymyn gwasanaeth carchar a gyhoeddwyd yn ddiweddar sy’n nodi’r gweithdrefnau i’w dilyn wrth dderbyn, trosglwyddo a rhyddhau. Mae’r rheiny’n cynnwys:

> sicrhau bod gwybodaeth am ofal sy’n parhau yn cael ei chyfleu i sefydliadau eraill wrth drosglwyddo ac i ysbytai GIG ar gyfer apwyntiadau cleifion allanol a chleifion mewnol/allanol;
>
> bod gwybodaeth i sicrhau parhad mewn gofal yn cael ei throsglwyddo, gyda chydsyniad y carcharor, i naill ai ei feddyg teulu a/neu asiantaethau cymunedol cyfrifol wrth ei ryddhau.

Caiff i ba raddau y mae gwasanaethau iechyd carchardai yn cydymffurfio â’r gweithdrefnau hyn ei fonitro gan y gwasanaeth carchardai a’r bwrdd iechyd lleol sy’n comisiynu fel ei gilydd.

**Jenny Randerson:** A fydd Cymru’n cymryd rhan yn y cynllun oncoleg fferyllol a sefydlwyd yn Lloegr? (WAQ46440)

**Brian Gibbons:** Mae’r cynllun oncoleg fferyllol yn bartneriaeth weithiol sy’n anelu at ddynodi a rhoi gweithgareddau sydd o ddiddordeb cyffredin a fydd yn y pen draw o fudd i gleifion canser ar waith.

Mae Cymru wedi sefydlu grwpiau Ymgynghorol ar radiotherapi a chemotherapi drwy’r grwp cydlynu gwasanaethau canser, sy’n cynnwys cynrychiolwyr o’r tri rhwydwaith canser a bydd y grwpiau hyn yn dilyn cynnydd y cynllun oncoleg fferyllol.

**Jenny Randerson:** A allai’r Gweinidog roi datganiad am yr anghysondeb rhwng cyfarwyddeb Bwrdd Iechyd Lleol Caerdydd sy’n awgrymu: nad oes yn rhaid i fferyllfeydd roi cyffur o’r un brand bob tro A’R datganiad gan Gynulliad Cymru sy’n datgan y dylid cadw cleifion ar gyffur o’r un brand (monotherapi) oherwydd natur sensitif triniaeth epilepsi? (WAQ46443)

**Brian Gibbons:** Er, ar y cyfan, nad yw defnyddio gwahanol frandiau o gyffuriau yn ddarpariaeth glinigol, mae llawer o gyffuriau gwrth-epilepsi yn gallu achosi ymadweithiau o bwys gyda chyffuriau eraill, a chyffuriau gwrth-epilepsi eraill yn benodol. Felly mae canllawiau’r Sefydliad Cenedlaethol dros Iechyd a Rhagoriaeth Glinigol yn pleidio defnyddio monotherapi lle bynnag y mae hynny’n bosibl i reoli epilepsi. Cafodd hynny ei adlewyrchu yn ein canllawiau. Byddaf yn cyfeirio eich cwestiwn at Fwrdd Iechyd Lleol Caerdydd fel y gellir unioni unrhyw ddryswch a allai fodoli.

**Eleanor Burnham:** Beth y mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi'i wneud i wella gwasanaethau iechyd meddwl? (WAQ46456)

**Brian Gibbons:** Mae gwella gwasanaethau iechyd meddwl yn parhau i fod yn un o brif flaenoriaethau iechyd a gofal cymdeithasol Llywodraeth Cynulliad Cymru, a chaiff hynny ei adlewyrchu yn y fframwaith gwasanaeth a chyllid ar gyfer 2006-07. O'r 21 targed cyflawni gwasanaeth mae pump yn ymwneud ag iechyd meddwl.

Mae £5 miliwn yn ychwanegol o gyllid blynyddol wedi ei ddarparu i fyrddau iechyd lleol i roi'r fframwaith gwasanaeth cenedlaethol a'r cynllun gweithredu diwygiedig ar iechyd meddwl oedolion a lansiwyd ym mis Hydref 2005 ar waith. Bydd yn cael ei ddefnyddio i ddatblygu seilwaith cymunedol ac ailgyflunio a moderneiddio gwasanaethau iechyd meddwl yng Nghymru. Mae'n rhaid i bob bwrdd iechyd lleol ddangos sut y bydd yr arian newydd hwn yn dod â buddiannau ychwanegol i wasanaethau iechyd meddwl, yn ychwanegol at yr hyn a ddisgwylir wrth gwrdd â thargedau'r fframwaith gwasanaeth ac ariannol presennol. Yn ychwanegol at hynny yr wyf wedi cyhoeddi £75 miliwn o fuddsoddiad cyfalaf yn ychwanegol i ddisodli unedau iechyd meddwl o'r oes o'r blaen fel yr amlinellwyd yn 'Cynllun Oes'.

Mae'r fframwaith gwasanaeth cenedlaethol ar gyfer plant, pobl ifanc a gwasanaethau mamolaeth yn mynd i'r afael ag iechyd meddwl a lles seicolegol plant a phobl ifanc. Mae'n cynnwys camau gweithredu allweddol penodol a mesuradwy ar gyfer cyflwyno gwasanaethau amlasiantaeth sydd wedi'u cysylltu'n glos â'r strategaeth gwasanaethau iechyd meddwl plant a phobl ifanc, 'Busnes Pawb'.

Trefnwyd bod £1.2 miliwn ar gael ar gyfer gwasanaethau iechyd meddwl plant a phobl ifanc yn 2004-05 i ariannu gwell darpariaeth gwelyau i bobl ifanc yn eu harddegau sydd angen eu derbyn ar frys, timau fforensig ymgynghorol ar gyfer yr arddegau a gweithwyr sylfaenol iechyd meddwl. Bu o gymorth i dimau arbenigol gwasanaethau iechyd meddwl plant a phobl ifanc leol i weithredu 'New Ways of Working in Mental Health' er mwyn gwella gwasanaethau.

**William Graham:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am ddosbarthiad cerbydau ymateb brys (RRV'S) a yrrir gan barafeddygon yn nwyrain y De? (WAQ46457)

**Brian Gibbons:** Cyfrifoldeb Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru yw lleoliad cerbydau ymateb brys a deallaf fod ganddi gerbydau ymateb brys yn y lleoliadau canlynol yn ne-ddwyrain Cymru: Y Barri, Caerdydd, Cas-gwent, Merthyr Tudful, Caerffili, Casnewydd, Bargoed, Aberdâr, Y Ddraenen Wen a Gelli.

**Carl Sargeant:** Pa bryd y bydd trigolion y Gogledd yn gallu cael mantais sganiwr PET heb orfod teithio pellter afresymol? (WAQ46465)

**Brian Gibbons:** Ar 3 Hydref 2006 cyhoeddodd y Gweinidog dros Ddatblygu Economaidd a Thrafnidiaeth a minnau fuddsoddiad o sawl miliwn o bunnau ar gyfer cyfleusterau sganio PET i Gymru wedi'u lleoli yng Nghaerdydd, gan gynnig manteision sylweddol i gleifion yng Nghymru yn ogystal â chynyddu ein posibiliadau o ran ymchwil feddygol flaengar.

Mae'r cyhoeddiad hwn yn ymwneud yn benodol â cham 1 cyflwyno PET yng Nghymru.

Mae grwp PET Cymru gyfan ar hyn o bryd yn trafod blaenoriaethau a lleoliad rhaglen ledaenu a bydd yn bwydo ei argymhellion yn ôl i Lywodraeth Cynulliad Cymru. Nid oes unrhyw ddyddiad cau wedi'i bennu ar gyfer y gwaith hwn. Er hynny, wrth ystyried yr argymhellion hyn a'r raddfa amser ar gyfer y lledaenu arfaethedig bydd angen i ni ystyried yr holl flaenoriaethau eraill o ran buddsoddi mewn gofal iechyd sydd gan Gomisiwn Iechyd Cymru, sy'n gyfrifol am gomisiynu sganio PET ar y cyd â'r Adran Iechyd a'r Bwrdd Buddsoddi Cyfalafol mewn Gofal Cymdeithasol.

Bydd Comisiwn Iechyd Cymru a rhwydwaith canser Cymru'n parhau i ymwneud â grwp cynllunio sganio PET gogledd-orllewin Lloegr i archwilio opsiynau eraill ar gyfer cynnig sganio PET i boblogaeth gogledd Cymru.

**Carl Sargeant:** A yw'r Gweinidog yn ymwybodol o unrhyw drafodaethau sydd ar y gweill rhwng Rhwydwaith Canser Gogledd Cymru a Chomisiwn Iechyd Cymru a grwp Cynllunio Sganio PET Gogledd Orllewin Lloegr? (WAQ46466)

**Brian Gibbons:** Mae Comisiwn Iechyd Cymru a rhwydwaith canser gogledd Cymru wedi cynnal trafodaethau cychwynnol gyda grwp sganio PET gogledd-orllewin Lloegr ynglyn â'r posibilrwydd i boblogaeth gogledd Cymru allu manteisio ar PET yng ngogledd-orllewin Lloegr.

Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi gwneud buddsoddiad sylweddol mewn sganio PET yng Nghymru gyda chyfleusterau sganio parhaol cychwynnol yn cael eu lleoli yng Nghaerdydd o 2008 ymlaen. Mae grwp sganio PET Cymru gyfan yn ystyried sut mae datblygu gwasanaethau PET ymhellach, gan gynnwys y ffordd orau o ddarparu mynediad at wasanaethau sganio PET i bobl gogledd Cymru.

Mae cyfarfod o grwp cynllunio PET gogledd Cymru'n digwydd ar 11 Ebrill. Caiff cynrychiolwyr o grwp gogledd-orllewin Lloegr eu gwahodd fel y gellir datblygu cynllun cydgysylltiedig.

**Elin Jones:** Beth yw’r cynnydd mewn TB ymysg pobl dros y pum mlynedd diwethaf? (WAQ46470) [W]

**Elin Jones:** Pa gyfarwyddyd a roddir i Fyrddau Iechyd Lleol parthed imiwneiddio yn erbyn TB ymysg pobl, ac a oes unrhyw ardal yn imiwneiddio yn erbyn TB? (WAQ46471) [W]

**Brian Gibbons:** Mae data dros dro ar gyfer 2005 yn nodi bod 165 o achosion o TB wedi eu hysbysu yng Nghymru. Mae hyn i’w gymharu â 179 yn 2004, 135 yn 2003, 143 yn 2001 a 193 yn 2000 (Ffynhonnell : Yr Asiantaeth Diogelu Iechyd). Mae epidemioleg TB yng Nghymru a’r DU wedi newid - o fod yn glefyd ymysg y boblogaeth gyffredinol yn y 1950au cynnar - i fod yn glefyd ymysg grwpiau risg uchel yn bennaf.

Mae Byrddau Iechyd Lleol (BILl) wedi cael canllawiau gan Lywodraeth Cynulliad Cymru mewn dau Gylchlythyr Iechyd Cymru diweddar (WHC 2005 062 a WHC 2005 077). Mae’r cylchlythyrau hyn yn rhoi manylion i’r holl weithwyr iechyd proffesiynol yng Nghymru ynghylch cynlluniau’r Cynulliad i roi rhaglen imiwneiddio rhag TB ar waith. Mae’r rhaglen hon wedi ei seilio ar argymhellion y Cydbwyllgor ar Imiwneiddio a Brechu, grwp arbenigol annibynnol sy’n cynghori’r Llywodraeth ym mhob un o bedair gwlad y DU. Yn ogystal â’r wybodaeth sydd yng Nghylchlythyrau Iechyd Cymru, bydd y Gwasanaeth Iechyd Cyhoeddus Cenedlaethol yn cyhoeddi ei Gynllun Arferion Gorau ar gyfer TB yng Nghymru eleni.

Mae ymddiriedolaethau’r GIG a’r Gwasanaeth Iechyd Cyhoeddus Cenedlaethol yn gweithio gyda BILl ledled Cymru i sicrhau bod y rhaglen BCG newydd yn cael ei rhoi ar waith mor effeithiol â phosib. Y grwpiau risg hynny sy’n cael eu targedu o dan y rhaglen newydd yw:

a) plant newydd-anedig gyda rhiant, taid neu nain a aned mewn gwlad lle mae mynychder TB o 40/100,000

b) plant dros12 mis:

> a anwyd mewn gwlad y tu allan i’r DU lle mae mynychder TB yn 40/100,000 neu’n fwy
>
> sydd â rhiant, taid neu nain a anwyd mewn gwlad lle mae mynychder TB yn 40/100,000 neu’n fwy
>
> sydd wedi dod i gysylltiad ag achos o TB, neu sy’n bwriadu ymweld â gwlad neu fyw mewn gwlad am gyfnod o fis neu fwy lle mae mynychder TB yn 40/100,000 neu’n fwy

Bydd plant hyn sydd heb gael eu brechu ac sydd â ffactorau risg penodol ar gyfer TB, a fyddai yn flaenorol wedi cael cynnig BCG yn yr ysgol, bellach yn cael eu hadnabod, eu profi ac yn cael eu brechu

os yw’n briodol.

Mae’r argymhellion o ran cysylltiad, galwedigaeth a theithio yn parhau i fod yr un peth. Mae’r newidiadau yn peri bod polisi TB Llywodraeth Cynulliad Cymru yn cydymffurfio â chanllawiau presennol Sefydliad Iechyd y Byd.

**David Lloyd:** A wnaiff y Gweinidog roi manylion y datblygiadau o ran rheoli Syndrom Blinder Cronig? (WAQ46503)

**Brian Gibbons:** Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru’n cydnabod bod syndrom blinder cronig ac enseffalomyelitis myalgig yn gyflyrau sy’n achosi nifer o anawsterau i weithwyr proffesiynol gofal iechyd o ran eu diagnosio, eu trin a’u rheoli.

Mae fy swyddogion wedi bod yn cymryd camau i fynd i’r afael â rheoli’r cyflyrau hyn ac wedi bod yn dilyn datblygiadau ymchwil yn cynnwys y rheiny y mae’r Cyngor Ymchwil Feddygol yn eu datblygu. Caiff canlyniadau datblygiadau’r Cyngor eu hasesu ymhen amser ac ystyrir eu canfyddiadau o ran triniaeth a rheolaeth addas ar gyfer syndrom blinder cronig ac enseffalomyelitis myalgig.

Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru ar y cyd â’r Adran Iechyd hefyd wedi comisiynu’r Sefydliad Cenedlaethol dros Iechyd a Rhagoriaeth Glinigol i ddatblygu canllawiau clinigol ar gyfer diagnosio a rheoli syndrom blinder cronig ac enseffalomyelitis myalgig. Bydd y canllawiau hyn yn rhoi cyngor clir ar ba wasanaethau y dylai’r GIG eu cynnig yn seiliedig ar y dystiolaeth orau sydd ar gael.

Cyfrifoldeb byrddau iechyd lleol ledled Cymru yw darparu gwasanaethau gofal iechyd. Y byrddau iechyd lleol sydd yn y sefyllfa orau i asesu anghenion iechyd lleol ac i flaenoriaethu datblygiadau yn y gwasanaeth yn unol â hynny. Mae’r penderfyniadau hyn yn aml yn anodd, a rhaid iddynt fod wedi’u seilio ar y dystiolaeth sydd ar gael ac adlewyrchu anghenion y boblogaeth leol.

**Leanne Wood:** A wnaiff y Gweinidog ddatgan a yw’r ymchwiliad arfaethedig gan gyn Weinidog Swyddfa Cymru Jon Owen Jones i arferion sgrinio ceg y groth yn Ysbyty’r Tywysog Charles ym Merthyr wedi’i gynnal ac os na chynhaliwyd ymchwiliad o’r fath, a wnaiff ddatgan paham na chynhaliwyd yr ymchwiliad hwnnw a chyhoeddi cynnwys unrhyw wybodaeth a ddarparwyd a arweiniodd at y penderfyniad i beidio â chynnal ymchwiliad? (WAQ46504)

**Brian Gibbons:** Deallaf fod ymchwiliad, a gynhaliwyd gan Awdurdod Iechyd Bro Taf, wedi’i gynnal cyn i’r Cynulliad gael ei sefydlu.

**Leanne Wood:** A wnaiff y Gweinidog gyhoeddi canlyniadau'r profion sgrinio ceg y groth gan nodi'r canran o ganlyniadau, graddfa isel, graddfa uchel a negyddol fesul bwrdd iechyd a fesul labordy ar gyfer pob blwyddyn y mae ystadegau ar gael ar ei chyfer rhwng 1990 a heddiw? (WAQ46505)

**Brian Gibbons:** Mae gwybodaeth am ganlyniadau profion ar gael fesul bwrdd iechyd lleol am ddwy flynedd 2004 i 2005 a fesul Labordy am 10 mlynedd am y cyfnod 1994-95 i 2004-05, ac fe'i cyhoeddir yn 'Ystadegau Iechyd Cymru'.

**Leanne Wood:** Pa asesiad sydd wedi'i wneud o drylwyredd gweithdrefnau profion ceg y groth? (WAQ46506)

**Brian Gibbons:** Sefydlwyd Sgrinio Serfigol Cymru ym 1999 ar ôl i'r Swyddfa Gymreig gyhoeddi fframwaith gwasanaeth cenedlaethol y rhaglen sgrinio serfigol yng Nghymru, ar ôl cynnal adolygiad o'r gwasanaeth gan Ymddiriedolaeth GIG Felindre, a gomisiynwyd gan y Swyddfa Gymreig.

Mae'r fframwaith gwasanaeth cenedlaethol yn disgrifio model ar gyfer cynnal sgrinio serfigol yng Nghymru, a arweiniodd at sefydlu Sgrinio Serfigol Cymru. Mae'n disgrifio'r trefniadau cyfundrefnol a'r strwythur rheoli sy'n gweithredu ar hyn o bryd ar gyfer y rhaglen sgrinio serfigol yng Nghymru ac mae'n cynnwys polisïau, gweithdrefnau, protocolau a safonau ar gyfer Cymru gyfan. Mae gwybodaeth ar gael o'r lefel drefniadol yr holl ffordd drwodd at ymarferwyr unigol.

Caiff y modd y rhoddir y polisïau gweithredu a'r gweithdrefnau safonol hyn ar waith, sut y caiff pob agwedd ar y rhaglen ei pherfformio'n ddyddiol ac asesiad o ganlyniadau'r rhaglen sgrinio i gyd eu monitro'n glos ac yn rheolaidd. Gwneir hyn drwy gynhyrchu adroddiadau perfformiad chwarterol rheolaidd ar bob agwedd o'r rhaglen ar 'sail treiglol 12 mis'. Caiff adroddiadau penodol eu llunio ar y sector gofal sylfaenol, galw ac adalw, gwasanaethau labordy (yn cynnwys sytoleg a histoleg) a gwasanaethau colposcopi. Darperir yr adroddiadau hyn i'r darparwyr gwasanaeth ar gyfer hunanasesiad yn ogystal â chael eu monitro ar lefel Cymru gyfan a lefel ranbarthol. Caiff yr adroddiadau perfformiad eu trafod mewn grwpiau rheoli lleol, ac, ar lefel Cymru gyfan, mewn cyfarfodydd uwch reolwyr. Mae gan Sgrinio Serfigol Cymru strwythur sicrhau ansawdd sydd wedi'i ddiffinio'n dda ac sy'n gweithredu ar lefel Cymru gyfan.

Mae'r strwythur rheoli'n rhannu Cymru'n bum rhanbarth. Caiff pob un o'r rhanbarthau hyn ei rheoli gan gydlynydd y rhaglen sydd â chymwysterau meddygol ac sy'n rhedeg adrannau gweinyddu'r sgrinio serfigol yn lleol, ac sy'n monitro ac yn adrodd ar faterion lleol ac yn adrodd yn ôl i reolwyr Cymru gyfan. Mae gan bob rhanbarth grwp rheoli lleol, yn cynnwys cynrychiolwyr o'r holl ddarparwyr gwasanaeth, dan gadeiryddiaeth cydlynydd y rhaglen.

Mae Sgrinio Serfigol Cymru'n ystyried bod hyn yn strwythur cadarn ac effeithiol ar gyfer asesu a

monitro’r rhaglen sgrinio serfigol yng Nghymru.

**Leanne Wood:** A wnaiff y Gweinidog ddweud pa weithdrefnau sgrinio ceg y groth a ddefnyddir yn ysbyty'r Tywysog Charles, Merthyr Tudful a sut mae'r rhain yn wahanol i’r hyn a wneir mewn ysbytai eraill yng Nghymru? (WAQ46507)

**Brian Gibbons:** Mae Ysbyty’r Tywysog Charles, Merthyr Tudful yn dod dan yr un safonau a’r un trefniadau monitro â’r holl labordai ledled Cymru.

Mae’r gweithdrefnau sgrinio serfigol a wneir ar hyn o bryd yn Ysbyty’r Tywysog Charles yn cydymffurfio â’r polisïau a’r gweithdrefnau gweithredu safonol. Disgrifir y gweithdrefnau hyn yn y *Cervical Screening Wales Laboratory QA Manual*, dogfen gyfeiriol dan reolaeth a gylchredir i bob labordy ledled Cymru. Mae’r polisïau a’r gweithdrefnau gweithredu safonol yn rhoi manylion safonol cynnal a chyflawni gweithdrefnau sgrinio serfigol o fewn y rhaglen sgrinio serfigol yng Nghymru.

Newidiwyd Ysbyty’r Tywysog Charles i sytoleg wedi’i seilio ar hylif tuag at ddiwedd 2005, ac felly nid yw’n wahanol o ran cyflawni gwasanaeth i unrhyw labordy darparu gwasanaeth arall yng Nghymru.

## Cwestiynau i’r Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio

**Peter Black:** A wnaiff y Gweinidog fanylu ynghylch unrhyw geisiadau neu ymholiadau a dderbyniwyd gan Gymdeithas Lleiafrifoedd Ethnig Cymru Gyfan am gyllid dan ei rheolaeth er 1999? (WAQ46325)

**Y Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio (Edwina Hart):** Caiff y Gymdeithas ei hariannu ar hyn o bryd i ddarparu cefnogaeth i Gymunedau yn Gyntaf fel rhan o’r bartneriaeth tîm i gefnogi pobl dduon o leiafrifoedd ethnig. Cytunais yn ddiweddar ar gyllid o £287,000 ar gyfer Adeiladu Ysgolion Ardderchog Gyda’n Gilydd yn 2006-07 i gwblhau’r gwaith hwn.

Er 1999, darparwyd £120,000 o gyllid i’r Gymdeithas o’r Gyfarwyddiaeth Dai dan strategaeth tai Pobl Dduon a Lleiafrifoedd Ethnig; £22,000 o’r Gyfarwyddiaeth Gymunedau; a £414,000 o’r Uned Polisi Cydraddoldeb.

**Leanne Wood:** A oes gan y Gweinidog unrhyw gynlluniau i geisio’r pwerau i ddiffinio’r ‘digartref bwriadol’ yng Nghymru ac a yw’n ymwybodol o unrhyw bryderon ynghylch y diffiniad presennol? (WAQ46374)

**Edwina Hart:** Mae gan Lywodraeth Cynulliad Cymru eisoes y pwer i ryddhau canllawiau statudol ar ddehongli a gweithredu'r ddeddf ar ddigartrefedd bwriadol. Mae'r pwer hwn yn ddigon i ni gwrdd â'n hamcanion polisi ar fwriadoldeb. Nid oes gennym unrhyw bryderon penodol ynglyn â'r diffiniad presennol o 'ddigartref bwriadol', ond yr ydym yn ymwybodol o bryderon ynglyn â sut y caiff y term hwn ei ddehongli a'i weithredu gan awdurdodau lleol mewn rhai achosion. Lle mae awdurdodau lleol yn penderfynu bod rhywun yn 'fwriadol ddigartref' yr ydym yn disgwyl iddynt gadw at ddarpariaethau Deddf Digartrefedd 2002.

**Leanne Wood:** A wnaiff y Gweinidog restru cyflogau'r bobl sydd wedi cael swyddi yn sgîl prosiectau Cymunedau yn Gyntaf? (WAQ46380)

**Leanne Wood:** A wnaiff y Gweinidog nodi cyfanswm y swyddi a grëwyd gan brosiectau Cymunedau yn Gyntaf? (WAQ46385)

**Edwina Hart:** Mae Cymunedau yn Gyntaf yn anelu at ddatblygu gallu ymhlith pobl leol – gan roi iddynt yr hunanhyder, yr arbenigedd a'r profiad i ymwneud â'r sefydliadau sy'n darparu'r gwasanaethau a fydd yn helpu i gyflawni adfywio cymunedol. Nid yw'n rhaglen ddatblygu economaidd safonol sy'n ariannu buddsoddiadau creu swyddi.

**Leanne Wood:** A wnaiff y Gweinidog restru pob prosiect Cymunedau yn Gyntaf a sefydlwyd er y flwyddyn 2000 a nodi faint y mae incwm pobl leol wedi cynyddu ar gyfer pob prosiect a restrwyd? (WAQ46381)

**Leanne Wood:** A wnaiff y Gweinidog restru pob prosiect Cymunedau yn Gyntaf a sefydlwyd er y flwyddyn 2000 a nodi nifer y swyddi a grëwyd gan bob prosiect a restrwyd? (WAQ46383)

**Edwina Hart:** Ni ellid darparu rhestr o'r holl brosiectau Cymunedau yn Gyntaf er 2000 heb fynd i gost anghymesur. Ynglyn ag effaith prosiectau ar incwm a'r swyddi a grëwyd, rwy'n eich cyfeirio at fy ateb i WAQ46380 a WAQ46385.

**Leanne Wood:** A wnaiff y Gweinidog restru cyflogau'r holl bobl a gyflogir gan bartneriaethau Cymunedau yn Gyntaf? (WAQ46382)

**Leanne Wood:** A wnaiff y Gweinidog nodi nifer y bobl a gyflogir gan bartneriaethau Cymunedau yn Gyntaf? (WAQ46384)

**Edwina Hart:** Nid yw'r rhan fwyaf o bartneriaethau Cymunedau yn Gyntaf wedi cael eu ffurfio'n gyfreithiol ynddynt eu hunain ac ni allant felly gyflogi staff yn uniongyrchol. Caiff staff timau Cymunedau yn Gyntaf fel arfer eu cyflogi gan sefydliad cynhaliol ar ran y bartneriaeth. Mae'r tabl sy'n cyd-fynd â'r ateb hwn yn rhestri'r bobl, a'u cyflogau, a gyflogir yn enw partneriaethau Cymunedau yn Gyntaf ers dechrau'r Rhaglen. Mae'r manylion yn cynnwys swyddi a gyflogwyd ar lefel drosfwaol i sicrhau dull mwy strategol o weithio rhwng partneriaethau a chyda sefydliadau sy'n darparu gwasanaethau.

Mae'r tabl wedi'i gyhoeddi fel atodiad i'r ffeil hon.

**Janice Gregory:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am brif lwyddiannau Llywodraeth Cynulliad Cymru ym maes Cyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio yn Ogwr? (WAQ46409)

**Edwina Hart:** Mae Ogwr yn elwa o nifer o gynlluniau sy'n cyflwyno ein hagenda cyfiawnder cymdeithasol ac adfywio. Mae'r rhaglen cyfleusterau a gweithgareddau cymunedol yn ymroddedig i adfywio Ogwr. Mae ardaloedd Cymunedau yn Gyntaf wedi eu sefydlu i godi dyheadau pobl leol. Mae'r bartneriaeth diogelwch cymunedol yn cael effaith ar droseddu ac anhrefn. Mae'r asiantaeth Gofal a Thrwsio yn helpu pobl hyn ac anabl i aros yn eu cartrefi.

**Leighton Andrews:** A yw'r Gweinidog yn ymwybodol o unrhyw ymchwil i effaith taliadau iawndal y Glowyr ar dlodi plant yn Ne Cymru? (WAQ46431)

**Edwina Hart:** Nid wyf yn ymwybodol o unrhyw ymchwil sy'n benodol yn ystyried effaith iawndal y glowyr ar dlodi plant yn Ne Cymru. Er hynny, mae'r Adran Masnach a Diwydiant wedi gwneud ymchwil i effaith iawndal y glowyr ar economi de Cymru yn gyffredinol. Mae'r ymchwil ar gael ar:

http://www.dti.gov.uk/coalhealth/External_review.shtml

**Carl Sargeant:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am yr hyn y mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn ei wneud i fynd i'r afael â digartrefedd? (WAQ46458)

**Edwina Hart:** Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi nodi ei hagenda i fynd i'r afael â digartrefedd yng Nghymru drwy'r strategaeth genedlaethol ddiwygiedig ar ddigartrefedd yng Nghymru 2006 i 2008 a gyflwynais i'r Pwyllgor Cyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio ar 16 Tachwedd 2005, fel SJR(2) 16-05 Papur 2: Strategaeth Genedlaethol ar Ddigartrefedd 2005.

**Mick Bates:** Pa sylwadau a gyflwynwyd gan y Gweinidog i Ysgrifennydd Gwladol Cymru ynghylch Llywodraeth Cynulliad Cymru’n ceisio pwerau dros reoliadau adeiladu er mwyn sicrhau bod pob cartref newydd yn cael ei godi’n unol â’r safonau uchaf o ran effeithlonrwydd ynni? (WAQ46467)

**Edwina Hart:** Nid wyf wedi cyflwyno unrhyw sylwadau i Ysgrifennydd Gwladol Cymru ynglyn â datganoli rheoliadau adeiladu i Lywodraeth Cynulliad Cymru.

## Cwestiynau i’r Trefnydd

**Peter Black:** Pa gyfarfodydd y mae’r Gweinidog wedi’u cael gyda swyddogion Cymdeithas Lleiafrifoedd Ethnig Cymru Gyfan yn ystod y 12 mis diwethaf? (WAQ46317)

**Y Trefnydd (Jane Hutt):** Nid wyf wedi cael unrhyw gyfarfodydd gyda swyddogion y Gymdeithas yn ystod y 12 mis diwethaf.

**Peter Black:** A wnaiff y Gweinidog fanylu ynghylch unrhyw grantiau a roddwyd i Gymdeithas Lleiafrifoedd Ethnig Cymru Gyfan er 1999 ynghyd ag unrhyw amodau a oedd ynghlwm wrthynt? (WAQ46318)

**Jane Hutt:** Fe’ch cyfeiriaf at yr ateb a roddais i David Lloyd yn WAQ46212. Mae’r cyllid yn dod dan amodau a thelerau safonol y Cynulliad ar gyfer grantiau.

**Peter Black:** A wnaiff y Gweinidog fanylu ynghylch unrhyw gyllid a ddarparwyd i Gymdeithas Lleiafrifoedd Ethnig Cymru Gyfan er mwyn llunio cronfa ddata i fapio mudiadau Pobl Ddu a Lleiafrifoedd Ethnig, ynghyd â nodi ei ganlyniad a sut yr aethpwyd ati i fesur llwyddiant y prosiect? (WAQ46319)

**Jane Hutt:** Yn 2004-05, comisiynodd Llywodraeth Cynulliad Cymru adolygiad o’r holl brosiectau a gâi eu hariannu gan grant yr oedd y Gymdeithas yn ymgymryd â hwy. Cafodd canlyniadau’r adolygiad eu cyhoeddi yn 2005 mewn adroddiad dan y teitl ‘All Wales Ethnic Minority Association (AWEMA): Review and Evaluation Report of Equality Policy Unit (EPU) Funded Projects’.

**Peter Black:** Pa gyllid a roddir gan Lywodraeth Cynulliad Cymru i fudiadau sy’n ymwneud â chymunedau Pobl Ddu a Lleiafrifoedd Ethnig a pha ganlyniadau a ddisgwylir yn sgîl y cyllid hwnnw? (WAQ46320)

**Jane Hutt:** Mae llawer iawn o’r sefydliadau a ariennir gan Lywodraeth Cynulliad Cymru yn ymwneud â chymunedau Pobl Ddu a Lleiafrifoedd Ethnig ac nid yw’n bosibl rhoi ateb i’r cwestiwn hwn heb fynd i gost anghymesur.

**Peter Black:** Sut y mae'r Gweinidog yn sicrhau bod mudiadau Pobl Ddu a Lleiafrifoedd Ethnig a ariennir gan Lywodraeth Cynulliad Cymru yn cynrychioli’r cymunedau y ceisiant ddwyn budd iddynt? (WAQ46321)

**Jane Hutt:** Ac eithrio pan fydd cynrychiolaeth yn ofyniad penodol, mae Llywodraeth Cynulliad Cymru’n trin mudiadau Pobl Ddu a Lleiafrifoedd Ethnig yn union yn yr un ffordd ag unrhyw fudiad arall o’r safbwynt hwn.

**Peter Black:** Pa ofynion cyfansoddiadol sylfaenol a bennir gan Lywodraeth Cynulliad Cymru cyn cymeradwyo cyllid ar gyfer mudiadau cynrychioladol megis Cymdeithas Lleiafrifoedd Ethnig Cymru Gyfan? (WAQ46322)

**Jane Hutt:** Dim ond pan fyddwn yn ariannu mudiadau i gynrychioli grwp neu gymuned benodol y bydd gofynion cyfansoddiadol yn berthnasol. Nid yw hynny’n wir am Gymdeithas Lleiafrifoedd Ethnig Cymru Gyfan.